



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwranddo ar Bobl

Y Proses Cwynion, Digwyddiadau
a lawndal GIG Cymru

- Canllawdïau i Sefydliadau

2026

Cynnwys

Cyflwyniad.....	7
Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru 2026.....	8
Rhagair gan Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol	8
Rhagair y Prif Swyddog Nyrsio	9
Egwyddorion Cyffredinol Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru	11
Addewid y Bobl ar Bryderon GIG Cymru	11
Pedair egwyddor Gwrando ar Bobl.....	11
Y Safonau.....	12
Dyletswyddau strategol a gweithredol, goruchwylio a threfniadau lleol	13
Y Dull: Cam 1 Gwrando a Gweithredu; Cam 2 Ymchwilio, Ymateb a Dysgu	17
Rhoi pobl wrth wraidd y broses.....	17
Cam 1 – Gwrando a Gweithredu	17
Gwrando.....	17
Gweithredu.....	18
Cam 2 – Ymchwilio, Ymateb a Dysgu	19
Ymchwilio.....	19
Ymateb.....	19
Dysgu	20
Hysbysu, cydnabod a graddio pryder	20
Pwy all godi pryder.....	22
Carcharorion sy'n codi pryderon	23
Materion sydd wedi'u heithrio rhag ystyriaeth o dan y Trefniadau	23
Terfyn Amser ar gyfer Hysbysu Pryderon	24
Tynnu pryderon yn ôl.....	25
Pryderon sy'n flinderus neu'n wacsaw	25
Graddio Pryderon	26
Egwyddorion Graddio	27
Fframwaith Graddio Niwed	28
Ymchwiliad annibynnol.....	29
Adrodd Cenedlaethol ac Uwchgyfeirio	29
Pryderon am niwed sydd ar fin digwydd neu barhaus	30

Gweithredu Rheoliad 24A: Canllawiau ar gyfer Atal Datrysiaid Cynnar neu Ymchwiliad	31
Pryd i ystyried atal dros dro	32
Cymhwyso Ymarferol a Phroses	33
Pryderon sy'n ymwneud â gofal sylfaenol	33
Pryderon ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol o dan drefniadau gyda Chorff GIG Cymru	34
Amgylchiadau Eithriadol	35
Llwybr Ymchwilio a Chydsyniad	35
Cyfathrebu Penderfyniadau a Hawliau	35
Pryderon sy'n ymwneud â chyrff cyfrifol eraill	36
Adnabod a Gweithredu Cychwynnol	36
Cydlynu a Dynodi Arweinydd	37
Trafodaeth wrando	37
Ymchwilio ac Ymateb	37
Cyfathrebu a Diweddariadau	37
Dysgu ac Adrodd	38
Uwchgyfeirio ac Anghydfodau	38
Ystyriaethau Cytundebol a Thrawsffiniol	38
Cyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd	38
Y rhai mewn profedigaeth ac sy'n codi pryderon am ofal	39
Pobl Mewn Profedigaeth ac sy'n Codi Pryderon am Ofal	39
Canllawiau ar y Dull (Proses ac Ymarfer)	40
Enghraifft achos i ddangos sut y gellir mynd i'r afael â dryswch ynghylch rolau mewn marwolaeth gymunedol gartref	41
Profedigaeth mewn gofal mamolaeth	41
Enghraifft achos — Marw-enedigaeth ar ôl 38 wythnos; a allai fod wedi cael ei hatal?	42
Profedigaeth plentyn neu berson ifanc	43
Enghraifft achos — Marwolaeth annisgwyl plentyn 9 oed; mae rhieni yn gofyn am atebion cyflym	44
Cyfeiriadau - profedigaeth	44
Y Gwasanaeth Archwilio Meddygol	45
Crwner EF a'r broses Gwrando ar Bobl	46
Cyfeiriadau – y Gwasanaeth Archwilio Meddygol	49
Y Drafodaeth Wrando	50
Cam 1 – Gwrando a gweithredu i ddatrys pryderon a'r cyfnod datrys yn gynnar	52
Egwyddorion Datrysiaid Cynnar	53

Penderfynu ar Addasrwydd ar gyfer Datrysiad Cynnar	53
Camau Gweithredu yn ystod y Cyfnod Datrysiad Cynnar.....	53
Adolygu gwybodaeth	54
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person sy'n codi pryder	54
Datrysiad boddhaol.....	55
Pan na ellir parhau â'r datrysiad cynnar.....	55
Cadw cofnodion a monitro	55
Tystiolaeth ymchwil sy'n cefnogi'r dull hwn	55
Rhestr Wirio Cydymffurfiaeth y Rheolwr	56
Cam 2: Ymchwilio, Ymateb a Dysgu	57
Y weithdrefn cyn ymchwilio o dan Reoliad 23.....	58
Ymchwilio i bryderon	58
Gwneud iawn.....	60
Trosolwg Cyffredinol	60
Ymateb i bryder	62
Rheoliad 24 (ymateb)	63
Rheoliad 26 (Ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod atebolrwydd cymwys neu y gallai fod atebolrwydd cymwys)	64
Rheoliad 31 (adroddiad yr ymchwiliad) a 33 (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad)	65
Proses gwneud iawn	66
Arbenigwyr annibynnol.....	69
Darparu cyngor cyfreithiol	69
Cyfyngiad - atal dros dro.....	70
Cwantwm	71
lawndal cyffredinol	71
lawndal arbennig.....	72
Cwantwm mewn achosion angheuol.....	73
Uned Adfer Digollediad	73
Ffioedd y GIG	74
Atodiad i'r Adran Gwneud iawn	75
Atebolrwydd Cymwys – esboniad	75
Dyletswydd Gofal.....	75
Safon Gofal: Torri Dyletswydd	75
Ymchwilio i Dorri Dyletswydd	76
Safon a Baich Profi	76
Achosiaeth	76

Prawf Achosiaeth Amgen - Cyfraniad Perthnasol	77
Ymchwilio i Achosiaeth	77
Pryderon sy'n ymwneud â chydysniad	78
Torri Dyletswydd (cydsyniad)	78
Risg Berthnasol.....	78
Achosiaeth (cydsyniad)	79
Gwneud iawn pan ddarperir gofal gan ddarparwyr GIG Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon	79
Egwyddor Graidd Tegwch	79
Y Cyd-destun Cyfreithiol Ledled y DU	80
Atebolrwydd cymwys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon	80
Camau sy'n ofynnol o dan Reoliad 38 (fel y'i diwygiwyd).....	81
Camau gweithredu pan godir Pryder Trawsffiniol	81
Cyfathrebu Canlyniadau Ymchwiliadau a Phenderfyniadau Gwneud iawn.....	82
Cyfathrebu Canlyniad Ymchwiliadau i Bryderon	83
Cyfathrebu Cynnig Gwneud iawn	84
Pryderon am ofal oedolion mewn perygl	86
Plant a phobl ifanc – codi pryderon ac ymateb iddynt.....	88
Cynnal Hawliau a Lles Plant a Phobl ifanc yng Nghyd-destun Pryderon	88
Egwyddorion Craidd a Hawliau Cyfreithiol.....	88
Diogelwch Seicolegol ac Effaith Emosiynol	88
Safonau Cyfathrebu	89
Cynnwys Rhieni, Gwarcheidwaid ac Eiriolwyr.....	89
Asesu Cymhwysedd a Chydysniad.....	89
Diogelu a Rhwymedigaethau Cyfreithiol.....	90
Ymateb i'r pryderon a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc.....	90
Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	92
Ymateb i Adroddiadau'r Ombwdsmon o dan Ddeddf 2019.....	92
Dyletswydd i sicrhau bod cyrff cyfrifol yn dysgu o bryderon.....	93
Egwyddorion	94
Dysgu o Bryderon	94
Rolau, llywodraethu ac atebolrwydd	95
Bwrdd a Phwyllgor.....	95
Arweinwyr Gweithredol	95
Adrodd ar y broses Gwrando ar Bobl ac integreiddio i'r system Rheoli Ansawdd	95
Adroddiad blynyddol.....	96

Rhestr Termau.....	99
Atodiad 1: Sylfaen dystiolaeth a darllen pellach.....	102
Y Drafodaeth Wrandu.....	102
Cyfathrebu Canlyniadau Ymchwiliadau a Phenderfyniadau Gwneud lawn	102
Atodiad: Siartiau llif.....	Error! Bookmark not defined.
ATODIADAU	103
Atodiad A	104
Addewid y Bobl ar Bryderon GIG Cymru	104
Beth allwch ei ddisgwyl pan fyddwch yn codi pryder:.....	104
1. Mynediad Hawdd, Cefnogaeth a Datrysiad Cynnar	104
2. Parch, Tosturi a Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	104
3. Gwybodaeth, Cyfathrebu a Diweddariadau Clir.....	104
4. Trin Amserol, Teg a Seiliedig ar Dystiolaeth.....	104
5. Canlyniadau Clir, Ymatebion Ystyrlon a Gwneud lawn.....	105
6. Dysgu, Gwella a Chraffu Annibynnol.....	105
7. Atebolrwydd, Tryloywder a'ch Hawl i Adolygu	105

Cyflwyniad

- 1.** Gwranddo ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru yw'r enw gweithredol ar gyfer y fframwaith sy'n llywodraethu adrodd ac ymchwilio i bryder, sy'n ymwneud â gofal a ddarperir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru. Mae'r term "pryderon" yn cynnwys cwynion a digwyddiadau diogelwch cleifion a gwneud iawn lle bo'n briodol. Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio fel dogfen gyfeirio gan gyrff cyfrifol a dylid eu darllen ar y cyd â [Dyletswydd Gonestrwydd y GIG](#) a [Dyletswydd Ansawdd y GIG](#).
- 2.** Ystyr y term "corff cyfrifol" yw un o gyrff GIG Cymru, darparwr gofal sylfaenol, neu ddarparwr annibynnol.
- 3.** Ystyr "corff GIG Cymru" yw Bwrdd Iechyd Lleol (BILI), un o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, neu Awdurdod Iechyd Arbennig.
- 4.** Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan gyrff cyfrifol i sicrhau bod eu prosesau yn bodloni gofynion rheoliadol o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau"), fel y'u diwygiwyd (sy'n cwmpasu diwygiadau a wnaed gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2026).
- 5.** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010¹ a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus² yn sylfaenol i'r canllawiau hyn.
- 6.** Mae'r prosesau a ddisgrifir yn y canllawiau hyn ynghyd â'r Prif Reoliadau yn llywodraethu'r ffordd y mae pob corff cyfrifol yn ystyried pobl sy'n codi pryder mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r GIG yng Nghymru ac yn ymateb i'r bobl hyn.
- 7.** Mae canllawiau cyhoeddedig ar wahân sydd â'r nod o esbonio i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u heiriolwyr pa hawliau sydd wedi'u darparu iddynt o dan y Prif Reoliadau a beth sy'n rhesymol i'w ddisgwyl gan y GIG mewn ymateb i godi pryder.
- 8.** Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r gofynion o dan y Prif Reoliadau a'u hegwyddorion sylfaenol, gan gynnwys gwranddo ar bryderon, gweithredu arnynt, a deall, dysgu a gweithredu newid ohonynt, gan wella ansawdd a diogelwch wrth ddarparu gofal.

¹ [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

² [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru 2026

Rhagair gan Jeremy Miles AS,
Ysgrifennydd y Cabinet dros
Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Mae ein system gofal iechyd yn seiliedig ar yr egwyddor allweddol bod yn rhaid i bobl fod wrth wraidd popeth a wnawn. Pan fydd rhywun yn codi pryder am eu gofal, mae'n gyfle i'r GIG gryfhau diogelwch ac ansawdd gwasanaethau mewn ymateb i hynny.

Cyflwynwyd *Gweithio i Wella*, y broses bryderon, cwynion ac iawn ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y GIG yng Nghymru neu o dan drefniadau gyda'r GIG yng Nghymru, yn 2011. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod pryderon pobl yn cael eu hymchwilio'n briodol, a bod gwersi yn cael eu dysgu pan fyddai camgymeriadau'n cael eu gwneud. Roedd hwn yn gam uchelgeisiol i Gymru – ar y pryd, nid oedd unrhyw ran arall o'r DU wedi mabwysiadu system mor rhagweithiol o wneud iawn.

Yn y 15 mlynedd ers hynny, mae degau o filoedd o bobl wedi cael eu helpu i godi eu pryderon ac i ddod o hyd i ddatrysiad.

Fodd bynnag, rydym bellach yn gwybod nad yw *Gweithio i Wella* wedi gweithio i bawb. Mae pobl wedi canfod bod y system yn rhy gyfreithiol; mae rhai yn teimlo ei bod yn brin o empathi a dealltwriaeth, ac y gall sefydliadau'r GIG fod yn amddiffynnod pan fyddant yn wynebu pryderon.

Yn dilyn gwaith helaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, rydym wedi diwygio'r system er mwyn ymateb i'r pryderon hyn a chryfhau'r broses gwynion ac iawn. Mae *Gwrando ar Bobl: proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru* yn ymgorffori system, sy'n blaenoriaethu cyfathrebu tosturiol i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi. Bydd diwylliant o ddysgu yn helpu i sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i ddysgu o bryderon er mwyn atal digwyddiadau rhag ailadrodd.

Mae mwy o ffocws bellach ar ddatrys yn gynnar yng ngham cyntaf y broses, lle ystyrir bod datrysiad cynnar yn briodol. Mae hyn yn cynnwys cynnig gorfodol o drafodaeth wrando, lle bydd cyrff cyfrifol yn ystyried profiad y person sy'n codi pryder. Mae'r ail gam yn cynnwys asesiad o atebolrwydd ac a ddylid gwneud cynnig o iawn.

Rydym yn gwybod y gall codi pryder deimlo'n ofidus, felly mae *Gwrando ar Bobl* yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu clir a thosturiol. Os defnyddir unrhyw derminoleg gyfreithiol neu feddygol gymhleth, bydd yn cael ei hesbonio'n briodol. Bydd pobl sy'n codi pryderon yn cael cynnig gwasanaethau eiriolaeth a chymorth a byddant yn cael

eu hysbysu am gynnydd yr ymchwiliad a'r amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad.

Mae *Gwrando ar Bobl* wedi'i ddatblygu gyda GIG Cymru, gan gynnwys cleifion, staff a sefydliadau partner. Rwy'n hyderus y bydd y canlyniad yn newid ystyrlon a chadarnhaol i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG.

Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i adeiladu system sy'n rhoi pobl yn gyntaf ac sydd bob amser yn gwrando, yn dysgu ac yn gwella.

Rhagair y Prif Swyddog Nyrsio

Rwy'n falch o gyflwyno'r canllawiau gweithredol hyn ar gyfer *Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru*. Mae'r ddogfen hon yn gam sylweddol ymlaen o ran cryfhau'r ffordd yr ydym yn ymateb i bryderon, yn dysgu ohonynt, ac yn gwella ansawdd a diogelwch gofal i bobl ledled Cymru. Fe'i datblygwyd gyda mewnbwn helaeth gan gydweithwyr ar draws byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, gofal sylfaenol, darparwyr annibynnol, arbenigwyr cyfreithiol a diogelu, ac yn hollbwysig lleisiau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu.



Mae'r broses *Gwrando ar Bobl* yn rhoi tosturi, eglurder ac atebolrwydd wrth wraidd sut y bydd pryderon yn cael eu trin nawr. Fel gweithwyr proffesiynol, rydym i gyd yn cydnabod bod pobl yn codi pryderon ar adegau o fregusrwydd a gofid. Gall sut rydym yn ymateb - ein bod yn agored, ein prydlondeb, ein hempatthi - lunio eu hymddiriedaeth yn y GIG am flynyddoedd i ddod. Mae'r canllawiau hyn yn darparu'r fframwaith i sicrhau bod ein gweithredoedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gyson ac yn cydymffurfio â'r gyfraith, tra hefyd yn eich cefnogi chi fel staff i gyflawni eich cyfrifoldebau yn hyderus ac yn ddiogel.

Bydd gweithredu'r dull cryfach hwn yn gofyn am ymrwymiad gan bob rhan o'r system. Rydych yn chwarae rhan hanfodol: p'un a ydych yn bwynt cyswllt cyntaf i rywun sy'n codi pryder, arweinydd clinigol sy'n gyfrifol am sicrhau ymchwiliad cymesur ac effeithiol, neu reolwr sy'n goruchwylio llywodraethu, dysgu ac adrodd. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer datrysiad cynnar, ymchwiliad cadarn, a chyfathrebu effeithiol, gan adlewyrchu'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi llesiant staff, darparu hyfforddiant priodol, meithrin diwylliant lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i leisio barn a bod dysgu'n arwain at welliant ystyrlon.

Nid ymarfer cydymffurfio yn unig yw hwn. Mae'n ymrwymiad diwylliannol i sicrhau bod pob pryder - boed yn fawr neu'n fach - yn cael ei wrando â pharch a'i ddefnyddio i gryfhau'r system. Mae'n ymwneud â gweithio ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol, lleihau niwed, ac ymgorffori diwylliant cyfiawn ac agored ym mhob gwasanaeth. Mae cleifion a theuluoedd yn haeddu'r sicrwydd bod y GIG yng Nghymru yn ymateb yn deg, yn dysgu'n dryloyw, ac yn gweithredu lle mae gofal yn methu.

Yn hollbwysig, mae'r canllawiau hyn hefyd yn cryfhau sicrwydd sefydliadol a system, gan alluogi cyrff y GIG i ddangos i fyrrdau, rheoleiddwyr a'r cyhoedd bod pryderon yn cael eu trin yn gyson, bod dysgu yn cael ei weithredu, a bod gwelliannau'n cael eu monitro a'u cynnal.

Rwy'n gwybod mor galed y mae staff yn gweithio, yn aml o dan bwysau sylweddol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i'ch cefnogi, eich arfogi a gwneud eich gwaith yn haws, nid yn anoddach. Drwy eu cymhwyso'n gyson, byddwch yn chwarae rhan uniongyrchol wrth wella profiadau pobl, cryfhau hyder y cyhoedd, atal niwed yn y dyfodol a gwella gofal.

Diolch am eich proffesiynoldeb parhaus, eich tosturi a'ch ymrwymiad i wrando a dysgu.

Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio

Egwyddorion Cyffredinol Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawn GIG Cymru

9. Nodau'r broses Gwrando ar Bobl yw:

- Gwella darpariaeth gofal mwy diogel drwy wrando a gweithredu
- Hyrwyddo diwylliant agored a chyfiawn
- Cynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth
- Lliniaru yn erbyn niwed yn y dyfodol
- Cefnogi datblygiad a dysgu staff
- Bodloni dyletswyddau cyfreithiol a safonau moesegol

Addewid y Bobl ar Bryderon GIG Cymru

10. Mae **Addewid y Bobl** ([Atodiad A](#)) yn nodi addewid clir, cyhoeddus ynghylch sut y gall pobl ddisgwyl i'w pryderon gael eu gwrando, eu cymryd o ddifrif, ac ymateb iddynt ar draws GIG Cymru. Mae'n esbonio mewn iaith glir y gwerthoedd o degwch, parch, bod yn agored ac amseroldeb sy'n sail i drin â phryderon, a'r hawliau sydd gan bobl wrth eu codi.

11. Ategir yr Addewid gan **yr Egwyddorion a'r Safonau** a drafodir isod, sy'n cydfynd â'r Prif Reoliadau. Mae'r Addewid yn darparu canllawiau ymarferol a safonau cyson y mae'n rhaid i gyrrff a staff cyfrifol eu dilyn yn eu hymarfer o ddydd i ddydd, gan sicrhau bod yr addewid a wneir i'r cyhoedd yn cael ei gyflawni mewn ffordd glir, atebol a chyson ar draws yr holl wasanaethau.

Pedair egwyddor Gwrando ar Bobl

12. Mae'n bwysig i bobl sy'n codi pryderon am ofal a ddarperir a/neu a ariennir gan y GIG bod y broses ar gyfer codi pryder drwy un pwynt hygrych symlach e.e. cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, cyfeiriad post neu drwy gynrychiolaeth wyneb yn wyneb. Gall pobl godi pryderon mewn amrywiaeth o ffyrdd (gweler rheoliad 11(1) (a) yn ysgrifenedig; (b) yn electronig; neu (c) ar lafar, naill ai dros y ffôn neu'n bersonol, i unrhyw aelod o staff y corff cyfrifol, y mae cyflawni ei swyddogaethau yn destun y pryder), ac maent yn gallu dewis y dull sydd fwyaf addas iddynt. Y corff cyfrifol sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn ar gael ac yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol lle mae disgwyliad clir i ystyried anghenion hygrychedd y boblogaeth gyfan y maent yn ei gwasanaethu, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

13. **Egwyddor gyntaf** Gwrando ar Bobl yw bod pobl sy'n codi pryderon yn cael eu gwrando'n weithredol; eu bod yn cael eu trin â pharch, cwртеisi ac mewn modd tosturiol, ac mae eu hawliau a'u hopsiynau wedi'u hegluro iddynt mewn ffordd y

gallant ei deall ac sy'n hygyrch i'w hanghenion penodol.

14. Mae'r hawliau a'r opsiynau hyn yn cynnwys yr hawl i eiriolaeth a chefnogaeth briodol drwy gydol y broses a bod hyn yn cael ei ystyried a'i gynnig yn weithredol, am ddim ar y pwynt mynediad. Yn ogystal, rhoddir gwybod i bobl y gallant ddatgan yn glir eu canlyniad a ddymunir a lle bo'n briodol, cynigir yr ateb hwn drwy ddatrysiaid cynnar amserol.

15. Yr **ail egwyddor** yw y bydd pryderon yn cael eu hymchwilio'n effeithiol mewn modd cymesur, bod yr amserlen ar gyfer cwblhau yn cael ei thrafod a'i chyfleu ar ddechrau'r broses, gan roi gwybod i bobl am gynnydd ac unrhyw oedi, a'u cynnwys yn y broses ymchwilio lle bo'n ymarferol. Rhaid cyfathrebu canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn glir i'r person a gododd y pryder yn ysgrifenedig, a defnyddio iaith y gellir ei deall yn hawdd, gan gynnwys esboniadau o unrhyw dermau meddygol neu gyfreithiol cymhleth a ddefnyddir.

16. Y **drydedd egwyddor** yw bod dyletswydd ar sefydliadau i ddysgu o'r pryderon hyn ac adrodd yn ôl. Rhaid iddynt ddatblygu camau gweithredu effeithiol i atal hyn rhag digwydd eto. Rhaid rhannu'r camau hyn â'r bobl sy'n codi pryder.

17. Y **bedwaredd egwyddor** yw bod yn rhaid i arweinwyr sefydliadau roi sicrwydd bod y ffordd y mae'r sefydliad yn ymdrin â phob pryder yn bodloni'r gofynion rheoliadol hyn yn effeithiol, ac yn darparu tystiolaeth o'r dysgu a wnaed. Mae hefyd yn dangos bod camau yn cael eu cymryd i gryfhau ansawdd a diogelwch gofal yn dilyn y broses Gwrando ar Bobl.

Y Safonau

1) Mynediad, Cymorth a Datrysiaid Cynnar

Rhaid i gyrff cyfrifol ddarparu llwybrau clir a hygyrch ar gyfer codi pryderon gydag un pwynt mynediad. Rhaid iddynt gynnig eiriolaeth yn weithredol o ddechrau'r broses ac addasiadau rhesymol a dewis iaith (Cymraeg/ Saesneg/ arall). Mae'n ofynnol i gyrff cyfrifol ddangos bod Datrysiaid Cynnar wedi'i ystyried yn weithredol fel y dull cychwynnol, lle bo'n briodol i'r pryder, tra'n sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu nac yn oedi mynediad at ymchwiliad ffurfiol pan fo angen.

2) Dull Parchus, Tosturiol ac sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Rhaid i gyrff cyfrifol ymdrin â phryderon mewn ffordd barchus a thosturiol ym mhob cam, gyda'r pwyslais ar gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a diwylliant o fod yn agored ac atebolrwydd. Disgwylir i bobl sy'n ymwneud â chodi pryderon fod yn barchus yn eu hymddygiad tuag at staff sy'n gwrando ar eu pryder ac yn ymchwilio iddo. Rhaid i gyrff cyfrifol gynnig cyfle i bobl gael trafodaeth wrando i sicrhau bod eu pryderon a'u dymuniadau yn cael eu hystyried drwy gydol y broses.

3) Gwybodaeth, Cyfathrebu a Diweddariadau Clir

Rhaid i gyrff cyfrifol esbonio'n glir y broses pryderon a'r opsiynau sydd ar gael, darparu cyswllt a enwir, cyfathrebu amserlenni tebygol, a rhoi diweddariadau cynnydd os yw'r rhain yn newid. Rhaid cynnal cyfrinachedd a phreifatrwydd, a dylid hysbysu unigolion am unrhyw ofynion rhannu gwybodaeth.

4) Dull Amserol, Teg a Seiliedig ar Dystiolaeth

Rhaid i gyrff cyfrifol asesu a graddio pryderon yn gywir a'u rheoli'n gymesur o fewn amserlenni disgwylidig. Rhaid iddynt uwchgyfeirio materion lle mae risg ddifrifol o niwed yn digwydd. Rhaid i gyrff cyfrifol ymchwilio i bryderon yn deg a heb ragfarn, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a lle bo'n briodol, cyfarwyddo arbenigwr meddygol ar y cyd. Rhaid i'r corff cyfrifol sicrhau bod unrhyw benderfyniad i eithrio pryder ar y sail ei fod yn ystyried ei fod yn flinderus neu'n wacsaw wedi'i gyfiawnhau, yn gymesur ac yn cael ei gofnodi.

5) Canlyniadau Clir, Ymatebion Ystyrlon a Gwneud iawn

Rhaid i gyrff cyfrifol ddarparu ymateb ysgrifenedig clir sy'n mynd i'r afael â phob mater a godwyd, a chynnig cyfarfod canlyniadau, gan esbonio'r canfyddiadau a'r penderfyniadau. Rhaid iddynt gynnig ymddiheuriadau lle bo'n briodol ac esbonio unrhyw gamau unioni i'w cymryd. Os ystyrir gwneud iawn, rhaid darparu cyfeirio i gymorth cyfreithiol a ariennir.

6) Dysgu, Gwella a Chraffu Annibynnol

Rhaid i gyrff cyfrifol nodi gwersi o bryderon a chymryd camau gweithredu i wella gwasanaethau er mwyn lleihau niwed yn y dyfodol. Rhaid iddynt adrodd ar themâu a chanlyniadau a rhannu'r rhain â'r person sy'n codi'r pryder. Rhaid i gorff cyfrifol ystyried a oes angen cyngor meddygol annibynnol yn ystod ymchwiliadau a lle mae'n penderfynu nad oes angen cyngor o'r fath mewn perthynas â phryder sy'n ymwneud â marwolaeth claf, neu niwed cymedrol neu ddifrifol iddo, rhaid i'r corff cyfrifol gofnodi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw.

7) Atebolrwydd, Tryloywder a'r Hawl i Adolygu

Rhaid i gyrff cyfrifol fod yn atebol am sut mae pryderon yn cael eu trin a chadw cofnodion cywir sy'n cydymffurfio â gofynion newydd ar gyfer adrodd blynyddol a dyletswyddau dysgu ar y cyd. Rhaid i gyrff cyfrifol esbonio'n glir y llwybrau uwchgyfeirio ac adolygu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

Dyletswyddau strategol a gweithredol, goruchwyllo a threfniadau lleol

18. O dan Ran 2 o'r Prif Reoliadau, mae'n ofynnol i bob corff cyfrifol gael dull integredig wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer ymdrin â phryderon sy'n cael ei arwain yn effeithiol, yn ymatebol, ac yn atebol i anghenion y boblogaeth y mae'n darparu gofaliachyd ar ei chyfer (rheoliad 7). Disgwylir hefyd bod yn rhaid i'r dull a gymerir

gwmpasu ei holl wasanaethau a darparwyr gwasanaethau; p'un a yw'r rhain yn cael eu darparu gan y GIG neu wedi'u hariannu gan y GIG ac yn cael eu darparu gan eraill. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu cyhoeddi mewn amrywiaeth o gyfryngau a'u gwneud ar gael i'r boblogaeth a wasanaethir (rheoliad 5). Dylai fod un pwynt cyswllt ar gyfer y system hon ac adnoddau digonol i sicrhau bod y corff cyfrifol yn bodloni'r amserlen 5 diwrnod gwaith ar gyfer cydnabod cael yr hysbysiad o bryder (rheoliad 22).

19. Rhaid bod arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol a gweithredol clir. Rhaid i bob corff cyfrifol ddynodi person i fod yn gyfrifol am gynnal trosolwg strategol o'i weithrediad o'r trefniadau o dan y Prif reoliadau. Pan fo'r corff cyfrifol yn un o gyrff GIG Cymru rhaid i'r person hwn fod yn un o'i aelodau nad ydynt yn swyddogion neu'n gyfarwyddwyr anweithredol fel y bo'n briodol (rheoliad 6 a rhan 8). Nid yw hyn yn effeithio ar gydgyfrifoldeb y Bwrdd am bryderon. Y disgwyliad yw bod pryderon yn cael eu hintegreiddio i system rheoli ansawdd y sefydliad ac yn llywio gwaith y bwrdd o amgylch y Ddyletswydd Ansawdd a bod integreiddio di-dor â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.³

20. Y Prif Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol am atebolrwydd. Rhaid dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol o ddydd i ddydd am weithredu'r trefniadau hyn i swyddog gweithredol a nodir fel y swyddog cyfrifol (rheoliad 7).

Y swyddog cyfrifol fydd:

- (a) yn achos un o gyrff GIG Cymru, person sy'n swyddog-aelod neu'n gyfarwyddwr gweithredol o'r corff hwnnw, fel y bo'n briodol
- (b) yn achos unrhyw gorff cyfrifol arall, y person sy'n gweithredu fel prif swyddog gweithredol y corff hwnnw; neu, os nad oes un:
 - (i) y person sy'n unig berchennog y corff cyfrifol;
 - (ii) os yw'r corff cyfrifol yn bartneriaeth, partner; neu
 - (iii) mewn unrhyw achos arall, cyfarwyddwr y corff cyfrifol, neu berson sy'n gyfrifol am reoli'r corff cyfrifol.

21. Ar gyfer gwasanaethau a gynhelir, mae'r swyddog atebol a'r swyddog cyfrifol yn parhau i fod yn Brif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfrifol y corff cyfrifol sy'n cynnal y gwasanaeth (h.y.) sefydliad Cymru gyfan a gynhelir gan fwrdd iechyd.

22. Yn achos Darparwr Gofal Sylfaenol, yr Uwch-Bartner Cyfrifol neu'r unig berchennog fydd hyn ac yn achos darparwr annibynnol y darparwr neu'r rheolwr cofrestredig yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011⁴. Mae'r ddau yn gyfrifol am sicrhau bod diwylliant y sefydliad yn un o fod yn agored a gonestrwydd tuag at bobl sydd â rheswm i gwyno, a sicrhau bod diwylliant cadarnhaol o adrodd am bryderon diogelwch cleifion, a dysgu ohonynt, ar waith. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu sefydliad yn ymgorffori ac yn cefnogi

³ Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2023/274/contents/made/welsh>

⁴ Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/contents/made/welsh>

‘Diwylliant cyfiawn’⁵ a'r ‘Fframwaith Codi Llais heb Ofn’⁶ ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio iddynt. Cyflawnir hyn drwy arweinyddiaeth strategol effeithiol i sicrhau bod pob aelod o sefydliad yn mabwysiadu'r egwyddorion a'r ymddygiadau hyn ac yn dangos hyn bob tro.

23. Mae Swyddog Atebol corff y GIG yn cadw'r cyfrifoldeb yn y pen draw am sicrhau bod cydymffurfiaeth yn erbyn y Prif Reoliadau a'r holl eitemau o wariant, er enghraifft, hawliadau digollediad, yn dod o fewn pwerau cyfreithiol y Bwrdd.

24. Rhaid bod llinellau clir o arweinyddiaeth weithredol, atebolrwydd ac adrodd o fewn y sefydliad i gefnogi trefniadau ansawdd a diogelwch y sefydliad, yn benodol o amgylch y broses bryderon a chyda'r camau gweithredu dilynol sy'n seiliedig ar ddysgu i sicrhau mai'r nod a'r ffocws yw gwella profiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

25. Mae'n ddyletswydd hefyd ar gyrff cyfrifol i ddangos drwy'r trefniadau goruchwyllo presennol gyda Pherfformiad a Gwella GIG Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, sut mae'r sefydliad yn gweithredu dysgu yn effeithiol i wella canlyniadau a chryfhau ansawdd a diogelwch darpariaeth gofal iechyd.

26. Gellir dirprwyo'r gwaith o drin ac ystyried pryderon o ddydd i ddydd i fodloni'r gofynion yn y rheoliadau ac yn y canllawiau hyn i'r uwch reolwr ymchwiliadau, fel yr amlinellir yn rheoliad 8.

27. Gall sefydliadau mawr aseinio'r rôl hon i sawl person o dan wahanol deitlau, ond dylai polisiâu nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol. Rhaid i ddisgrifiad swydd y person dynodedig nodi a bodloni'r holl ofynion rheoliadol o leiaf.

28. Rhaid asesu a blaenoriaethu digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r rolau hyn ac i gyrraedd y Safonau, bodloni'r Prif Reoliadau a'r canllawiau.

29. Mae'n ofynnol i bob corff cyfrifol ddatblygu strategaeth datblygu a hyfforddi sefydliadol fel rhan o'u dull integredig. Dylai'r strategaeth hon fynd i'r afael â'r lefelau staffio, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i weithredu'r broses Gwrando ar Bobl yn effeithiol ym mhob rhan o'r sefydliad cyfan, yn unol â rheoliadau 8 a 9.

30. Dylai dulliau integredig ganolbwyntio ar wrando ar bryderon, ymateb yn brydlon, ymchwilio'n gymesur, rhoi adborth clir a thosturiol, a galluogi dysgu sefydliadol. Dylai'r dull hefyd nodi sut mae staff sy'n codi pryderon yn cael eu cynnwys a dylai hyn fod yn unol â'r fframwaith “Codi Llais heb Ofn”⁷.

⁵ Diwylliant Cyfiawn mewn Gofal Iechyd <https://www.justculture.healthcare/> Gofal Iechyd/

⁶ Fframwaith Codi Llais heb Ofn GIG Cymru <https://www.llyw.cymru/fframwaith-gig-cymru-codi-llais-heb-ofn>

⁷ [Codi Llais heb Ofn: Fframwaith ar gyfer y GIG yng Nghymru](#)

31. Disgwylir hefyd bod cyrff cyfrifol yn gwneud pob ymdrech i gyfathrebu a hysbysebu hawliau pobl sy'n dymuno codi pryder yn effeithiol (rheoliad 5), sut maent yn dod o hyd i'r pwynt mynediad sengl lleol ar gyfer pryderon a pha gymorth y mae ganddynt hawl iddo a sut i gael y cymorth hwnnw (rheoliad 3).

32. Mae'n hanfodol bod cyrff cyfrifol yn rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau bod tegwch mynediad i grwpiau ymylol neu grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn eu poblogaeth leol, a bod monitro gweithredol o'r tegwch mynediad hwn⁸. Yn ogystal, dylai sefydliadau gael sicrwydd bod pobl yr un mor abl i godi pryder waeth beth fo unrhyw nodwedd warchoddedig, a bod hyn yn cael ei fonitro'n weithredol. Dylai'r swyddog cyfrifol gael sicrwydd bod pryderon sy'n ymwneud â rhagfarn a gwahaniaethu yn seiliedig ar unrhyw nodweddion gwarchoddedig wedi'u hymchwilio, a bod yr ymchwiliad wedi arwain at ddysgu priodol a gwelliannau wedi'u gwneud lle bo angen.

33. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol gan y Bwrdd, ac unrhyw bwyllgorau sydd â'r dasg o gynnal trosolwg o adborth a phrofiad y rhai sydd wedi cael achos i godi pryderon. Yn ogystal, dylai ddefnyddio data meintiol ac ansoddol i lywio unrhyw gynlluniau gwella angenrheidiol. Dylai hyn fod yn rhan o'r adroddiad blynyddol a threfniadau adrodd goruchwylio cyfnodol y bwrdd a phwyllgorau perthnasol gyda Pherfformiad a Gwella GIG Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

34. Rhaid i gyrff cyfrifol gael polisi ysgrifenedig ar drin pryderon, hawliadau digollediad am esgeuluster clinigol ac anaf personol, wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd neu bwyllgor awdurdodedig priodol. Rhaid i'r polisi o leiaf gwmpasu'r pwyntiau a nodir yn y Prif Reoliadau a'r canllawiau hyn a chynnwys unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â Chymru gyfan.

35. Rhaid i gyrff cyfrifol sicrhau bod cynlluniau addysg a hyfforddiant ar waith i gefnogi staff yn eu sefydliad i fod yn effeithiol yn eu rôl mewn perthynas â'r trefniadau hyn. Rhaid i'r polisiâu hyn fod yn glir ac ar gael i'w staff a rhaid i wybodaeth fod ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd.

36. Mae disgwyl y bydd cyrff cyfrifol, yn ogystal â'r adroddiad blynyddol sy'n ofynnol o dan reoliad 51 o'r Prif Reoliadau, yn ystyried y ffordd orau o adrodd ar welliannau i'w poblogaeth drwy'r broses *adrodd ar waith bob amser* y maent eisoes wedi'i datblygu o dan y Ddyletswydd Ansawdd⁹.

⁸ Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/welsh>

⁹ [Y ddyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd | LLYW.CYMRU](#)

Y Dull: Cam 1 Gwrando a Gweithredu; Cam 2 Ymchwilio, Ymateb a Dysgu

37. Mae'r broses Gwrando ar Bobl yn cynnwys dau gam. Mae Cam 1: Gwrando a Gweithredu yn canolbwyntio ar ddatrysiad cynnar ac yn cynnwys cynnig ar gyfer trafodaeth wrando. Mae'r drafodaeth hon yn gyfle i unigolion fynegi eu pryderon yn glir. Cam 2: Ymchwilio, Ymateb a Dysgu yw'r cam ymchwilio, fel y nodir yn rheoliad 23.

Rhoi pobl wrth wraidd y broses

Cam 1 – Gwrando a Gweithredu

Gwrando

38. Mae tystiolaeth gref y gall y ffordd y mae pobl yn cael eu trin ar ddechrau codi pryder osod y naws gyfan ar gyfer profiad person o'r broses bryderon, eu ffydd yn y sefydliad a pherthnasoedd neu ryngweithiadau yn y dyfodol ar gyfer darparwyr gofal iechyd a phobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae hefyd yn bwysig bod y bobl hynny yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u deall yn ddigonol os yw datrysiad effeithiol o'r mater yn gyraeddadwy.

39. Mae'r cam gwrando yn hanfodol wrth nodi pob agwedd ar y pryder i sefydlu'r holl faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r cam hwn yn cynnwys cynnig cymorth eiriolaeth, a chynnig gorfodol o drafodaeth wrando wyneb yn wyneb dros y ffôn, galwad fideo, neu drafodaeth wyneb yn wyneb. Mae'n ofynnol i gyrff cyfrifol gynnig y drafodaeth hon, er bod cyfranogiad yn wirfoddol i'r unigolyn sy'n codi'r pryder. Os ceisir datrysiad cynnar, rhaid iddo gael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y mae'r corff cyfrifol yn cydnabod y pryder. Rhoddir ffenestr 5 diwrnod gwaith cyn hyn i alluogi cydnabod derbyn y pryder, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dylid ystyried a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd¹⁰ wedi'i hysgogi.

40. Ffocws y cam gwrando yw galluogi'r unigolyn, y teulu, ei eiriolwr neu'r rhai sy'n agos at y person/teulu a ddewiswyd i fanylu ar y materion y maent yn pryderu amdanynt ac yn dymuno iddynt gael eu datrys.

41. Mae hwn, yn bennaf, yn gyfle i gasglu gwybodaeth lle mae sgiliau gwrando gweithredol, drwy ddefnyddio myfyrio ac aralleirio, yn atgyfnerthu bod y wybodaeth a roddir wedi'i chlywed yn glir ac yn gywir. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r wybodaeth ac yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n gwrando amsugno gwybodaeth yn fwy effeithiol. Dyma ddechrau meithrin agwedd o fod yn agored sy'n creu perthynas, yn dangos empathi ac yn rhoi dilysiad i'r person. Mae'n rhoi cyfle i'r person sy'n derbyn y pryder ofyn cwestiynau am eglurhad o unrhyw beth sy'n aneglur, ac yn galluogi gwell dealltwriaeth o flaenoriaeth y person a'r effaith y mae hyn wedi'i chael arnynt i ddeall pa gamau nesaf a allai fod yn angenrheidiol.

¹⁰ [Dyletswydd Gonestrwydd y GIG | LLYW.CYMRU](#)

42. Mae'n bwysig yn ystod y drafodaeth wrando y gofynnir i'r person beth yw ei ganlyniad a ddymunir o'r broses Gwrando ar Bobl. Gall hyn fod yn anodd ei fynegi i ddechrau, ond gyda chymorth gall amrywio o gydnabyddiaeth o natur y pryder sydd wedi digwydd gydag ymddiheuriad diffuant, i gamau gwneud iawn. Gallai'r camau hyn fod yn driniaeth neu ofal amgen, neu setliadau gwneud iawn ariannol. Gellid [ystyried dull sy'n seiliedig ystyriol o drawma](#) i helpu i adnabod a deall profiadau niweidiol a thrawmatig pobl.

43. Waeth beth fo'r canlyniad a ddymunir, mae llawer o bobl yn gofyn yn benodol bod angen iddynt wybod na fydd hyn yn digwydd eto i unrhyw un arall. Mae'n bwysig sicrhau bod y datrysiad a ddymunir yn cael ei gofnodi'n glir yn y system reoli briodol.

44. Mae rheoliad 14(5) bellach yn darparu'n benodol bod pryder sy'n cael ei ddatrys yn ystod y cyfnod datrysiad cynnar wedi'i eithrio o gwmpas y trefniadau ymchwilio a gwneud iawn o dan reoliadau 23 i 48. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn gosod unrhyw gyfyngiad ar y mathau o bryder y gellir eu hystyried ar gyfer datrysiad cynnar, ac nid yw'n eithrio pryderon lle mae niwed yn cael ei honni neu a allai fod yn bresennol. Pe bai eithriad o'r fath wedi'i fwriadu, byddai wedi cael ei nodi'n benodol yn y Prif Reoliadau.

45. Mae rheoliad diwygiedig 22(1)(h) yn egluro mai dim ond pan gynhelir ymchwiliad o dan reoliad 23 y gellir cynnal asesiad ynghylch a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gyfathrebu i'r person sy'n hysbysu'r pryder. Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod y sefyllfa hon yn cael ei hesbonio, ei bod yn dryloyw a bod cydsyniad ar sail gwybodaeth y person sy'n hysbysu'r pryder yn cael ei sicrhau i geisio datrysiad cynnar. Er, yn ymarferol, na fydd rhai achosion yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer datrysiad cynnar, nid yw'n gweithredu fel rhwystr ar ddefnyddio datrysiad cynnar pan honnir niwed neu lle ystyrir y gallai niwed fod yn bresennol.

Gweithredu

46. Unwaith y bydd y pryder wedi'i gydnabod heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod derbyn a chynnig y drafodaeth wrando wedi digwydd, mae'n bwysig bod unrhyw gyfle posibl i weithredu yn cael ei gymryd yn brydlon.

47. Gall hyn fod ar ffurf datrysiad cynnar y pryder, sy'n ceisio darparu datrysiad neu gam gweithredu sy'n cywiro'r sefyllfa neu'n darparu gwasanaeth sydd ei angen i unioni'r angen gofal.

48. Mae'n bwysig bod gwirio ffeithiau prydlon o'r hyn sydd wedi digwydd yn cael ei gynnal i sicrhau eglurder dealltwriaeth o amgylch achos y pryder. Mae hyn hefyd er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau lle bo'n bosibl i wneud y mwyaf o'r cyfle i leihau hyn rhag digwydd eto a darparu dysgu clir i'r sefydliad a'r rhai sy'n cymryd rhan.

49. Gall y camau a gymerir gynnwys y trefniadau i drafod gwybodaeth gyda chlinigwyr sy'n darparu gofal neu ddarparu atebion i gwestiynau am ofal neu gymryd camau gweithredu uniongyrchol i ddarparu gofal sydd ei angen. Efallai y bydd angen camau cywiro ar unwaith hefyd.

50. Efallai fod y camau gweithredu sy'n ofynnol yn cynnwys ymddiheuriad i'r person sydd wedi codi'r pryder, neu'r unigolyn y darparwyd y gofal iddo. Deellir nad yw rhoi ymddiheuriad ynddo'i hun yn dangos derbyn atebolrwydd, a dylid ei ystyried fel cam rhesymol a chymesur yn gynnar yn y broses.

Cam 2 – Ymchwilio, Ymateb a Dysgu

Ymchwilio

51. Mae gofyniad i gymhwyso dull cymesur i'r math a'r dull ymchwilio fel y gellir ymchwilio'n drylwyr ac yn effeithlon i'r pryder mewn modd amserol, ar ddyfnder addas i ddod i gasgliad. Mae'r gofyniad cyffredinol hwn yn golygu y dylai cyrff cyfrifol gymryd agwedd resymegol a chytbwys at ymchwilio i bryderon, gan gofio na fydd pob mater yn gofyn am yr un lefel o ymchwiliad. Mae angen i'r broses o drin y pryder fod yn sensitif i hyn ac ymdrin ag ef yn briodol a rhaid i'r person sy'n codi'r pryder gael ei hysbysu am yr amserlen arfaethedig a'r cynnydd neu unrhyw oedi.

52. Os yw ymchwiliad yn datgelu bod niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth wedi digwydd, mae angen ystyried a yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd¹¹ wedi'i hysgogi. Yn ogystal, mae gan bob corff cyfrifol ddyletswydd i asesu a yw'r gofal a ddarparwyd yn is na'r safon gofal a ystyrir yn rhesymol ar gyfer amgylchiadau'r sefyllfa glinigol. Os canfyddir bod hyn wedi digwydd, yna rhaid i'r sefydliad hefyd ystyried a yw'r ddarpariaeth gofal ar y lefel honno yn achos tebygol y niwed a ddiodefwyd. Os ystyrir bod y ddau yn bresennol, rhaid i gyrff y GIG hefyd benderfynu a ddylid gwneud cynnig o iawn priodol.

Dylid nodi bod y ddyletswydd hon i asesu ar gyfer atebolrwydd cymwys yn bodoli ar gyfer pryderon sy'n ddarostyngedig i reoliad 23 yn unig, ac nid yw'n berthnasol i'r rhai sy'n cael eu trin o dan y cam datrysiad cynnar.

Ymateb

53. Mae'n hanfodol bod y person sy'n codi'r pryder yn cael ymateb llawn ac amserol i'r ymchwiliad a gynhaliwyd. Dylai hyn fod mewn unrhyw ffordd hygyrch y gallent fod wedi'i datgan neu gytuno arni o'r blaen. Mae yna hefyd y gofyniad i gynnig mynd drwy canlyniadau'r ymchwiliad gyda'r person i ateb cwestiynau a helpu eglurder a dealltwriaeth mewn ffordd gymesur.

54. Mae gofynion ychwanegol i adrodd canlyniad ymchwiliadau penodol, yn fewnol o fewn y sefydliad ac fel y nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion F2. 2023 i Berfformiad a Gwella GIG Cymru a

¹¹ [Dyletswydd Gonestrwydd y GIG | LLYW.CYMRU](#)

Llywodraeth Cymru.

Dysgu

55. Mae dyletswydd benodol ar gyrff cyfrifol yn y broses Prif Reoliadau a Gwranddo ar Bobl i sicrhau bod nodi gwersi o bryderon ac ymchwiliadau yn cael ei ddatblygu yn gamau gweithredu effeithiol i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto a niwed i eraill yn y dyfodol (rheoliad 49).

56. Rhaid i bobl sy'n codi pryderon hefyd gael gwybod am y camau sy'n cael eu cymryd a, lle ystyrir gwneud iawn, camau a gymerir i atal hyn rhag digwydd eto. Dylai dysgu sefydliadol effeithiol fod yr amcan canolog. Mae arweinyddiaeth, a'r diwylliant y mae arweinwyr yn ei ddatblygu a'i gynnal, yn hanfodol i gyflawni hyn.

Hysbysu, cydnabod a graddio pryder

57. Mae angen i gyrff cyfrifol sicrhau bod cyfeirio a hysbysebu gweithredol yn bodoli, gan ystyried anghenion hygyrchedd a grwpiau nas clywir yn aml, i hysbysu pobl sut i godi pryder. Dylai hyn gynnwys y gofyniad cyfreithiol o ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg, ynghyd â darparu ieithoedd cymunedol a fformatau hygyrch i'r rhai sydd â nam ar y synhwyrâu neu'n niwrowahanol, a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

58. Mae angen un pwynt mynediad i'r rhai sy'n codi pryder o fewn corff cyfrifol. Fodd bynnag, gall unrhyw aelod o staff y cysylltir â nhw amlinellu ac esbonio sut y gall person godi pryder am ei ofal nhw neu ofal aelod o'r teulu neu rywun sy'n agos ato.

59. Pan fo rhywun yn cysylltu'n uniongyrchol ag aelod o staff yn hytrach na thrwy'r pwynt mynediad sengl, cyfrifoldeb yr aelod o staff hwnnw yw sicrhau bod y pryder yn cael ei adrodd a'i reoli'n briodol; naill ai drwy atgyfeirio i'r pwynt mynediad sengl, neu drwy ddatrysiad cynnar yn agos at y pwynt darparu gwasanaeth. Ym mhob achos, dylid dilyn y broses y cytunwyd arni yn y corff cyfrifol a rhaid cadw cofnodion cywir (rheoliad 11(2)).

60. Mae'n bwysig bod unigolion sy'n derbyn gofal gan wasanaethau'r GIG yn ymwybodol o'u hawliau i godi pryderon am eu profiad. Gall pryder gynnwys unrhyw anghydfod neu gŵyn a fynegir sy'n gofyn am eglurhad neu gwestiynau am ofal i'w hateb, neu gŵyn ffurfiol, neu hysbysiad digwyddiad diogelwch cleifion, neu hawliad am ddigollediad.

61. Gellir codi pryderon gydag unrhyw aelod o staff y corff cyfrifol. Mae'n hanfodol bod yr holl staff yn deall sut i dderbyn, cofnodi ac ymateb i bryderon yn unol â'r Prif Reoliadau, polisïau sefydliadol a safonau proffesiynol.

62. Gellir cyflwyno pryderon yn ysgrifenedig drwy lythyr neu ffurflen bryder ddynodedig, yn electronig, neu ar lafar yn bersonol neu drwy gyswllt ffôn neu fideo.

63. Pan fo pryder yn cael ei godi ar lafar, rhaid cymryd y camau canlynol:

- a. Rhaid i'r pryder gael ei ddogfennu'n ffurfiol gan aelod o'r tîm pryderon neu'r aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am reoli pryderon.
- b. Rhaid darparu copi o'r cofnod ysgrifenedig o'r pryder i'r unigolyn a'i gododd.

64. Yn unol â rheoliad 3, dylid ystyried dull cyfathrebu a bennwyd yn flaenorol yr unigolyn. Er ei bod yn angenrheidiol i'r corff cyfrifol gadw cofnod ysgrifenedig, mae'r rheoliad yn caniatáu i'r corff cyfrifol barchu a chadw at ddewisiadau a fynegwyd gan yr unigolyn ynghylch ei ddewis dull cyfathrebu.

65. Os yw'r pryder yn cael ei godi yn Gymraeg, rhaid darparu'r cofnod ysgrifenedig yn Gymraeg hefyd, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

66. Rhaid i staff gadw at bolisiâu a gweithdrefnau lleol ar gadw cofnodion a llywodraethiant gwybodaeth bob amser.

67. Mae cadw cofnodion effeithiol yn hanfodol i drin pryderon yn deg ac yn drylwyr. Rhaid i bob cofnod fod yn gywir, gan adlewyrchu'r ffeithiau yn glir ac yn wir; yn gyflawn, gan gynnwys yr holl fanylion perthnasol; yn ddealladwy, wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir a rhaid iddynt sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn hygyrch ac yn cael ei hesbonio os oes angen terminoleg gymhleth; ac yn gyfoes, wedi'i gofnodi ar adeg y digwyddiad neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Dylai cofnodion felly gydymffurfio â safonau proffesiynol a chanllawiau a gyhoeddir gan gyrff rheoleiddio.

68. Pan fo'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol o dan [Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd \(Cymru\) 2023](#), rhaid i gyrff cyfrifol gadw cofnod ysgrifenedig cynhwysfawr ar gyfer pob canlyniad andwyol hysbysadwy.

69. Dylai cofnodion gynnwys hysbysiad o'r Ddyletswydd Gonestrwydd; ymdrechion i gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaethau neu ei gynrychiolydd; unrhyw benderfyniad gan y defnyddiwr gwasanaethau neu'r cynrychiolydd i beidio ag ymgysylltu â'r broses gonestrwydd; a'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud ag ymchwilio i'r canlyniad andwyol a'i adolygu, gan gynnwys ymatebion neu adroddiadau interim a gyhoeddwyd o dan reoliadau 24, 26, 31 a 33 o'r Prif Reoliadau.

70. Pan asesir pryder a chanfyddir nad yw'n ysgogi'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yr arfer gofynnol yw dogfennu'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn. Mae hyn yn cefnogi sicrhau ansawdd a llywodraethu, dysgu sefydliadol a gwella gwasanaethau, a chydymffurfio â rhwymedigaethau adrodd o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, fel yr amlinellir ym Mhennod

4 o'r canllawiau statudol Dyletswydd Gonestrwydd.¹²

71. Rhagwelir mai'r system Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru fydd y brif system a ddefnyddir ar gyfer adrodd a chofnodi pob pryder a digwyddiad diogelwch cleifion. Fodd bynnag, ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol neu'r sector annibynnol efallai y bydd systemau eraill yn cael eu defnyddio. Rhaid i staff sicrhau bod cofnodion ar y system yn amserol, yn gywir, ac yn adlewyrchu cwmpas llawn y pryder ac unrhyw gamau a gymerwyd.

Pwy all godi pryder

72. Gall bron unrhyw un godi pryder, ac mae gan y corff cyfrifol ddyletswydd statudol i ystyried a ellir ymchwilio i'r pryder. Fodd bynnag, efallai na fydd bob amser yn bosibl rhannu manylion llawn unrhyw ymchwiliad dilynol â'r unigolyn a gododd y pryder, yn enwedig pan nad nhw yw'r claf neu'r cynrychiolydd penodedig, gan y gallai hyn dorri gofynion Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Gweler hefyd yr adran ar [Lwybr Ymchwilio a Chydsyniad](#).

73. O dan reoliad 12 o'r Prif Reoliadau, gall amrywiaeth o unigolion godi pryderon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddiwr gwasanaethau neu glaf sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn gwasanaethau gan gorff cyfrifol.
- unigolion yr effeithir arnynt neu sy'n debygol o gael eu heffeithio gan weithredoedd, gwallau, neu benderfyniadau'r corff cyfrifol.
- aelodau o staff cyrff cyfrifol.
- aelodau annibynnol o gorff cyfrifol, fel cyfarwyddwyr anweithredol neu aelodau nad ydynt yn swyddogion.
- partneriaid, er enghraifft, partner mewn practis meddyg teulu; a
- chynrychiolwyr sy'n gweithredu ar ran person nad yw'n gallu codi pryder ei hun, fel plentyn ifanc neu rywun sydd heb alluedd, neu lle mae'r person yn dymuno cael ei gynrychioli gan berson arall
- cynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran rhywun sydd wedi marw.

74. Pan fo cynrychiolydd yn gweithredu ar ran person arall, fel plentyn neu rywun sydd heb alluedd, rhaid i'r corff cyfrifol ystyried a yw'r cynrychiolydd yn addas i weithredu yn y swyddogaeth honno.

75. Os oes sail resymol i ddod i'r casgliad nad yw'r cynrychiolydd yn gweithredu er budd pennaf y defnyddiwr gwasanaethau, rhaid cyfathrebu'r penderfyniad hwn iddynt yn ysgrifenedig gan roi sylw dyledus i'r Prif Reoliadau. Hyd yn oed pan ystyrir bod cynrychiolydd yn anaddas, gall y corff cyfrifol benderfynu ymchwilio i'r pryder o hyd, yn enwedig pan fo materion diogelu yn cael eu nodi. Mewn achosion o'r fath, nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddarparu ymateb manwl i'r unigolyn a gododd y pryder oni

¹² [canllawiau-statudol-y-ddyletswydd-gonestrwydd.pdf](#)

bai ei bod yn rhesymol gwneud hynny ac ar ôl ystyried a yw rheoliad 24 A yn gymwys ([gweler yr adran Diogelu](#)).

Carcharorion sy'n codi pryderon

76. Mae gan garcharorion yng Nghymru hawl i'r un ansawdd ac amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd â'r rhai sydd ar gael i'r cyhoedd drwy GIG Cymru. Pan fydd carcharor yn codi pryder am ei ofal iechyd, rhaid i'r corff cyfrifol reoli'r pryder ac ymchwilio iddo yn unol â'r un gweithdrefnau a gymhwysir i bob unigolyn arall o dan y Prif Reoliadau.

77. Mae gan garcharorion hefyd yr hawl i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol a ddarperir gan Llais (Corff Llais y Dinesydd), sydd â dyletswydd i gynig cymorth cyfrinachol am ddim i helpu'r unigolion hyn i godi pryderon am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw'r cymorth eiriolaeth hwn yn effeithio nac yn cyfyngu ar hawl carcharor i godi pryder ar unrhyw gam gyda'r **Bwrdd Monitro Annibynnol**, sy'n gweithredu'n annibynnol i fonitro tegwch a pharch at y rhai yn y ddalfa.

Materion sydd wedi'u heithrio rhag ystyriaeth o dan y Trefniadau

78. O dan reoliad 14 mae materion penodol y tu allan i gwmpas y trefniadau ar gyfer trin â phryderon ac ymchwilio iddynt o dan y Prif Reoliadau. Rhaid i staff sicrhau bod yr eithriadau hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson, yn deg ac yn cael eu cyfathrebu'n glir i unigolion sy'n codi pryderon mewn modd sy'n empathig ac yn dosturiol.

79. Ni ddylid ystyried y materion canlynol o dan drefniadau a wneir o dan y Prif Reoliadau:

- Materion Cytundebol Darparwr Gofal Sylfaenol: pryderon a godwyd gan ddarparwr gofal sylfaenol sy'n ymwneud â thelerau ei gontract neu drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal sylfaenol.
- Materion Cyflogaeth: pryderon a godwyd gan aelodau staff corff cyfrifol sy'n ymwneud â'u contract cyflogaeth eu hunain.
- Materion yr ymchwilir iddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: pryderon sy'n cael eu hymchwilio ar hyn o bryd, neu sydd eisoes wedi'u hymchwilio gan yr Ombwdsmon, oni bai bod yr Ombwdsmon yn argymhell bod y corff cyfrifol yn cynnig gwneud iawn o dan Ran 6 (rheoliad 27) o'r Prif Reoliadau. Mewn achosion o'r fath, dim ond i benderfynu a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli ac i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon y gall ymchwiliad pellach ddigwydd.
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth: pryderon sy'n deillio o fethiant honedig i gydymffurfio â chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- Gweithdrefnau disgyblu: unrhyw gamau disgyblu sy'n cael eu cymryd neu eu cynnig gan gorff cyfrifol oherwydd ymchwiliad i bryder, neu sy'n deillio o'r ymchwiliad i bryder.

- Pryderon dyblyg neu a ddatryswyd yn flaenorol: pryderon sydd yr un fath â phryder a hysbyswyd ac a ddatryswyd yn flaenorol, oni bai bod y corff cyfrifol o'r farn ei bod yn rhesymol ailagor y mater.
- Materion a ystyriwyd yn flaenorol: pryderon sydd eisoes wedi'u hystyried o dan y Prif Reoliadau, neu o dan unrhyw weithdrefn pryderon flaenorol a oedd ar waith cyn 1 Ebrill 2011.
- Pryderon blinderus neu wacsaw: pryderon yr ystyrir eu bod yn ddi-sail neu wedi'u bwriadu i darfu.
- Materion sy'n destun achos sifil: pryderon sy'n destun achos sifil, neu sy'n dod yn destun achos sifil, gan gynnwys y cam cyn-cyfreitha.
- Ceisiadau Triniaeth Cleifion Unigol: mae pryderon sy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch ceisiadau am gyllid triniaeth cleifion unigol wedi'u heithrio rhag cael eu hystyried. Dylid ystyried o hyd y gofal neu'r driniaeth a ddarparwyd, y gwnaed y cais am Gyllid Cleifion Unigol amdano. Cyfeiriwch at Bolisi Cymru Gyfan ar gyfer Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol¹³.
- Pryderon y tu allan i gwmpas Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC): Pan mai'r corff cyfrifol yw AaGIC, unrhyw bryder nad yw'n ymwneud â darparu gofal iechyd gan y corff hwnnw.
- Pryderon a godir sydd y tu allan i'r terfyn amser ar gyfer hysbysu (rheoliad 15).

80. Os yw pryder yn dod o fewn yr eithriadau hyn fel y disgrifir yn rheoliad 14, rhaid i'r corff cyfrifol hysbysu'r person a gododd y pryder yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan esbonio'r penderfyniad a'r rhesymau drosto. Pan fydd rhan o bryder wedi'i eithrio ond nad yw elfennau eraill wedi'u heithrio, dylid ystyried y materion sy'n weddill o dan y trefniadau.

Terfyn Amser ar gyfer Hysbysu Pryderon

81. O dan y Prif Reoliadau, dylid codi pryderon fel arfer o fewn **12 mis** i'r dyddiad y digwyddodd y mater neu, os yw'n ddiweddarach, y dyddiad y daeth y person yn ymwybodol o'r mater. Mae'r amserlen hon yn helpu i sicrhau y gellir cynnal ymchwiliadau yn effeithiol pan fydd tystiolaeth yn parhau i fod ar gael ac atgofion yn ddibynadwy.

82. Mae'r rheoliadau'n caniatáu hyblygrwydd lle mae rhesymau da dros oedi cyn hysbysu corff cyfrifol am bryder. Mae hyn yn ôl disgrisiwn y corff cyfrifol. Os gall y person sy'n codi'r pryder ddangos rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny o fewn 12 mis, ac mae'n dal yn bosibl ymchwilio'n deg ac yn effeithiol iddo, gall y corff cyfrifol dderbyn y pryder y tu allan i'r cyfnod hwn. Yn yr achosion hyn, dylai'r corff cyfrifol esbonio i'r person sy'n codi'r pryder y gallai'r ymchwiliad gael ei gyfyngu gan argaeledd tystiolaeth, yn enwedig pan fo amser sylweddol wedi mynd heibio, neu pan fo staff allweddol wedi gadael y sefydliad. Dylid cyfathrebu hyn yn sensitif a'i ddogfennu'n briodol.

¹³ [Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol - Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru](#)

83. Yn ymarferol, fel arfer mae terfyn absoliwt o dair blynedd o ddyddiad y digwyddiad neu'r dyddiad y daeth y claf yn ymwybodol, pa un bynnag sydd ddiweddaraf. Penderfyniad y corff cyfrifol yw ystyried a yw'n fodlon bod gan y claf reswm da dros beidio â hysbysu o fewn yr amserlen yn rheoliad 15 ac y gellir ymchwilio i'r pryder yn effeithiol ac yn deg o hyd. Ni fydd pryderon a godir ar ôl y cyfnod hwn fel arfer yn cael eu hystyried o dan y trefniadau a wnaed o dan y Prif Reoliadau. Rhaid i staff sicrhau bod penderfyniadau ar derfynau amser yn cael eu cymhwyso'n gyson, eu cofnodi'n glir a'u cyfathrebu yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhesymau dros dderbyn neu wrthod hysbysiad hwyr.

Tynnu pryderon yn ôl

84. Er bod pobl yn gallu tynnu eu pryder yn ôl ar unrhyw adeg yn y broses, mae'n parhau i fod yn ddyletswydd ar y corff cyfrifol i asesu a yw ymchwilio i'r pryder yn parhau i fod yn briodol i sicrhau dysgu dilys neu atal niwed i eraill yn y dyfodol neu i gyflawni dyletswyddau statudol o dan gyfraith droseddol neu ddeddfwriaeth diogelu.

85. Os gwneir y penderfyniad i barhau â'r ymchwiliad, nid oes unrhyw ddyletswydd o dan y rheoliadau i hysbysu'r person a gododd y pryder am ganlyniad yr ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y corff yn cadarnhau, yn ysgrifenedig, gyda'r person sy'n tynnu'r pryder yn ôl.

Pryderon sy'n flinderus neu'n wacsaw

86. Dylid trin pob pryder yn deg ac yn dryloyw. Fodd bynnag, gellir ystyried bod rhai pryderon yn flinderus neu'n wacsaw. Gall enghreifftiau o'r hyn a olygir gan bryderon blinderus neu wacsaw fod yn ymddygiadau camdriniol, afresymol neu barhaus sy'n gosod gofynion gormodol ar staff.

87. Mae'r rhain yn cynnwys achosion lle mae'r mater sydd eisoes wedi'i ymchwilio yn cael ei ailgyflwyno heb dystiolaeth newydd, lle mae'r pryder yn ormesol neu pan fo camddefnydd canfyddedig o'r broses, neu lle mae'n ffansiöol neu nad oes ganddo unrhyw fanylion adnabyddadwy fel y person, ei fanylion cyswllt neu unrhyw gyfeiriad at y person yr effeithir arno. Gall pryderon o'r fath roi straen sylweddol ar adnoddau a llesiant staff, felly mae dull strwythuredig yn hanfodol wrth reoli'r pryderon hyn.

88. Gall y person sy'n codi'r pryder barhau i fod yn anfodlon am wahanol resymau, gan gynnwys diffyg tryloywder canfyddedig, oedi mewn ymateb, neu ddisgwyliadau afrealistig o ganlyniadau. Er mwyn lleihau uwchgyfeirio, dylai staff gyfathrebu'n glir, rheoli disgwyliadau yn gynnar, ac esbonio'r hyn y gellir ei gyflawni a'r hyn na ellir ei gyflawni. Gall dangos sut mae'r hyn a ddysgwyd wedi cael ei ddefnyddio hefyd helpu i adfer ymddiriedaeth.

89. Wrth ddelio ag ymddygiad parhaus neu gamdriniol, dylai staff aros yn broffesiynol ac yn empathig wrth sicrhau eu diogelwch eu hunain. Rhaid dogfennu

pob rhyngweithiad. Argymhellir dull fesul cam. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod emosiynau cryf yn aml yn bresennol, fel rhwystredigaeth, dicter a chynnwrf. Mae'r emosiynau hyn yn dderbyniol, ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn rhesymau dros eithrio pryder o gwmpas y trefniadau a wneir o dan y Prif Reoliadau.

90. Rhaid i unrhyw gyfyngiadau fod yn gymesur, wedi'u cyfathrebu'n glir, a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae rheoliad 14(1)(fa) bellach yn caniatáu i gorff cyfrifol eithrio pryder sy'n flinderus neu'n wacsaw o'r ymchwiliad. Fodd bynnag, rhaid i'r corff cyfrifol ddangos ei fod wedi dod i'w benderfyniad i beidio ag ymchwilio ar ôl ystyried yn ofalus.

91. Mae lles seicolegol staff yn flaenoriaeth lwyr. Gall pryderon ailadroddus neu ymosodol achosi straen a diffygio'n llwyr, felly dylai rheolwyr sicrhau mynediad at Iechyd Galwedigaethol, cwnsela a chymorth gan gymheiriaid. Yn ogystal, lle mae pobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i barhau i ganolbwyntio'n negyddol ar staff unigol, dylai sefydliadau ystyried cyfeirio materion at yr heddlu neu ofyn am gyngor cyfreithiol. Dylai cysylltiadau rheolaidd, asesiadau risg straen, a hyfforddiant gwydnwch fod ar waith, ochr yn ochr â manau diogel i staff drafod. Mae arweinwyr yn chwarae rôl allweddol wrth feithrin diwylliant cefnogol a sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwarchod a'u gwerthfawrogi.

92. Yr egwyddorion cyffredinol yw tegwch, cymesuredd a diogelwch. Dylid ystyried pob pryder i ddechrau ar eu rhinweddau, a dylid cymhwysu cyfyngiadau fel dewis olaf yn unig. Mae amddiffyn staff rhag niwed, gan gynnwys straen seicolegol, yr un mor bwysig â chynnal proses bryderon deg a thryloyw.

93. Dull Fesul Cam o ymdrin â phryderon blinderus neu wacsaw:

- 1) Cyhoeddwch lythyr rhybuddio yn amlinellu pryderon ac ymddygiad disgwylidig
- 2) Ystyriwch gyfyngu ar gyswllt i un pwynt cyswllt neu ohebiaeth ysgrifenedig yn unig
- 3) Os yw problemau'n parhau, ac, mewn achosion o fygythiadau neu aflonyddu, uwchgyfeiriwch y mater i dimau cyfreithiol neu ddiogelwch neu dîm cyswllt yr heddlu
- 4) Cofnodwch yr holl rhyngweithiadau a phenderfyniadau yn glir.
- 5) Mynnwch gymorth, er enghraifft drwy AD neu iechyd galwedigaethol, cwnsela, hyfforddiant gwydnwch a chysylltiadau rheolaidd.

Graddio Pryderon

94. Mae'r canllawiau hyn yn integreiddio diffiniadau niwed Cymru Gyfan a Pholisi Cenedlaethol GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion (f2, 2023) ac yn sicrhau cysondeb ar draws graddio niwed, uwchgyfeirio, system Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru a'r canllawiau statudol ar gyfer y Ddyletswydd

Gonestrwydd.

95. Mae graddio pryderon yn rhan hanfodol o'r broses ar gyfer pennu'r lefel briodol o ymchwilio cymesur, blaenoriaethu adnoddau, a sicrhau cysondeb o ran dull ar draws y GIG yng Nghymru. Er bod GIG Cymru yn gweithio i sefydlu canllawiau ehangach i gefnogi graddio pryderon ar draws y GIG yng Nghymru, mae'r egwyddorion canlynol i'w dilyn.

96. Anogir cyrff cyfrifol i archwilio gyda'r person sy'n codi'r pryder sut orau i gyflawni datrysiad, gan ystyried natur y pryder a godwyd, a lle bo hynny'n briodol, cyfeirio at ddulliau amgen ar gyfer datrys fel cofrestru ymholiad, atgyfeirio i'r Gwasanaethau Cyswllt Cleifion (PALS), darparu profiad drwy gofnodi data profiad pobl, a neu ddarparu adborth mwy pwrpasol drwy gofnodi stori ddigidol. Mae rheoliad 23 (1) yn gwneud darpariaeth benodol i ystyried a ellir datrys y pryder drwy ddull amgen o ddatrys anghydfod. Gallai cyrff cyfrifol felly ystyried dulliau fel cyfryngu.

97. Lle mae prosesau amgen wedi'u hegluro ond mae'r person yn dal i ddymuno codi pryder ffurfiol, rhaid i gyrff cyfrifol ystyried a yw Cam 1 neu 2 yn fwyaf priodol. Os ceisir datrysiad cynnar, rhaid iddo gael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'r corff cyfrifol yn cydnabod y pryder, sy'n golygu bod pryderon mwy cymhleth sy'n gofyn am fwy o ymchwiliad yn fwy tebygol o fod yn briodol fel Cam 2 o'r cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, y bwriad yw ceisio datrys yn gynnar yn gyntaf cyn symud i gam 2 lle mae hynny'n bosibl ei gyflawni a gellir ystyried pryderon sy'n ymwneud â niwed honedig neu bosibl i'w datrys yn gynnar, lle bo hynny'n briodol.

98. Bydd unrhyw amser a ddefnyddir yn ystod Cam 1 yn cael ei dynnu o unrhyw amserlen ymateb ddilynol a osodir yng Ngham 2. Darperir yr egwyddorion canlynol i helpu'r asesiad cychwynol o raddio.

Egwyddorion Graddio

99. Mae'r broses raddio yn cael ei llywio gan yr egwyddorion canlynol:

- Dealltwriaeth o natur y pryder, sut y cafodd ei hysbysu ac a oes unrhyw gyfrifoldebau statudol i adrodd am y mater sy'n destun y pryder.
- P'un a yw'r pryder yn cynrychioli mater a allai fod â chwmpas allanol neu fod â sensitifrwydd ehangach.
- P'un a yw niwed wedi digwydd neu wedi'i honni. Rhaid cymhwysu hyn yn ddynamig drwy gydol y broses.
- Rhaid asesu difrifoldeb y niwed hwnnw a adroddwyd gan ddefnyddio categoreddio niwed presennol GIG Cymru – rhaid asesu niwed yn ddynamig

drwy gydol y broses o ymchwilio ac ystyried a yw trothwy ysgogi'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gyrraedd.

- Dylid ystyried y potensial ar gyfer presenoldeb atebolrwydd cymwys a phan ganfyddir ei fod yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol, ystyried ymhellach a ddylid gwneud cynnig gwneud iawn (p'un a fyddai'r cynnig hwnnw'n debygol o fod yn fwy na'r trothwy gwneud iawn o £50,000).
- Gall pryderon rychwantu sawl parth neu sefydliad a dylid eu codio yn unol â hynny.
- Gall nifer o bryderon gradd is fod yn arwydd o risgiau strategol sy'n datblygu ac yn cyfiawnhau ystyried ymchwiliad mewn dull clwstwr i atal y tebygolrwydd o niwed yn digwydd yn y dyfodol.
- Ystyried a yw'r pryder yn nodi neu'n awgrymu ymddygiad gwahaniaethol neu droseddol neu niwed sydd ar fin digwydd neu niwed gwirioneddol parhaus i oedolyn neu blentyn mewn perygl.

100. Dylid ystyried yr egwyddorion hyn yn unol â'r gofynion o dan reoliad 23 (1) o'r Prif Reoliadau bod yn rhaid i gyrff cyfrifol ymchwilio i'r mater a godwyd yn yr hysbysiad o bryder mewn modd sy'n ymddangos i'r corff yn fwyaf priodol i ddod i gasgliad mewn perthynas â'r materion hynny yn drylwyr, yn gyflym ac yn effeithlon. Mae rheoliad 23 (1) yn nodi'r ystyriaethau y mae'n rhaid i gyrff cyfrifol roi sylw penodol iddynt.

Fframwaith Graddio Niwed¹⁴

Gradd	Enghreifftiau o Bryderon
Gradd 1 – Dim	• Oedi heb effaith glinigol; cwmpo heb unrhyw anaf; gwall gweinyddol wedi'i gywiro heb unrhyw effaith
Gradd 2 – Isel	• Mân oedi mewn triniaeth • Cynnydd byr yn hyd yr arhosiad (1–3 diwrnod) • Mân anaf sy'n gofyn am driniaeth syml
Gradd 3 – Cymedrol	• Anaf y gellir ei osgoi sy'n gofyn am ymyrraeth • Aildderbyn neu ddychwelyd i'r feddygfa • Trosglwyddo i aciwtedd uwch sy'n arwain at ymyrraeth i achub bywyd • Digwyddiad adroddadwy RIDDOR
Gradd 4 – Difrifol	• Niwed parhaol neu anabledd neu golli swyddogaeth: • Arhosiad estynedig yn yr ysbyty (>15 diwrnod) gyda chanlyniadau parhaol • Torri safonau cenedlaethol yn sylweddol
Gradd 5 – Marwolaeth	• Marwolaeth y gellid bod wedi'i hosgoi neu ofal a gyfrannodd ati; marwolaeth famol/amenedigol/baban

¹⁴ [duty-of-candour-annex-b.pdf](#)

- Methiant difrifol i gyrraedd safonau
- Effeithiau iechyd na ellir eu gwrthdroi

Ymchwiliad annibynnol

101. Mae *annibyniaeth* yn cyfeirio at **gyfranogiad gwrthrychol a diduedd unigolion** wrth ymchwilio i bryderon, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â niwed cymedrol, difrifol neu farwolaeth. Mae annibyniaeth yn sicrhau nad yw'r ymchwiliad yn cael ei ddylanwadu'n ormodol gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal neu reoli'r claf neu'r gwasanaeth dan sylw.

102. Yn unol â rheoliad 23, **rhaid** i gyrff cyfrifol roi sylw penodol i a oes angen cyngor meddygol annibynnol neu gyngor annibynnol arall i gefnogi'r ymchwiliad i'r pryder. Gall hyn fod yn arbenigedd clinigol, meddygol, nyrsio neu therapi neu arbenigedd tebyg gan berson hyfforddedig â chymwysterau priodol o fewn yr un sefydliad ond mewn gwasanaeth gwahanol nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gofal hwnnw sy'n destun ymchwiliad. Ni ddylent fod â gwrthdaro buddiannau drwy gyfranogiad uniongyrchol, i gynorthwyo adolygiad o'r dystiolaeth a gafwyd, helpu i ffurfio neu herio neu ddod i gasgliadau.

103. Fel arall, pan nad yw hyn yn bosibl gan nad yw person o'r fath yn bodoli neu ystyrir nad yw'n briodol oherwydd difrifoldeb y pryder neu'r honiad, efallai y byddant yn dod o sefydliad arall fel bwrdd iechyd arall neu goleg brenhinol neu arbenigedd allanol o restr o arbenigwyr clinigol lle mae'r unigolyn a ddewiswyd yn cael ei gomisiynu i ddarparu barn glinigol a allai wedyn helpu'r person sy'n arwain yr ymchwiliad i ddod i'w gasgliad wrth ddarparu cyngor meddygol annibynnol.

104. Y corff cyfrifol fydd yn penderfynu ar ba lefel o gyngor, os o gwbl, sy'n ofynnol ond rhaid iddynt gofnodi eu rheswm dros benderfynu peidio â cheisio cyngor annibynnol. Mae'n arfer da cofnodi'r rhesymeg dros bob penderfyniad yn hyn o beth. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd ac yn galluogi craffu ar a oedd yr ymchwiliad yn ddigon cadarn.

105. Nid yw'r Prif Reoliadau yn cynnwys hawl i unigolyn fynnu neu orfodi corff cyfrifol i ofyn am gyngor meddygol annibynnol at ddibenion ymchwilio i'r pryder.

Adrodd Cenedlaethol ac Uwchgyfeirio

106. Cymhwyswch bum egwyddor Digwyddiadau Cenedlaethol y gellir Adrodd Arnynt (NRI):

- 1) Rhaid adrodd – Digwyddiadau Byth; lladdiad iechyd meddwl a amheuir; hunanladdiad/marwolaeth hunanachosedig a amheuir mewn unrhyw leoliad clinigol neu yn ystod absenoldeb awdurdodedig/y cytunwyd arno, yn dilyn rhyddhau wedi'i gynllunio'n ddiweddar, neu ar ôl absenoldeb/rhyddhau heb ei gynllunio; marwolaethau mamol, amenedigol a babanod.

- 2) Canlyniad/niwed – rhowch wybod a yw niwed difrifol/marwolaeth yn cael ei asesu neu a amheuir o fewn 7 diwrnod gwaith (gallwch israddio yn ddiweddarach os yw'n briodol).
 - 3) Niferoedd yr effeithir arnynt – ystyriwch adrodd cenedlaethol ar gyfer effaith ar raddfa fawr (e.e., sgrinio, methiant TG, tarfu ar wasanaeth).
 - 4) Cyfleoedd dysgu – ystyriwch ddigwyddiadau a fu bron â digwydd/dim niwed neu niwed isel sy'n cynnig dysgu cenedlaethol.
 - 5) Gwnewch benderfyniadau ar y cyd – cynnwys partneriaid yn gynnar ar gyfer ymchwiliadau ar y cyd.
- Mae EWN (Hysbysiad Rhybudd Cynnar) ar wahân i NRI; Mae'n rhybudd cyflym a ddefnyddir i nodi pryderon diogelwch difrifol fel y gall gweithredu ar unwaith a dysgu sefydliadol ddigwydd, a dylid ei gwblhau lle bo'n berthnasol.
 - Defnyddio system rheoli pryderon unwaith i Gymru ar gyfer pob digwyddiad; defnyddiwch YCFF neu debyg ar gyfer NRI i gefnogi dadansoddiad ffactor cyfrannol a themâu trawsbynciol.
 - Ysgogiadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd lle digwyddodd niwed anfwriadol/annisgwyl gymedrol neu fwy (neu farwolaeth), ac roedd darparu gofal iechyd yn ffactor neu gallai fod wedi bod yn ffactor.
 - Ar gyfer marwolaethau, cysonwch â phrosesau'r Archwilydd Meddygol/Crwner EF.

Pryderon am niwed sydd ar fin digwydd neu barhaus

107. Pan fydd pryder yn nodi bod niwed ar fin digwydd, yn fwriadol, neu'n barhaus, neu lle mae unrhyw amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod, rhaid i'r ymateb fod ar unwaith a blaenoriaethu diogelu. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan bob sefydliad iechyd ac ymarferydd ddyletswydd gyfreithiol i weithredu i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan y canllawiau statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr wrth amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o niwed.

108. Mae'r dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf uchod yn cynnwys dyletswydd gyffredinol ar gyfer llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth sy'n cynnwys cydnabyddiaeth gyflym ac uwchgyfeirio i'w hamddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n dod yn ymwybodol o bryder sy'n awgrymu niwed sydd ar fin digwydd neu barhaus ei drin fel mater diogelu a'i uwchgyfeirio heb oedi. Mae camau gweithredu ar unwaith yn cynnwys sicrhau bod y person yn ddiogel, rhybuddio'r ganolfan neu'r arweinydd diogelu lleol (neu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth lle y'i sefydlwyd), ac ystyried a yw'r sefyllfa yn cyfiawnhau atgyfeiriad brys i'r heddlu. Pan fo unrhyw arwydd o ymddygiad troseddol—fel cam-drin corfforol neu rywiol, esgeulustod bwriadol, neu ymosodiad difrifol—dylai cyswllt â'r heddlu ddigwydd yn brydlon ac ochr yn ochr ag atgyfeiriadau diogelu. Mae'r ddyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu i'r awdurdod lleol (plant ac oedolion) ac i gydweithredu wrth wneud penderfyniadau amlasiantaethol yn parhau i fod yn

annibynnol ar y broses Gwrando ar Bobl ac ni ddylai gweithredoedd Gwrando ar Bobl ymyrryd â'r prosesau diogelu hynny.

109. Ni ddylid cymryd y camau hyn ar wahân. Dylai trafodaethau gydag uwch arweinwyr clinigol ac arweinydd diogelu'r sefydliad ddigwydd cyn gynted â phosibl i gadarnhau'r asesiad risg a sicrhau bod prosesau atgyfeirio yn cael eu dilyn yn gywir ac yn gyflym. Rhaid i sefydliadau ddarparu canllawiau lleol clir a manylion cyswllt hygyrch ar gyfer timau diogelu, trefniadau y tu allan i oriau, a llwybrau uwchgyfeirio. Dylid cefnogi a grymuso staff i weithredu'n bendant, gyda sicrwydd bod cyfrifoldebau diogelu yn drech nag oedi gweithdrefnol mewnol. Pan gychwynnir atgyfeiriad diogelu neu ymchwiliad troseddol, rhaid i'r broses Gwrando ar Bobl addasu er mwyn osgoi peryglu'r prosesau allanol hynny. O dan reoliad newydd 24A o'r Prif Reoliadau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2026, gall sefydliadau atal dros dro weithgareddau datrysiaid neu ymchwilio cynnar pan fo ymholiad diogelu neu ymchwiliad troseddol ar y gweill.

110. Dylid gwneud y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad ag arweinydd y ganolfan ddiogelu neu brif ymchwilydd yr heddlu i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chadw ac nad oes unrhyw gamau yn tanseilio ymchwiliadau statudol. Rhaid i'r swyddog cyfrifol ddogfennu'r penderfyniad, y rhesymeg a'r trefniadau adolygu, a hysbysu'r person a gododd y pryder yn unol â gofynion rheoliad 24A.

111. Drwy gydol y broses hon, rhaid i sefydliadau gynnal goruchwyliaeth gan uwch arweinwyr. Dylai systemau fod ar waith i rybuddio swyddogion gweithredol neu uwch swyddogion dynodedig pryd bynnag y bydd pryder yn ymwneud â niwed sydd ar fin digwydd neu barhaus. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd, yn darparu sicrwydd llywodraethu, ac yn galluogi paratoi adnoddau sefydliadol yn gyflym i amddiffyn unigolion mewn perygl. Dylid trefnu adolygiadau rheolaidd o achosion Gwrando ar Bobl sydd wedi'u hatal dros dro, a dylai cyfathrebu â'r hysbysydd barhaus, gan gydbwysu bod yn agored â'r angen i osgoi rhagfarnu achosion diogelu neu droseddol. Os bydd ymchwiliad yr heddlu yn cael ei ollwng, yna gellir aildechrau'r weithdrefn datrys yn gynnar neu'r ymchwiliad o dan y broses Gwrando ar Bobl.

112. Yn olaf, rhaid i bolisi sefydliadol ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn fframweithiau diogelu lleol, gan sicrhau cysondeb â dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a'r Prif Reoliadau. Mae hyfforddiant staff, llwybrau uwchgyfeirio clir, a threfniadau llywodraethu cadarn yn hanfodol i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu gweithredu'n brydlon ac yn gyfreithlon pan fydd yn wynebu pryderon o niwed sydd ar fin digwydd neu barhaus.

Gweithredu Rheoliad 24A: Canllawiau ar gyfer Atal Datrysiaid Cynnar neu Ymchwiliad

113. Mae'r rhan hon o'r canllawiau yn nodi sut y dylai cyrff cyfrifol weithredu rheoliad 24A newydd o'r Prif Reoliadau. Mae rheoliad 24A yn cyflwyno pŵer statudol i atal y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad pan fo ymchwiliad diogelu, ymchwiliad

troseddol, neu achos troseddol ar y gweill mewn perthynas â'r un mater. Y nod yw diogelu uniondeb prosesau diogelu a throseddol statudol wrth gynnal rhwymedigaethau tryloywder a diogelwch cleifion.

114. Mae'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer y broses hon yn glir: Mae rheoliad 24A (1)– (7) yn caniatáu atal dros dro cyhyd ag y bo angen i ganiatáu cwblhau prosesau diogelu neu droseddol, ar yr amod bod y corff cyfrifol o'r farn bod hyn yn gymesur. Mae hefyd yn gosod dyletswyddau i hysbysu'r person a gododd y pryder o fewn dau ddiwrnod gwaith i ddod yn ymwybodol o'r broses allanol, ac i osgoi datgelu gwybodaeth a allai ragfarnu ymchwiliadau neu dorri cyfyngiadau cyfreithiol. Mae'r darpariaethau hyn ochr yn ochr â'r egwyddorion cyffredinol yn rheoliad 3, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bryderon gael eu trin yn agored, yn effeithlon, a gyda pharch i'r rhai sy'n eu codi, a'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

115. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cyd-fynd â Pholisi Cenedlaethol GIG Cymru ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion (f2.0), sy'n gorchymyn adrodd yn amserol am ddiwyddiadau drwy'r system rheoli pryderon Unwaith i Gymru, adnabod Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol yn gynnar, ac integreiddio â phrosesau diogelu a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. At hynny, mae'n adlewyrchu canllawiau diogelu Llywodraeth Cymru o dan y *fframwaith Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl*, gan gynnwys Cyfrol 6, ar gyfer oedolion mewn perygl, Cyfrol 5 ar gyfer plant mewn perygl (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,) ac adrannau 126 ar gyfer oedolion a 130 ar gyfer plant).

Pryd i ystyried atal dros dro

116. Dylid ystyried atal dros dro cyn gynted ag y daw'r corff cyfrifol yn ymwybodol bod y pryder yn ymwneud â mater sy'n destun ymchwiliad diogelu awdurdod lleol, ymchwiliad troseddol, neu achos troseddol. Gall ymwybyddiaeth godi drwy drafodaeth strategaeth/gwahoddiad cyfarfod neu dderbyn atgyfeiriad gan yr awdurdod lleol/MASH neu drwy hysbysiadau ffurfiol fel ymholiad Adran 47 (Deddf Plant 1989) ar gyfer plentyn, cyfarfod strategaeth diogelu oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu gyfathrebu uniongyrchol gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn hysbysu bod ymchwiliad troseddol wedi dechrau, neu gyfathrebiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron/erlyniad sy'n nodi achos troseddol.

117. Rhaid i'r penderfyniad i atal dros dro fod yn seiliedig ar angenrheidrwydd a chymesuredd. Mae rheoliad 24A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ataliad dros dro bara cyhyd ag sy'n angenrheidiol er mwyn osgoi rhagfarnu prosesau allanol. Cyn penderfynu, rhaid i'r corff cyfrifol ymgynghori â'r asiantaethau sy'n arwain y prosesau hynny ac ystyried unrhyw geisiadau i atal dros dro neu gydsynio i fwrw ymlaen (rheoliad 24A(3)). Mae hyn yn sicrhau nad yw'r corff cyfrifol yn rhwystro diogelu nac yn peryglu ymchwiliadau troseddol.

Cymhwyso Ymarferol a Phroses

118. Ar ôl derbyn pryder, dylai'r corff cyfrifol gymryd camau ar unwaith yn gyntaf i sicrhau diogelwch cleifion a chofnodi'r digwyddiad ar System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, gan ystyried a yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd NRI o fewn saith diwrnod gwaith. Os amheuir materion diogelu neu droseddol, rhaid gwneud atgyfeiriadau yn brydlon i'r awdurdod lleol neu'r heddlu yn unol â dyletswyddau statudol. Unwaith y derbynnir cadarnhad o broses allanol, dylai'r Swyddog Cyfrifol neu ei ddirprwy adolygu a ddylid oedi datrysiad cynnar neu ymchwiliad. Rhaid dogfennu'r penderfyniad hwn, gan gynnwys y rhesymeg, cwmpas yr atal dros dro, a'r dyddiadau adolygu.

119. Rhaid anfon hysbysiad ysgrifenedig o atal dros dro at y person a gododd y pryder heb fod yn hwyrach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y daw'r corff cyfrifol yn ymwybodol o'r broses allanol, gan ddefnyddio iaith glir sy'n esbonio'r rheswm dros atal dros dro heb ddatgelu manylion sensitif a allai ragfarnu'r achos. Yn ystod yr atal dros dro, dylai'r sefydliad barhau i gynnal diweddariadau a pharhau i fodloni ei rwymedigaethau o dan ei Ddyletswydd Gonestrwydd cyn belled ag y caniateir yn gyfreithiol, gan gydlyn ag asiantaethau diogelu a gorfodi'r gyfraith i osgoi rhagfarnu eu gwaith.

120. Dylid adolygu'r atal dros dro yn rheolaidd. Mae'n arfer da adolygu o leiaf bob 30 diwrnod neu'n gynt os bydd amgylchiadau'n newid. Unwaith y bydd asiantaethau diogelu neu droseddol yn cadarnhau na fydd parhad yn ymyrryd â'u prosesau, dylai'r corff cyfrifol ailddechrau datrys yn gynnar yn brydlon neu fwrw ymlaen ag ymchwiliad rheoliad 23. Rhaid i bob cam gweithredu, cyfathrebu a phenderfyniad gael ei gofnodi ar system rheoli pryderon Unwaith i Gymru at ddibenion llywodraethu a sicrwydd a'u hadrodd drwy ofynion monitro ac adrodd blynyddol "Gwranddo ar Bobl" sy'n bodoli eisoes.

Pryderon sy'n ymwneud â gofal sylfaenol

121. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cyfeirio pryderon ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal sylfaenol o dan drefniadau'r GIG, at y darparwr sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal yn y lle cyntaf. Mae'r dull hwn yn galluogi'r darparwr i wneud y canlynol:

- Cynnal trafodaeth wrando i ddeall natur a chyd-destun y pryder.
- Brysbennu'r pryder fel y bo'n briodol
- Cynnig datrysiad cynnar, gan gynnwys ymddiheuriad lle bo'n briodol.
- Cynnal parhad gofal a sicrhau datrysiad amserol a boddhaol i'r claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau.

122. Pan fydd y pryder yn cael ei ddatrys i foddhad yr unigolyn, rhaid i'r darparwr wneud y canlynol:

- Dogfennu'r canlyniad yn gywir.
- Rhoi crynodeb ysgrifenedig i'r person a gododd y pryder.
- Cynnwys y pryder yn ei adroddiad blynyddol i'r BILL; nid oes angen hysbysu'r BILL ar unwaith oni bai bod y datrysiad yn aflwyddiannus.

123. Os yw'r unigolyn yn parhau i fod yn anfodlon neu os ystyrir bod datrysiad cynnar yn amhriodol, rhaid i'r darparwr uwchgyfeirio'r mater i'r BILL, gan fanylu ar yr holl ymdrechion datrys fel y gall y BILL benderfynu'n ddigonol a yw'n briodol i'r Darparwr Gofal Sylfaenol neu'r BILL ymchwilio i'r pryder. Os yw'r Darparwr Gofal Sylfaenol wedi cyhoeddi ymateb yn unol â rheoliad 24 neu os nad yw'r person yn cydsynio i'r BILL ymchwilio i'r pryder, ni ddylai'r BILL ymchwilio. Mae'r broses hon yn cael ei llywodraethu gan Reoliad 20.

Pryderon ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol o dan drefniadau gyda Chorff GIG Cymru

124. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cyfeirio pryderon ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol o dan drefniadau'r GIG, at y darparwr sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal yn y lle cyntaf. Mae'r dull hwn yn galluogi'r darparwr i wneud y canlynol:

- Cynnal trafodaeth wrando i ddeall natur a chyd-destun y pryder.
- Brysbennu'r pryder fel y bo'n briodol
- Cynnig datrysiad cynnar, gan gynnwys ymddiheuriad lle bo'n briodol.
- Cynnal parhad gofal a sicrhau datrysiad amserol a boddhaol i'r claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau.

125. Pan fydd y pryder yn cael ei ddatrys i foddhad yr unigolyn, rhaid i'r darparwr wneud y canlynol:

- Dogfennu'r canlyniad yn gywir.
- Rhoi crynodeb ysgrifenedig i'r person a gododd y pryder.
- Cynnwys y pryder yn ei adroddiad blynyddol i'r BILL y mae ganddo drefniadau gydag ef i ddarparu gofal o dan y GIG, nid oes angen hysbysu'r BILL ar unwaith oni bai bod y datrysiad yn aflwyddiannus.

126. Os yw'r unigolyn yn parhau i fod yn anfodlon neu os ystyrir bod datrysiad cynnar yn amhriodol, rhaid i'r darparwr uwchgyfeirio'r mater i'r BILL, gan fanylu ar yr holl ymdrechion datrys ac, mewn partneriaeth, ymchwilir i'r pryder o dan reoliad 24.

Amgylchiadau Eithriadol

127. Mewn achosion prin a sensitif, gall fod yn amhriodol i'r pryder gael ei godi'n uniongyrchol gyda'r Darparwr Gofal Sylfaenol neu'r Darparwr Annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd sy'n cynnwys:

- Honiadau o gamymddwyn difrifol neu ofal gwael.
- Pryderon diogelu neu faterion troseddol posibl.
- Risgiau y gall yr ymchwiliad dan arweiniad y darparwr beryglu uniondeb y broses.

128. Mewn achosion o'r fath, dylid hysbysu'r BILI yn uniongyrchol am y pryder, a fydd yn:

- Cynnig trafodaeth wrando i ddeall y pryder.
- Penderfynu o fewn pum diwrnod gwaith pwy fydd yn arwain yr ymchwiliad yn unol â'r prosesau arferol
- Hysbysu'r unigolyn a'r darparwr (oni bai y cynghorir yn erbyn hynny) am y penderfyniad.

Efallai y bydd datrys yn gynnar yn bosibl o hyd os yw'r BILI yn rhannu'r pryder â'r darparwr gofal sylfaenol, fel yr amlinellir yn rheoliad 19.

Llwybr Ymchwilio a Chydsyniad

129. Os yw'r BILI yn penderfynu ei bod yn briodol ymchwilio i'r pryder, rhaid iddo wneud y canlynol:

- Gwirio a yw datrysiad cynnar neu drafodaeth wrando eisoes wedi digwydd.
- Cael cydsyniad¹⁵ i rannu'r pryder â'r darparwr oni bai y byddai gwneud hynny yn rhagfarnu'r ymchwiliad.

130. Os yw cydsyniad yn cael ei wrthod ac nad yw'r pryder yn bodloni'r meini prawf ar gyfer amgylchiadau eithriadol, ni all y BILI fwrw ymlaen â'r ymchwiliad. Mae hyn yn sicrhau tegwch a thryloywder, gan fod yn rhaid i ddarparwyr fod yn ymwybodol o bryderon a godwyd amdanynt.

131. Ni all y BILI ailymchwilio i bryderon sydd eisoes wedi bod yn destun ymchwiliad gan y darparwr gofal sylfaenol ac sy'n destun adroddiad interim o dan reoliad 24. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfeirio'r unigolyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyfathrebu Penderfyniadau a Hawliau

132. Pan fydd y BILI yn penderfynu bod darparwr gofal sylfaenol yn y sefyllfa orau i ymchwilio:

¹⁵Yn y cyd-destun hwn, dim ond dogfennu cytundeb llafar y person y mae'r pryder yn ymwneud ag ef i rannu'r wybodaeth berthnasol sydd angen i gydsyniad ei wneud.

- Rhaid i'r unigolyn a'r darparwr gael gwybod am y penderfyniad a'i resymeg.
- Rhaid i'r unigolyn gael ei hysbysu o'i hawl i uwchgyfeirio'r mater i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os yw'n anfodlon.

133. Yna rhaid i'r darparwr reoli'r pryder yn unol â'r Prif Reoliadau (rheoliadau 19 a 20). Dylid datrys y rhan fwyaf o bryderon drwy ddatrys yn gynnar neu, os oes angen, ymchwiliad cam 2, o dan arweiniad y darparwr. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol cael cymorth a chynghor gan dimau pryderon y BILL. Ni all yr ymchwiliad hwn gynnwys yr asesiad ar gyfer atebolrwydd cymwys gan nad yw gwneud iawn yn berthnasol i gorff y GIG nad yw'n Gymreig.

Pryderon sy'n ymwneud â chyrrff cyfrifol eraill

134. Manylir ar drin â phryderon sy'n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol yn rheoliad 17 o'r Prif Reoliadau. Gall y rhain gynnwys:

- Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG
- Darparwyr Gofal Sylfaenol

Darparwyr Annibynnol (IP) a

- chyrrff trawsffiniol y GIG yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

135. Mae egwyddorion bod yn agored, cydweithredu a chadw'r claf a'i anghenion yng nghanol y broses yn parhau i fod yn hollbwysig ac yn cael blaenoriaeth dros broses sefydliadol, enw da neu ffiniau. Mae'n bwysig nad yw pobl sy'n codi pryderon yn teimlo eu bod yn cael eu trosglwyddo rhwng un sefydliad neu adran i'r llall.

136. Mae'r cyfrifoldeb i reoli'r pryder yn gyfartal rhwng pob un o gyrff y GIG a restrir yn y pryder. Y gwersi a ddysgwyd o achosion diweddar a hanesyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Crwner yw bod dulliau cydgysylltiedig yn hanfodol i amddiffyn pobl, hyrwyddo diwylliant diogelwch tosturiol ac ni ddylid byth eu cysgodi gan brosesau sefydliadol, bylchau mewn darpariaeth neu ganolbwyntio ar effaith o ran enw da. Gall sefydliadau gytuno ar sefydliad arweiniol os yw'n briodol.

137. Mae'n cael ei ystyried yn arfer da wrth osod telerau cytundebol gyda darparwyr i gynnwys eglurder ar rolau a chyfrifoldebau o dan y Prif Reoliadau (fel y'u diwygiwyd).

Adnabod a Gweithredu Cychwynnol

138. Pan dderbynnir pryder, rhaid i'r sefydliad sy'n dod yn ymwybodol ohono gyntaf weithredu'n brydlon. O fewn dau ddiwrnod gwaith, dylid adolygu'r pryder i benderfynu a oes corff cyfrifol arall yn gysylltiedig. Rhaid hysbysu'r person sy'n codi'r pryder y gallai fod angen ymgysylltu â sefydliadau eraill, a dylid ceisio ei gysyniad i rannu'r pryder â'r cyrrff hynny. Ar ôl cael cydsyniad, rhaid hysbysu'r ail gorff cyfrifol o

fewn dau ddiwrnod gwaith, a dylai'r cydlynu ddechrau ar unwaith i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau.

Cydlynu a Dynodi Arweinydd

139. Rhaid i'r holl gyrff cyfrifol sy'n gysylltiedig weithio gyda'i gilydd i sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli'r pryder. Mae hyn yn cynnwys dynodi'r sefydliad arweiniol sy'n gyfrifol am gydlynu'r ymchwiliad a'r cyfathrebu, nodi prif gyswllt i ddarparu diweddariadau i'r person sy'n codi'r pryder, a chytuno ar ymateb ar y cyd sy'n ymgorffori mewnbwn gan yr holl gyrff cyfrifol. Dylai rhannu gwybodaeth fynd rhagddo o dan y cydsyniad a gafwyd i ddechrau, ac ni fydd cydsyniad pellach yn ofynnol o dan GDPR y DU. Dylid sicrhau cynrychiolaeth gan yr holl gyrff cyfrifol perthnasol mewn trafodaethau gwrando a thrafodaethau eraill. Os na chytunir ar bwy ddylai fod y sefydliad arweiniol, y sefydliad y cysylltwyd ag ef yn gyntaf fydd yn cymryd y rôl hon yn ddiodyn.

Trafodaeth wrando

140. Rhaid i'r sefydliad arweiniol gynnig trafodaeth wrando i'r person sy'n codi'r pryder. Dylid gwahodd cynrychiolwyr o gyrff cyfrifol eraill, yn amodol ar gydsyniad y person sydd wedi codi'r pryder. Diben y cyfarfod hwn yw egluro cwmpas llawn y pryder, deall y datrysiad a ddymunir, a sicrhau bod yr holl fanylion yn cael eu cofnodi'n gywir. Rhaid darparu cymorth hygyrchedd ac eiriolaeth yn ôl yr angen.

Ymchwilio ac Ymateb

141. Mae pob corff cyfrifol yn gyfrifol am gynnal ymchwiliad cymesur i'r agweddau ar y pryder sy'n ymwneud â'i wasanaethau. Rhaid rhannu canfyddiadau, camau a gymerwyd, ac unrhyw ystyriaethau ar gyfer gwneud iawn â'r sefydliad arweiniol. Yna dylid paratoi ymateb ar y cyd, sy'n crynhoi'r pryder, yn amlinellu canfyddiadau gan bob corff cyfrifol, yn manylu ar y camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto, a chynnwys ymddiheuriad ac esboniad. Rhaid i'r sefydliad arweiniol gyhoeddi'r ymateb ar y cyd hwn o fewn amserlenni statudol—fel arfer 30 diwrnod gwaith ar gyfer pryderon sy'n cael eu trin drwy'r llwybr cwynion, neu hyd at 120 diwrnod gwaith pan fo Atebolrwydd Cymwys yn cael ei asesu (pryderon sy'n ddarostyngedig i reoliad 26, 33, 40 a 48). Dylai'r corff cyfrifol arweiniol gynnig cyfarfod dilynol i drafod y canlyniad o dan reoliadau 26(j) a 24(h).

Cyfathrebu a Diweddariadau

142. Mae'r sefydliad arweiniol yn gyfrifol am ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r person sy'n codi'r pryder, gyda chefnogaeth mewnbwn amserol gan yr holl gyrff cyfrifol. Dylai pob cyfathrebu fod yn dosturiol, yn hygyrch, ac yn cael ei gyflwyno yn y fformat a'r iaith a ffefrir gan y person.

Dysgu ac Adrodd

143. Rhaid i bob corff cyfrifol adolygu'r pryder a'i ganlyniad i nodi dysgu a gweithredu camau gwella. Dylid monitro gwersi a ddysgwyd, eu rhannu'n fewnol ac yn allanol, a'u hadlewyrchu mewn adroddiadau blynyddol a systemau rheoli ansawdd. Mae goruchwyliaeth ar lefel bwrdd ac atebolrwydd strategol yn hanfodol i sicrhau gwelliant parhaus.

Uwchgyfeirio ac Anghydfodau

144. Os yw'r person sy'n codi'r pryder yn parhau i fod yn anfodlon ar yr ymateb ar y cyd, rhaid ei hysbysu am ei hawl i uwchgyfeirio'r mater i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pan fo'r pryder yn ymwneud â materion Cymraeg, gallant hefyd gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg.

Ystyriaethau Cytundebol a Thrawsffiniol

145. Pan fo gofal yn cael ei gomisiynu gan gyrff eraill y GIG neu ddarparwyr annibynnol, mae'n arfer da i gontractau gynnwys cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol cydweithredu o dan y broses Gwrando ar Bobl a'r Prif Reoliadau. Rhaid i drefniadau trawsffiniol barchu fframweithiau cyfreithiol gwledydd eraill y DU wrth gynnal egwyddorion tegwch a mynediad at wneud iawn i gleifion Cymru.

Cyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd

146. Dylai gweithwyr proffesiynol y GIG fynd i'r afael â phob rhyngweithio gydag urddas, parch a sensitifrwydd, gan gydnabod yr effaith emosiynol y gall codi pryder ei chael ar unigolion a'u teuluoedd.

147. Mae cyfathrebu tosturiol yn dechrau gyda gwrando gweithredol—galluogi pobl i rannu eu profiad heb ymyrraeth, cydnabod eu teimladau, a dilysu eu safbwynt. Defnyddio iaith glir, heb jargon, gwirio eu dealltwriaeth yn rheolaidd, darparu esboniadau ar gyfer termau meddygol neu gyfreithiol yn ôl yr angen (rheoliad 3(1) (ga)). Cadarnhewch bob amser y dull cyfathrebu a ffefrir gan y person ac unrhyw anghenion hygyrchedd, gan gynnwys dewisiadau iaith fel y Gymraeg, a sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni (rheoliad 22(4)(f)).

148. Darparu cynnig gweithredol o wasanaethau eiriolaeth a chymorth, gan gynnwys Llais neu lle mae gwneud iawn yn cael ei ystyried cynnig mynediad at gyngor cyfreithiol a ariennir.

149. Dangos empathi trwy dôn, iaith y corff, a dilyniant amserol, a darparu gwybodaeth realistig am opsiynau- gan gynnwys datrysiad cynnar, ymchwiliad ffurfiol, a gwneud iawn posibl (rheoliadau. 22, 22A).

150. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyfathrebu tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lleihau uwchgyfeirio, yn gwella ymddiriedaeth, ac yn cefnogi canlyniadau gwell i gleifion a staff. Felly, dylai gweithwyr proffesiynol y GIG reoli disgwyliadau'n

dryloyw, ymddiheuro yn ddiffuant, bod yn ymwybodol o drawma a sicrhau bod diweddariadau a chanlyniadau yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n glir, yn hygyrch ac yn barchus, gan atgyfnerthu ymrwymiad y sefydliad i ddysgu a gwella

Y rhai mewn profedigaeth ac sy'n codi pryderon am ofal

151. Mae'r canllawiau hyn yn hyrwyddo dull sy'n ystyriol o drawma, tosturiol ac ar sail tystiolaeth i weithwyr proffesiynol y GIG yng Nghymru wrth ymateb i bobl sydd mewn profedigaeth ac sy'n codi pryderon am ofal. Mae'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal Mewn Profedigaeth¹⁶ yng Nghymru (2021) a manyleb model y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gofal Mewn Profedigaeth¹⁷ (NBCP) ar gyfer Cymru. Mae'n cwmpasu pedwar maes allweddol:

- pobl mewn profedigaeth ac sy'n codi pryderon,
- y dull sydd i'w gymryd,
- profedigaeth mewn gofal mamolaeth, a
- profedigaeth mewn plant a phobl ifanc.

152. Y disgwyliad cyffredinol yw bod pobl mewn profedigaeth yn derbyn gwybodaeth amserol, gywir, a hygyrch, ochr yn ochr â chymorth cymesur a haenog. Dylai pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â phobl mewn profedigaeth gael yr hyfforddiant a'r profiad perthnasol ar gyfer lefel y cymorth y maent yn ei gynnig.

Pobl Mewn Profedigaeth ac sy'n Codi Pryderon am Ofal

153. Yn aml, mae gan bobl mewn profedigaeth gwestiynau heb eu hateb am y gofal a ddarparwyd a phenderfyniadau a wnaed yn agos at farwolaeth. Mae gofal profedigaeth o ansawdd uchel yng Nghymru yn gofyn am gyfathrebu tosturiol ac amserol a ddarperir drwy lwybr lleol integredig sy'n cynnig gwybodaeth gyffredinol, gwaith dilynol wedi'i dargedu i'r rhai sydd mewn risg uwch, ac atgyfeirio i gymorth arbenigol pan fo angen. Dylid cydnabod pryderon gydag empathi a dilysu, a dylai cyfathrebu fod yn onest, wedi'i gyflymu i'r angen, a'i ailadrodd yn ôl yr angen. Mae tystiolaeth a chanllawiau NICE yn pwysleisio deialog barchus, penderfyniadau a rennir gyda'r rhai sy'n bwysig i'r person, ac esboniadau clir, mewn iaith syml cyn ac ar ôl marwolaeth. Mae'r Model Proses Ddeuol o ymdopi yn dangos bod pobl yn pendilio rhwng wynebu galar a chymryd seibiant ohono; dylai gweithwyr proffesiynol gynnig cyfleoedd sy'n seiliedig ar ddewis ar gyfer cwestiynau dros amser yn hytrach nag un rhyngweithio dwys. [\[Cyf 3\]](#) [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 4\]](#).

154. Fel rhan o'r drafodaeth wrando, dylid cyfeirio pobl mewn profedigaeth i gymorth profedigaeth priodol. Dylid trefnu cymorth dilynol rhagweithiol (er enghraifft, ar 2–3 wythnos a 6–8 wythnos) gan gydnabod bod anghenion yn newid dros amser a bod parodrwydd i ymgysylltu yn amrywio rhwng unigolion.

¹⁶ [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal profedigaeth \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹⁷ [Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

155. Pan fydd adolygiad yn digwydd (er enghraifft, Archwilydd Meddygol ar gyfer marwolaethau oedolion nad ydynt yn grwnerol), dylid esbonio'r broses ynghyd â'r cwmpas a'r amserlenni, a sut y gellir codi cwestiynau. Dylid defnyddio dangosyddion risg byr neu offeryn asesu dilys i nodi'r rhai y gallai fod angen cymorth wedi'i dargedu neu arbenigol arnynt; dylid uwchgyfeirio'n gymesur os bydd baneri coch yn dod i'r amlwg (e.e., nam swyddogaethol parhaus, nodweddion galar trawmatig). [\[Cyf 1\]](#) [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 5\]](#) [\[Cyf 6\]](#)

156.

Enghraifft o achos i ddangos anghenion ychwanegol person mewn profedigaeth sy'n codi pryderon — Marwolaeth oedolion yn yr ysbyty (llwybr disgwylidiedig), cwestiynau am ofal yn ystod y 48 awr ddiwethaf

Mae partner Mr G yn cysylltu â'r ysbyty ddau ddiwrnod ar ôl ei farwolaeth o fethiant y galon datblygedig, ac roedd yn teimlo 'nad oedd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf' am hydradu a rheoli symptomau. Mae'r Swyddfa Profedigaeth/Profiad Cleifion yn cydnabod ei phryder yr un diwrnod, yn neilltuo nyrs sy'n fedrus mewn profedigaethfel y cyswllt sengl, ac yn cynnig cyfarfod gwranddo o fewn 72 awr. Mae'r cyfarfod, y daeth yr ymgynghorydd ward iddo, yn esbonio cydnabyddiaeth o farw, penderfyniadau hydradu a meddyginiaethau rhagflaenol mewn iaith glir. Maent yn cytuno i wirio cofnodion cydbwysedd cyffuriau a hylifau ac ymrwymo i ddiweddariad saith diwrnod.

Mae crynodeb ysgrifenedig (diwrnod 10) yn ateb pob cwestiwn ac yn ymddiheuro am ddiweddariadau anaml dros nos. Trefnir sgwrs ragweithiol ar gyfer wythnos 6. Nid yw sgrinio risg byr yn dangos unrhyw faneri coch uniongyrchol; cynhelir cymorth cyffredinol gan gyfeirio i opsiynau wedi'u targedu os bydd cwsg neu weithrediad yn gwaethygu. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu canllawiau NICE ar gyfathrebu tosturiol, ailadroddol a safonau Cymru ar gyfer cymorth profedigaeth haenog.

[\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 1\]](#)

Canllawiau ar y Dull (Proses ac Ymarfer)

157. Dechreuwch drwy fynegi dealltwriaeth ac empathi am y golled; aseswch ofynion iaith a diwylliannol yr unigolyn a gwahodd y person mewn profedigaeth i fynegi ei ddisgwyliaid ynghylch canlyniad adeiladol.

158. Darparwch gynllun ysgrifenedig byr ar ôl y cyswllt cyntaf, gan gynnwys pwy fydd yn gwneud beth ac erbyn pryd.

159. Yn ystod sgysiau gwrando, defnyddiwch gwestiynau agored, osgoi jargon, a chrynhoi 'yr hyn rydym yn ei wybod nawr', 'yr hyn rydym yn ei wirio', a 'pryd y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'. Lle bo'n bosibl, yn amodol ar brosesau allanol (fel ymchwiliadau Crwner) darparwch amserlenni realistig a chrynodeb ysgrifenedig iaith glir wedyn.

160. Dylech gynnwys sgysiau rhagweithiol (er enghraifft, ar 2-3 wythnos, 6-8 wythnos, ac eto ar ôl tua 3-4 mis os bydd anghenion yn parhau). Uwchgyfeiriwch y cymorth lle mae baneri coch yn ymddangos, gan gydnabod nad yw therapi cyffredinol, dwys i bob person mewn profedigaeth yn fuddiol yn gyson; mae'r dystiolaeth yn cefnogi mewnbwn wedi'i dargedu ac arbenigol ar gyfer grwpiau risg uwch. Ymgorfforwch lywodraethiant drwy gofnodi cwestiynau, atebion, amseru a dysgu'r person ar gyfer gwella gwasanaethau. [\[Cyf 1\]](#) [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 5\]](#)

161.

Enghraifft achos i ddangos sut y gellir mynd i'r afael â dryswch ynghylch rolau mewn marwolaeth gymunedol gartref

Mae tad Ms R yn marw gartref gyda chymorth nyrsio cymunedol. Mae'n adrodd dryswch ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am feddyginiaethau rhagflaenol. Mae'r tîm cymunedol yn ymateb i Ms R y diwrnod gwaith nesaf, yn neilltuo person cyswllt a enwir iddi, ac yn cynnig cyfarfod o fewn wythnos. Yn y cyfarfod, mae'r metron yn esbonio rolau (meddyg teulu, nyrs ardal, y tu allan i oriau, fferyllfa) gan ddefnyddio diagram un dudalen syml ac yn egluro'r trefniadau presgripsiynu a gweinyddu.

Mae crynodeb ysgrifenedig yn nodi dyddiadau a 'phwy wnaeth beth', ynghyd â chanllaw ar beth i'w wneud gyda meddyginiaethau ar ôl marwolaeth. Mae sgwrs ar ôl 6–8 wythnos yn canfod aflonyddwch cwsg ac ynysu, mae sgrinio risg byr yn arwain at atgyfeiriad i grŵp profedigaeth wedi'i dargedu. Mae'r dull yn cyd-fynd â safonau Cymru ar gyfer gwybodaeth hygyrch, llwybrau cydgysylltiedig, ac uwchgyfeirio yn seiliedig ar risg.

Profedigaeth mewn gofal mamolaeth

162. Mae'r adran hon ar gyfer gwybodaeth i gefnogi dulliau integredig i bryderon yn dilyn profedigaeth mewn gofal mamolaeth a dylid ei darllen ar y cyd â pholisïau lleol a chenedlaethol.

163. Mae beichiogrwydd a cholli babi yn gofyn am ofal tosturiol, sy'n ystyriol o drawma, wedi'i bersonoli a thryloyw. Dylid gwahodd rhieni i nodi'r cwestiynau yr

hoffent gael atebion iddynt a chyfrannu at adolygiadau neu ymchwiliadau. Dylai'r uned famolaeth adolygu pob marw-enedigaeth a marwolaeth newyddenedigol gan ddefnyddio'r Offeryn Adolygu Marwolaeth Amenedigol (PMRT), sy'n cefnogi adolygiad amlddisgyblaethol, cyfranogiad uniongyrchol rhieni, llythyr rhieni mewn iaith glir sy'n esbonio canfyddiadau ac a allai gwahanol gamau gweithredu fod wedi newid y canlyniad, a ffocws ar ddysgu ar gyfer atal. Dylai gwasanaethau roi sylw i degwch, monitro canlyniadau ac addasu cyfathrebu a chefnogaeth i fynd i'r afael â gwahaniaethau. [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 7\]](#) [\[Cyf 8\]](#)

- Dylai bydwraig/nyrs sydd wedi'i hyfforddi mewn profedigaeth fod wedi'i neilltuo eisoes fel yr un pwynt cyswllt;
- Yn ystod y drafodaeth wrando, gwnewch yn siŵr bod dull tosturiol a chydgyssylltiedig yn cael ei fabwysiadu, gan ganiatáu i deuluoedd fynegi pryderon a gofyn cwestiynau pan fyddant yn teimlo'n gyfforddus neu pryd mae'n briodol iddynt.
- Cofnodwch gwestiynau rhieni yn gynnar a'u rhoi ar PMRT fel bod yr adolygiad yn mynd i'r afael yn benodol â'u blaenoriaethau.
- Cefnogwch lesiant staff drwy ôl-drafodaethau.
- Ystyriwch gynnal cyfarfod ôl-adolygiad (fel arfer ar ôl 6–12 wythnos) gydag uwch glinigydd a bydwraig profedigaeth i esbonio canfyddiadau wyneb yn wyneb; darparu lythyr rhiant PMRT; ymddiheurwch lle roedd y gofal yn brin o'r safon a disgrifio gwelliannau gwasanaeth.
- Sgriniwch am risg a chynnig cymorth wedi'i dargedu neu arbenigol lle nodir hynny; [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 7\]](#) [\[Cyf 8\]](#)

164.

Enghraifft achos — Marw-enedigaeth ar ôl 38 wythnos; a allai fod wedi cael ei hatal?

Ar ôl marw-enedigaeth, mae A a B yn gofyn a ddylai ymyriadau fod wedi bod yn gynharach pan oeddent wedi codi pryderon am lai o symudiadau'r ffetws. Mae bydwraig wedi'i hyfforddi mewn profedigaeth yn dod yn gyswllt a enwir, yn cydlynu ac yn darparu cymorth ymarferol a gwybodaeth am y broses PMRT, mae cwestiynau'r rhieni yn cael eu cofnodi yn PMRT. Mae gweithgaredd creu atgofion yn cael ei gynnig yn sensitif, ynghyd â chefnogaeth ôl-enedigol a dilynol; trefnir ôl-drafodaeth staff y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r panel PMRT yn adolygu gofal ac yn nodi y gallai cyfathrebu am opsiynau asesu a monitro fod wedi bod yn gliriach. Ar ôl 10–12 wythnos, mae meddyg ymgynghorol a'r fydwraig profedigaeth yn cwrdd â'r rhieni, yn rhannu llythyr rhieni PMRT, yn ymddiheuro am ddiffygion cyfathrebu, ac yn amlinellu newidiadau gwasanaeth penodol (ysgogiadau brysbennu a sesiynau gloywi staff). Mae sgrinio risg yn nodi bregusrwydd uwch; cynigir cymorth wedi'i dargedu gyda'r opsiwn o atgyfeirio arbenigol. Mae hyn yn adlewyrchu PMRT, safonau profedigaeth Cymru, ac ystyriaethau tegwch. [\[Cyf 7\]](#) [\[Cyf 2\]](#) [\[Cyf 8\]](#)

Profedigaeth plentyn neu berson ifanc

165. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn marw, dylai sefydliadau fabwysiadu dull cydgysylltiedig, tosturiol ac sy'n ystyriol o drawma ar gyfer cefnogi teuluoedd ac ymateb i unrhyw bryderon y gallant eu codi. Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr â pholisïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y Llwybr Profedigaeth Plant a Phobl Ifanc (Hydref 2025), sy'n amlinellu'r cymorth y dylai teuluoedd ei ddisgwyl ar ôl marwolaeth plentyn neu berson ifanc.

166. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn marw'n sydyn neu'n annisgwyl, dylid dilyn yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentynod (PRUDiC). Mae PRUDiC yn nodi'r safon amlasiantaethol ofynnol ar gyfer ymateb i farwolaethau o'r fath, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael eu trin yn sensitif, bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn gyson, a bod ymchwiliad strwythuredig yn cael ei gwblhau a'i adolygu mewn Cyfarfod Adolygu Achos. Dylid defnyddio'r llwybr cymorth Marwolaeth Sydyn ac Annisgwyl mewn Plant a Phobl Ifanc hyd at 25 oed hefyd i lywio ymarfer.

167. Dylid nodi aelod o staff sy'n fedrus mewn profedigaeth a'i gyflwyno i'r teulu o fewn 24–48 awr fel eu pwynt cyswllt sengl. Mae'r person hwn yn gyfrifol am gydlynu cyfathrebu, darparu gwybodaeth glir, a helpu teuluoedd i ddeall y prosesau a fydd yn dilyn. Dylid cefnogi teuluoedd i ofyn cwestiynau a chodi pryderon ar gyflymder sy'n teimlo'n iawn iddynt, gan gydnabod bod galar yn effeithio ar barodrwydd yn wahanol i bob unigolyn.

168. Drwy gydol y drafodaeth wrando ac unrhyw ymgysylltu dilynol, dylai sefydliadau ymateb i deuluoedd gyda thosturi, bod yn agored a thegwch. Dylai teuluoedd dderbyn diweddariadau rheolaidd, dealladwy yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, ac unwaith y bydd ymholiadau wedi'u cwblhau, dylid cynnig cyfle iddynt drafod y canfyddiadau, gofyn cwestiynau pellach, a deall unrhyw ddysgu neu weithredoedd sy'n codi. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu egwyddorion craidd proses GIG Cymru ar gyfer pryderon: gwrando, deall, dysgu, a gwella ansawdd a diogelwch gofal.

169.

Enghraifft achos — Marwolaeth annisgwyl plentyn 9 oed; mae rhieni yn gofyn am atebion cyflym

Yn dilyn marwolaeth annisgwyl yn yr Adran Achosion Brys, gofynnodd y rhieni beth ddigwyddodd yn ystod adfywio a pham y gwnaethpwyd penderfyniadau trosglwyddo. Mae'r arweinydd pediatrig yn cychwyn PRUDiC, yn darparu taflen Saesneg mewn iaith glir, ac yn neilltuo nyrs sy'n fedrus mewn profedigaeth fel y cyswllt sengl. Mae cyfarfod cynnar (o fewn 72 awr) yn cofnodi cwestiynau'r rhieni; rhoddir diweddariadau wythnosol hyd yn oed pan nad oes gwybodaeth newydd ar gael. Ar ôl y Cyfarfod Adolygu Achos, mae'r ymgynghorydd a'r nyrs yn esbonio'r canfyddiadau yn bersonol, yn ateb cwestiynau penodol am adfywio/trosglwyddo, yn darparu crynodeb ysgrifenedig, ac yn cytuno ar gymorth dilynol (gan gynnwys adnoddau brodyr a chwirydd a chyswllt ysgol). Mae ôl-drafodaeth wedi'i hwyluso yn cefnogi staff.

170. Crynodeb o'r Offer Ymarferol sydd eu hangen i gefnogi pobl sydd wedi cael profedigaeth ac yn codi pryder:

- Strwythur y sgwrs: agored gydag empathi; cadarnhewch anghenion iaith a diwylliannol ac ysbrydol;
- Gofynnwch beth sydd bwysicaf iddynt; cytunwch beth fydd yn cael ei wirio ac erbyn pryd;
- Rhowch grynodeb ysgrifenedig byr a manylion y cyswllt a enwir;
- Ailadroddwch gyfleoedd ar gyfer cwestiynau mewn sgysiau dilynol.
- Map cymorth haenog: cynnal cyfeiriadur lleol o gymorth cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol gyda throthwyon a llwybrau atgyfeirio clir;
- Defnyddiwch ddangosyddion risg byr neu offer wedi'u dilysu i uwchgyfeirio'n briodol.
- Llythyrau a chrynodebau: darparwch esboniadau mewn iaith glir ac ymatebion i holi ac ateb; mewn marwolaethau amenedigol, defnyddiwch allbynnau PMRT i lywio llythyrau rhieni wedi'u teilwra.
- Amseru: ystyriwch gynnwys sgysiau rhagweithiol (er enghraifft ar ôl 2–3 wythnos; 6–8 wythnos; 3–4 mis), wedi'i addasu i adolygu argaeledd canfyddiadau adolygiad. [\[Cyf 1\]](#)[\[Cyf 2\]](#)[\[Cyf 7\]](#)[\[Cyf 9\]](#)

Cyfeiriadau - profedigaeth

Cyf 1: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2021) a manyleb model Llwybr cenedlaethol ar gyfer

gofal mewn profedigaeth gyfer Cymru. <https://www.llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-ar-gyfer-darparu-gofal-mewn-profedigaeth> a <https://www.llyw.cymru/llwybr-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-mewn-profedigaeth-html>

Cyf 2: Canllawiau NICE ar gyfer cyfathrebu diwedd oes/profedigaeth: NG31 Gofal oedolion sy'n marw yn ystod dyddiau olaf bywyd (2015) a safonau ansawdd cysylltiedig (e.e., QS160 ar gyfer cymorth galar plant a phobl ifanc). <https://www.nice.org.uk/guidance/ng31> a <https://www.nice.org.uk/guidance/qs160>

Cyf 3: Stroebe M, Schut H. Dual Process Model of Coping with Bereavement (1999) ac adolygiadau dilynol e.e., <https://doi.org/10.1080/074811899201046> and systematic review <https://www.researchgate.net/.../A-Systematic-Review-of-the-Dual-Process-Model>.

Cyf 4: Canllawiau cenedlaethol ar gyfathrebu diwedd oes wedi'u crynhoi gan Marie Curie (2023). <https://www.mariecurie.org.uk/professionals/palliative-care-knowledge-zone/national-guidelines-end-of-life>

Cyf 5: Trosolwg o dystiolaeth ar ymyriadau profedigaeth sy'n cefnogi dulliau dwys wedi'u targedu yn hytrach na rhai cyffredinol. e.e., Asesiad cyflym o'r dystiolaeth: <https://www.bereavementjournal.org/index.php/berc/article/download/1067/1075> ac adroddiad canlyniadau Cruse (2022) <https://www.cruse.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Cruse-Bereavement-Support-Outcomes-for-Bereaved-People-Report.pdf>

Cyf 6: Offer dangosydd ar gyfer risg/galar cymhleth (e.e., dilysu IBACS). <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0164005>

Cyf 7: PMRT (Offeryn Adolygu Marwolaeth Amenedigol) – cynnwys rhieni a chyfathrebu. <https://www.npeu.ox.ac.uk/pmrt/about-us/the-pmrt-tool>

Cyf 8: MBRRACE-Gwylidwriaeth marwolaethau amenedigol yn y DU a chyd-destun tegwch (adroddiadau a dangosfyrddau diweddaraf). <https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrpace-uk/reports/perinatal-mortality-surveillance>

Cyf 9: PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod) Cymru, adolygiad 2023 ac adnoddau teuluol/proffesiynol. <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-diogelu-cenedlaethol-gig-cymru/canllawiau-diweddaraf-diogelu/prudic-ymateb-gweithdrefnol-i-farwolaethau-annisgwyl-mewn-plentyndod/>

Cyf 10: NICE QS160 Datganiad ansawdd ar gymorth galar a cholled i rieni/gofalwyr (Plant a Phobl Ifanc). <https://www.nice.org.uk/guidance/qs160/chapter/Quality-statement-5-Support-for-grief-and-loss-for-parents-or-carers>

Y Gwasanaeth Archwilio Meddygol

171. Mae'r gwasanaeth Archwilio Meddygol, sy'n cael ei gynnal gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau craffu annibynnol ar yr holl farwolaethau nad yw'r crwner yn ymchwilio iddynt, fel sy'n

ofynnol o dan Reoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024, Rheoliadau Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth 2024. Mae'r craffu hwn yn cael ei gynnal gan feddygon profiadol sydd â hyfforddiant arbenigol mewn ardystio marwolaeth ac adolygu amgylchiadau marwolaeth wedi'u dogfennu.

172. Mae eu swyddogaethau'n cynnwys cadarnhau cywirdeb y Dystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth (MCCD), ymgysylltu â'r rhai mewn profedigaeth i glywed eu barn a'u pryderon, ac adrodd am unrhyw faterion difrifol sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol, diogelwch cleifion, neu iechyd y cyhoedd i gyrff perthnasol y GIG. Nid yw'r sgyrsiau hyn gyda'r rhai mewn profedigaeth yn ddewisol; maent yn ddiogelwch craidd sydd wedi'i gynllunio i sicrhau tryloywder, cywirdeb, a dysgu o bob marwolaeth. Bydd y gwasanaeth archwilio meddygol yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd priodol am y casgliad ar yr MCCD, a gallant wneud sylwadau lle maent yn ystyried y gallai darparu gofal fod wedi effeithio ar y farwolaeth.

173. Pan fydd Archwilydd Meddygol yn cysylltu â'r rhai mewn profedigaeth, fel arfer o fewn 24 i 72 awr ar ôl derbyn y cofnodion angenrheidiol, y diben yw esbonio achos arfaethedig y farwolaeth, ateb cwestiynau, a rhoi cyfle i'r rhai mewn profedigaeth godi unrhyw bryderon am y gofal a ddarparwyd.

Crwner EF a'r broses Gwrando ar Bobl

174. Mae'r fframwaith cyfreithiol a pholisi sy'n llywodraethu sut mae gweithwyr proffesiynol y GIG yng Nghymru yn rheoli marwolaethau cleifion a phryderon cysylltiedig wedi'i angori mewn dyletswyddau statudol cyflenwol a chanllawiau cenedlaethol sydd gyda'i gilydd yn creu un system o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer atebolrwydd, gonestrwydd a dysgu.

175. Mae Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (Atodlen 5, paragraff 7) yn ei gwneud yn ofynnol i grwneriaid gyhoeddi adroddiad i atal marwolaethau yn y dyfodol pan fydd ymchwiliad yn datgelu amgylchiadau sy'n creu risg o farwolaethau yn y dyfodol ac, ym marn y crwner, dylid cymryd camau gweithredu. Mae Rheoliadau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013 yn nodi'r mecanwaith ar gyfer llunio adroddiadau o'r fath (rheoliad 28) a'r ddyletswydd ar dderbynwyr i ymateb o fewn 56 diwrnod (gyda chamau gweithredu wedi'u cymryd neu wedi'u cynllunio, neu esboniad os na chynigir unrhyw gamau gweithredu (rheoliad 29).

176. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â'r Prif Reoliadau a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol, sy'n gofyn am fod yn agored a'r weithdrefn gonestrwydd strwythuredig yn dilyn canlyniadau andwyol hysbysadwy.

177. Wrth weithio gyda'r crwner, mae amseroldeb, cyflawnrwydd a chywirdeb datgelu yn hanfodol. Dylai un pwynt cyswllt sefydliadol gydlynu'r gwaith o gynhyrchu cofnodion clinigol cyfoes, polisiau lleol perthnasol, a datganiadau staff ffeithiol i gynnal cysondeb ar draws popeth a rennir â'r crwner.

178. Mewn perthynas â rhai cwestau, efallai y bydd y crwner yn gofyn am wrandawriad adolygu cyn y cwest y gellid ei ddefnyddio i gytuno ar gwmpas, tystion ac amserlenni, ac i egluro a yw ystyriaethau Erthygl 2 yn berthnasol.

179. Dylai staff sy'n darparu tystiolaeth gael eu cynorthwyo â chanllawiau clir ar eu dyletswyddau, gyda datganiadau sy'n ffeithiol ac yn cyd-fynd â'r cofnod clinigol.

180. Dylid ystyried adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) fel cyfleoedd ffurfiol ar gyfer gwella'r system. Mae PFD yn cael ei gyhoeddi pan, ym marn y crwner, dylid cymryd camau i atal amgylchiadau sy'n creu risg o farwolaethau yn y dyfodol rhag digwydd neu barhau.

181. Mae arfer gweithredol yn dechrau gyda brysbennu a gosod ar unwaith o fewn y 48 awr gyntaf ar ôl marwolaeth. Cofnodion clinigol diogel ac offer perthnasol neu ddata digidol; lle bo angen agorwch gofnod "Gwrando ar Bobl"; cyfeiriwch yr achos at yr archwilydd meddygol fel bod pobl mewn profedigaeth yn cael cyfle cynnar i godi cwestiynau a phryderon; ac ystyried a oes rhaid hysbysu'r crwner o dan y Rheoliadau Hysbysiadau am Farwolaethau.

182. Pan fo trothwy'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael ei gyrraedd, dechreuwch y weithdrefn gonestrwydd yn ddi-oed, cynnig ymddiheuriad ystyrion, ac esboniwch y camau nesaf a'r amserlenni. Os nad oes proses Gwrando ar Bobl yn bodoli, gall y corff cyfrifol ystyried cychwyn un.

183. Darparu diweddariadau rheolaidd i'r teulu a sbarduno ystyriaethau gwneud iawn yn gynnar os bydd arwyddion o atebolrwydd cymwys yn codi. Mewn ymgysylltu crwnerol, darparwch ddatgeliad amserol a chyflawn, paratoi staff ar gyfer mynd i'r cwest, a chadw cofnod gweithredu sy'n rhagweld problemau PFD posibl fel y gall y sefydliad, os caiff ei gyhoeddi, ffeilio ymateb o ansawdd uchel o dan Reoliad 29 o fewn yr amserlen statudol. Dylech gau'r ddolen drwy gyhoeddi'r ymateb terfynol "Gwrando ar Bobl" (neu ddiweddariad interim os yw'r cwest yn yr arfaeth) a sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu PFD yn cael eu cymeradwyo ar y lefel weithredol briodol, eu gweithredu a'u monitro i'w cwblhau gan ddefnyddio fframwaith sicrhau rheoli ansawdd y sefydliad. [\(\[6\]–\[10\]\)](#)

184. Ar lefel system yng Nghymru, monitro PFD ledled y wlad a dod â dysgu thematig i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch fel bod y sefydliad nid yn unig yn datrys problemau lleol ond hefyd yn rhagweld risgiau ailadroddus a welir mewn mannau eraill. Yn olaf, cofiwch nad yw statws Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS) bellach yn creu gofyniad cwest awtomatig, ond mae pryderon clinigol neu ansicrwydd ynghylch achos marwolaeth yn dal i olygu bod angen cynnwys y crwner. [\(\[5\]–\[6\], \[2\], \[13\]–\[14\]\)](#)

185. Mae diffiniad rôl clir yn sail i ddarpariaeth ddibynadwy. Dylai fod arweinydd ar lefel weithredol ar gyfer materion cwest, gan gysylltu ag arweinwyr clinigol a

gweithredol i sicrhau bod dysgu yn llywio gwelliant.

186. Dylai timau ymchwiliadau neu bryderon gynnal yr ymchwiliad cymesur, cydlynu â swyddfa'r archwilydd meddygol a'r crwner, a pharatoi drafftiau o ymatebion a chynlluniau dysgu.

187. Dylai timau cyfreithiol llywodraethu corfforaethol reoli datgeliad, cynghori ar iawn, a sicrhau ansawdd ymateb Rheoliad 29 cyn ei gyflwyno fel ei fod yn bodloni gofynion cynnwys ac amseru statudol. [\(\[6\], \[3\]\)](#)

188. Mae cynnal pecyn tystiolaeth cyflawn yn hanfodol ar gyfer unrhyw achos a allai fynd ymlaen i gwest neu ddenu PFD. Dylai'r pecyn gynnwys copïau ardystiedig o gofnodion clinigol allweddol a siartiau arsylwi, nodiadau'r archwilydd meddygol a chofnodion cyswllt â'r rhai mewn profedigaeth, y ffeil ymchwiliad gymesur gyda chylchwyll gorchwyl, datganiadau tystion a logiau penderfyniadau, yr holl hysbysiadau Dyletswydd Gonestrwydd a dilyniant ysgrifenedig, a thystiolaeth o gymeradwyo llywodraethu a gweithredu fel polisïau wedi'u diweddarau, cofnodion hyfforddi a chanlyniadau archwilio. Mae cadw'r deunydd hwn yn ganolog ac yn gyfoes yn lleihau'r risg, yn osgoi dyblygu ac yn cyflymu ansawdd yr ymatebion i'r teuluoedd a'r crwner. [\(\[10\], \[6\]–\[7\]\)](#)

189. Cau'r ddolen: gweithredu camau, canlyniadau archwilio, adrodd drwy'r Pwyllgor/Bwrdd Ansawdd a Diogelwch, a rhannu dysgu ar draws gwasanaethau. [\(\[6\], \[14\]\)](#)

190. Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys:

- Defnyddio un “golofn ddysgu” yn y system pryderon neu ddigwyddiadau sy'n cysylltu, cysylltiadau archwilydd meddygol a cherrig milltir crwnerol fel bod pob gweithred a phenderfyniad yn weladwy mewn un lle.
- cyhoeddi diweddariad gonestrwydd cynnar (er enghraifft, erbyn diwrnod pump) hyd yn oed pan nad oes llawer o wybodaeth newydd, i gynnal ymddiriedaeth a dangos dibynadwyedd.
- cymhwyso dulliau ffactorau dynol fel dadansoddiad tasgau o lwybrau uwchgyfeirio neu adolygiad strwythuredig o drosglwyddiadau SBAR i ganolbwyntio'r ymchwiliad cymesur ar amodau'r system yn hytrach nag unigolion.
- drafftio matrices ymateb PFD yn ystod y cwest sy'n mapio pob pryder tebygol gan y crwner i weithredu, perchennog, dyddiad cau a mesur llwyddiant arfaethedig fel bod ymateb Rheoliad 29 yn cael ei gyflwyno ymhell o fewn 56 diwrnod; a
- chyhoeddi bwletin mewnol cryno “dysgu o farwolaethau a chwestau” ar ôl pob achos, gyda themâu dienw a newidiadau ymarferol ar gyfer wardiau, timau a gwasanaethau.

191. Mae'r arferion hyn yn gwneud cydymffurfiaeth yn haws, yn gwella profiad teuluoedd a staff, ac yn cryfhau sicrwydd i'r crwner bod dysgu yn real ac yn gynaliadwy. ([6]–[8], [4])

Cyfeiriadau – y Gwasanaeth Archwilio Meddygol

1. Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, Atodlen 5, paragraff 7 (Camau i atal marwolaethau eraill). <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2009/25/schedule/5/paragraph/7>
2. Rheoliadau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013, Rheoliad 28 (Adrodd ar gamau i atal marwolaethau eraill). <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1629/regulation/28/made>
3. Rheoliadau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013, Rheoliad 29 (Ymateb i adroddiad ar gamau i atal marwolaethau eraill). <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/1629/regulation/29/made>
4. Barnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd – Adroddiadau i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD a chanllawiau cysylltiedig. <https://www.judiciary.uk/courts-and-tribunals/coroners-courts/reports-to-prevent-future-deaths/>
5. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011. <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/704/contents/made/welsh>
6. Llywodraeth Cymru – Canllawiau Gweithio i Wella (Fersiwn 4, Mai 2023; cyhoeddiad wedi'i ddiweddarau 2025). <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-03/canllawiau-ynghylch-gweithio-i-wella-f2.pdf>
7. Llywodraeth Cymru – Canllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd 2023. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-09/canllawiau-statudol-y-ddyletswydd-gonestrwydd-2023_0.pdf
8. Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023. <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2023/274/made/welsh>
9. Llywodraeth y DU – canllawiau Rheoliadau Hysbysiadau am Farwolaethau 2019 (diweddarwyd 9 Medi 2024). <https://www.gov.uk/government/publications/notification-of-deaths-regulations-2019-guidance>
10. Canllawiau Archwilydd Meddygol Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr (yn weithredol o 9 Medi 2024; diweddarwyd 17 Mawrth 2025). <https://www.england.nhs.uk/long-read/national-medical-examiners-guidance-for-england-and-wales/>
11. Llywodraeth y DU – Trosolwg o'r diwygiadau ardystio marwolaethau (diweddarwyd 14 Awst

2024). <https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-death-certification-process/an-overview-of-the-death-certification-reforms>

12. Rheoliadau Archwilwyr Meddygol (Cymru) 2024. <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2024/505/made/welsh>
13. Canllawiau'r Prif Grwner Rhif 16a – Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (o 3 Ebrill 2017). <https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/chief-coroner-guidance-no-16a-deprivation-of-liberty-safeguards-dols-3rd-april-2017-onwards/>
14. Llywodraeth Cymru – Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol yng Nghymru (19 Mawrth 2024). <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adroddiadau-atal-marwolaethau-yn-y-dyfodol-yng-nghymru>
15. Bevan Brittan LLP - Diffyg ymatebion i adroddiadau PFD (sylwadaeth 2025). <https://www.bevanbrittan.com/insights/articles/2025/non-responses-to-prevention-of-future-deaths-pfd-reports/>

Y Draffodaeth Wrando

192. Mae'r draffodaeth wrando yn sgwrs gefnogol, sy'n canolbwyntio ar y person sy'n rhoi lle i unigolion gael eu gwranddo, i esbonio beth ddigwyddodd o'u safbwynt nhw, disgrifio'r effaith, ac i gytuno ar y camau nesaf. Rhaid i'r draffodaeth gwmpasu'r holl faterion a restrir yn rheoliad 22(4), gan gynnwys anghenion cyfathrebu, canlyniadau a ddymunir, ac a yw datrys yn gynnar yn briodol.

193. Ar ôl derbyn pryder, rhaid i'r corff cyfrifol gynnig 'traffodaeth wrando' bersonol i'r person a'i gododd. Rhaid cynnig hyn ar yr un pryd ag y mae'r corff cyfrifol yn cydnabod yr hysbysiad o'r pryder. Rhaid i'r gydnabyddiaeth honno fod heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r hysbysiad gael ei dderbyn (rheoliad 22(1) a (4)) a'i chynnal drwy gyfathrebu personol (a all ddigwydd dros y ffôn, fideo neu wyneb yn wyneb).

194. Rhaid i'r cynnig gynnwys cynnig gweithredol o eiriolaeth ac unrhyw addasiadau hygyrchedd sydd eu hangen, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithydd, addasiadau rhesymol, gofynion Cymraeg, a chynnwys Llais neu gymorth arall lle mae'r person yn dymuno neu angen y cymorth hwn. Dylai trefniadau fod ar waith ymlaen llaw fel bod y person yn cael ei gefnogi'n briodol (rheoliad 22(4B)).

195. Dylid cyflwyno traffodaethau gwranddo yn unol ag arferion sy'n ystyriol o drawma a'u harwain gan rywun sydd â sgiliau gwranddo gweithredol, tosturi, sgiliau ymchwilio, a digon o awdurdod i weithredu. Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn cydnabod y gall pobl fod yn byw gydag effeithiau trawma, niwed, ofn, galar, trallod, neu brofiadau negyddol blaenorol o wasanaethau. Dylai staff greu diogelwch emosiynol a

seicolegol, cyfathrebu gyda thosturi ac eglurder, osgoi iaith sy'n bychanu, a lleihau'r risg o 'niwed proses' drwy sicrhau nad yw pobl yn teimlo eu bod wedi'u gwrthod, nad oes neb yn credu ynddynt, neu eu bod yn ofynnol iddynt adrodd eu stori dro ar ôl tro.

196. Cyn neu ar ddechrau'r drafodaeth wrando, dylai'r corff cyfrifol wirio cofnodion presennol ar gyfer anghenion hygyrchedd neu ddewisiadau iaith (gan gynnwys y Gymraeg). Os nad oes cofnod yn bodoli, rhaid i staff ofyn am y dull a ffefrir gan y person ar gyfer cyfathrebu parhaus a chofnodi hyn ar gyfer ymdrin â phryderon a chyfathrebu gofal yn y dyfodol (rheoliadau 3(1)(ga), 22(4)(f), 22(4B)).

197. Dylai'r drafodaeth gael ei harwain gan rywun sydd â'r sgiliau a'r awdurdod cywir, fel rheolwr uned neu adran, Metron neu arweinydd clinigol, ac nid o reidrwydd aelod o'r tîm pryderon neu gwynion. Dylai presenoldeb fod yn gymesur er mwyn osgoi gwneud i'r person deimlo ei fod wedi'i orniferu neu'n cael ei fygwth.

198. Ar ddechrau'r drafodaeth, dylai staff gyflwyno pawb sy'n bresennol, esbonio diben y drafodaeth wrando, a chadarnhau bod y person yn rheoli'r cyflymder. Dylai staff ofyn am ganiatâd i gymryd nodiadau, cynnig seibiannau, a chadarnhau y gall y person oedi neu atal y drafodaeth ar unrhyw adeg. Dylid ailgynnig eiriolaeth ar ddechrau'r drafodaeth lle bo hynny'n briodol, yn enwedig os yw'r person yn ofidus, mewn profedigaeth, neu'n ei chael yn anodd cyfathrebu.

199. Yn ystod y drafodaeth wrando, dylai staff ganiatáu naratif di-dor, ceisio eglurder ar bwyntiau allweddol gyda chaniatâd, a chadw cofnod cywir, cymesur. Dylai'r drafodaeth ymdrin â natur y pryder a'i effaith; y cwestiynau y mae angen i'r person gael atebion yn eu cylch; a'r canlyniad(au) y mae'r person yn ceisio.

200. Dylai staff esbonio'r opsiynau ar gyfer datrysiad, gan gynnwys datrysiad cynnar (o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn hysbysiad o'r pryder) neu ymchwiliad ffurfiol Cam 2. Rhaid cael caniatâd penodol lle dewisir Datrysiad Cynnar (rheoliad 22A). Pan ystyrir mai Cam 2 yw'r llwybr mwyaf priodol, rhaid i staff esbonio sut y bydd yr ymchwiliad yn cael ei drin, gan gynnwys trefniadau cydsynio i gael mynediad at gofnodion clinigol a'u defnyddio, y cymorth sydd ar gael (gan gynnwys eiriolaeth), ac amserlen realistig ar gyfer ymateb.

201. Pan fo ymchwiliad yn dangos niwed, dylai staff egluro y gellir cynnal asesiad o atebolrwydd cymwys (rheoliad 22(4)(h)). Rhaid i staff hefyd esbonio bod y 'cloc' ar gyfer camau gweithredu o dan Gam 2 yn dechrau ar y diwrnod y derbyniodd y corff cyfrifol hysbysiad o'r pryder.

202. Dylai staff ddisgwyl y gall pobl fynegi dicter, rhwystredigaeth, gofid neu emosiwn cryf wrth adrodd eu profiad. Ni ddylid trin dicter a chynnwrf fel ymddygiad annerbyniol ynddynt eu hunain. Dylai staff ymateb yn dawel, dilysu emosiwn, arafu'r cyflymder, cynnig seibiannau, ac osgoi bod yn amddiffynnol. Ni ddylid defnyddio

dulliau 'dim goddefgarwch' yn amhriodol i atal mynegiant o niwed neu drallod. Dylid gosod ffiniau yn gymesur a dim ond pan fydd ymddygiad yn dod yn anniogel, er enghraifft bygythiadau, aflonyddu, cam-drin gwahaniaethol, bygwth neu drais. Pan fo'n rhaid oedi trafodaeth neu ddirwyn trafodaeth i ben am resymau diogelwch, dylai'r corff cyfrifol gynnal mynediad i'r broses bryderon drwy drefniadau amgen a chymorth priodol, gan gynnwys eiriolaeth.

203. Efallai y bydd pobl sy'n codi pryderon am wahaniaethu (fel hiliaeth) mewn gwasanaethau iechyd wedi profi o'r blaen nad ydynt yn cael eu credu neu nad yw eu problemau wedi cael sylw digonol. Gall hyn arwain at drallod sylweddol ac amharodrwydd i godi pryderon. Dylai staff sicrhau bod pryderon am wahaniaethu yn cael eu cymryd o ddifrif, eu hystyried yn barchus, eu hymchwilio'n drylwyr, ac ymateb iddynt yn brydlon. Dylai staff ddilysu profiad y person yn weithredol, cynnig eiriolaeth a chymorth arbenigol lle bo hynny'n briodol, cymhwyso ymarfer gwrth-wahaniaethol a chymhwysedd diwylliannol, a monitro ar gyfer trallod neu ail-erledigaeth drwy gydol y broses bryderon.

204. Ar ôl y drafodaeth wrando, rhaid i staff gadarnhau'r camau nesaf, camau gweithredu ac amserlenni y cytunwyd arnynt. Rhaid i'r corff cyfrifol ddarparu pwynt cyswllt a enwir, cadarnhau dull cyfathrebu a ffefrir gan y person, a darparu diweddariadau pan addawyd, gan gynnwys cynnal diweddariadau lle nad oes newid. Dylid darparu cofnod ysgrifenedig a chrynodeb i'r person fel y cytunwyd, gan gynnwys llwybrau eiriolaeth a chymorth.

205. Os yw'r person yn gwrthod y drafodaeth wrando, rhaid i'r corff cyfrifol ysgrifennu ato i amlinellu penderfyniad y corff cyfrifol ynghylch a yw datrys yn gynnar yn briodol ai peidio neu a yw'r pryder yn cael ei reoli'n fwy addas o dan reoliad 24 neu 26.

206. Os yw'r person yn gwrthod y cynnig o drafodaeth wrando, rhaid i'r corff cyfrifol benderfynu ar y ffordd a'r amserlen y bydd yr ymchwiliad i'r pryder yn cael ei drin, gan gynnwys cydsynio i ddefnyddio cofnodion meddygol ac argaeledd gwasanaethau eiriolaeth a chymorth a allai fod o gymorth i'r person hwnnw.

Cam 1 – Gwrando a gweithredu i ddatrys pryderon a'r cyfnod datrys yn gynnar

208. 'Gwrando a Gweithredu' (Cam 1) yw'r cyfle cyntaf a'r mwyaf hanfodol i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan bobl, eu teuluoedd, neu eu cynrychiolwyr. Ei ddiben yw datrys materion yn brydlon, yn dosturiol, ac yn effeithiol, gan osgoi uwchgyfeirio diangen i gam ymchwilio cam 2, fel y nodir yn rheoliad 23.

209. Mae'r Prif Reoliadau yn nodi cyfnod datrysiad cynnar strwythuredig ac yn cryfhau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys gofynion ynghylch sut mae trafodaethau yn cael eu cynnig, eu cofnodi a'u cynnal (yn

enwedig rheoliadau 22, 22A).

Egwyddorion Datrysiad Cynnar

210. Mae datrysiad cynnar wedi'i seilio ar dair egwyddor graidd:

Yn gyntaf, mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn—parchu eu dewisiadau, eu gwerthoedd a'u canlyniadau a ddymunir—wrth sicrhau bod anghenion hygyrchedd a chyfathrebu yn cael eu bodloni.

Yn ail, dylai dulliau tosturiol, sy'n ystyriol o drawma ac empathi fod yn bresennol ym mhob rhyngweithio i gydnabod effaith ac adfer ymddiriedaeth.

Yn drydydd, mae gwrando gweithredol a chyfathrebu clir yn hanfodol i ddeall y pryder, cytuno ar ganlyniadau realistig, a lleihau camddealltwriaeth.

Penderfynu ar Addasrwydd ar gyfer Datrysiad Cynnar

211. Nid yw pob pryder yn addas ar gyfer datrysiad cynnar. Ystyriwch gymhlethdod, difrifoldeb, dichonoldeb o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cydnabod cael y pryder gan y corff cyfrifol, unrhyw gyd-destun cyfreithiol neu ddiogelu, a dewisiadau'r person. Lle nad yw datrysiad cynnar yn briodol, esboniwch hyn yn glir a symud i Gam 2. Nodwch fod pryderon a ddatryswyd yn ystod y cyfnod datrysiad cynnar wedi'u heithrio o gwmpas rheoliadau 23–48, a gellir eithrio pryderon blinderus neu wacsaw o dan reoliad 14.

Camau Gweithredu yn ystod y Cyfnod Datrysiad Cynnar

212. Ar ôl cael cydsyniad, gweithredwch yn gyflym ac yn benderfynol. Nid yw'r cyfnod datrysiad cynnar yn hwy na 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cyfathrebwyd y gydnabyddiaeth.

213. Eglurwch y canlyniadau a ddymunir a rheoli disgwyliadau. Cadarnhewch yn union beth mae'r person eisiau ei gyflawni—esboniad, ymddiheuriad, camau unioni, neu sicrwydd dysgu—a byddwch yn dryloyw ynghylch yr hyn sy'n realistig o fewn y cyfnod datrysiad cynnar yn erbyn yr hyn a allai gymryd mwy o amser.

214. Dangoswch dosturi ac empathi. Cydnabyddwch deimladau; cynigiwch ymddiheuriad diffuant am drallod; defnyddiwch dôn gefnogol ac iaith nad yw'n amddiffynol; rhowch sicrwydd ymarferol am y camau sy'n cael eu cymryd; caniatewch amser heb frysio; a dilyn ymrwymadau yn brydlon.

215. Defnyddiwch dechnegau gwrando gweithredol. Defnyddiwch gwestiynau agored, crynodebau myfyriol ac awgrymiadau egluro; rhowch sylw i arwyddion di-

eiriau; ac osgoi rhagdybiaethau.

- 216.** Cynhaliwch wiriad ffeithiau cyflym. Gwiriwch gofnodion ac amserlenni allweddol; siaradwch â staff sy'n gysylltiedig; nodwch gamau cywiro ar unwaith.
- 217.** Gweithredwch gamau y cytunwyd arnynt. Cymerwch gamau penodol, cymesur sy'n cyd-fynd â chanlyniadau'r person (e.e., trefnwch adolygiad clinigol dilynol, cywiro gwall gweinyddol, gwella prosesau cyfathrebu).
- 218.** Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i'r person. Yr arfer gorau yw darparu o leiaf un diweddariad cynnydd cyn i'r cyfnod 10 diwrnod gwaith ddod i ben, lle bo hynny'n bosibl, a defnyddio dull cyfathrebu a ffefrir gan y person oni bai bod y datrysiad a ddymunir yn gyraeddadwy mewn amserlen fyrrach.
- 219.** Cadarnhewch a chau neu uwchgyfeirio. Cadarnhewch a yw'r pryder wedi'i ddatrys er boddhad y person. Os ydyw, cyhoeddwch gadarnhad ysgrifenedig o gau; os nad ydyw, dechreuwch gam 2 a chadarnhau hynny yn ysgrifenedig (rheoliad 22A(4)(b)-(c)).

Adolygu gwybodaeth

- 220.** Yn ystod cam 1 nid yw gwiriad ffeithiau yn cynnwys asesu atebolrwydd cymwys; pan fydd niwed yn cael ei honni, rhaid cynghori'r person mai dim ond os bydd ymchwiliad Cam 2 - Rheoliad 23 yn mynd rhagddo (rheoliad 22(4)(h)) y gall unrhyw asesiad ffurfiol o atebolrwydd cymwys ddigwydd)). Felly, os ceisir iawndal ariannol, ni fyddai datrysiad cynnar yn addas.
- 221.** Mae canllawiau ymarfer datrysiad cynnar yn pwysleisio datrys materion syml yn gyflym ac yn anffurfiol, gydag esboniad clir a chyfathrebu hygyrch.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person sy'n codi pryder

- 222.** Yn y drafodaeth wrando, rhaid i'r sefydliad osod a chyfathrebu amserlen amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu datrysiad cynnar a/neu unrhyw ymateb (rheoliad 22(4)(c)). Drwy gydol y cyfnod datrys yn gynnar, dylid hysbysu'r person am gynnydd ac amserlenni tebygol, yn unol â'r egwyddor bod pobl sy'n hysbysu pryderon yn cael y wybodaeth ddiweddaraf (rheoliad 3(1) (fa)). Dylid darparu diweddariadau gan ddefnyddio'r dull a ffefrir gan y person ac mewn fformat y gall ei ddeall, gydag esboniadau o dermau meddygol/cyfreithiol lle bo'n briodol (rheoliad 31) (ga); rheoliad 22(4)(f)). Mae diweddariadau rheolaidd, rhagweithiol yn amddiffyn ymddiriedaeth ac yn lleihau'r tebygolrwydd o uwchgyfeirio.

Datrysiad boddhaol

223. Ar ddiwedd y cyfnod datrys yn gynnar o 10 diwrnod gwaith (cam 1), rhaid i'r corff cyfrifol geisio cadarnhad gan y person a gododd y pryder ynghylch a yw'r pryder wedi'i ddatrys i'w foddhad (rheoliad 22A(4)(a)). Os yw'r person yn cadarnhau boddhad, rhaid i'r sefydliad gyhoeddi cadarnhad ysgrifenedig bod y weithdrefn datrysiad cynnar wedi'i chwblhau ac na fydd y pryder yn mynd ymlaen i ymchwiliad rheoliad 23 (rheoliad 22A(4)(b)). Dylai'r cau ysgrifenedig hwn ailadrodd y canlyniadau a gyflawnwyd (e.e., esboniad, ymddiheuriad, camau unioni ar unwaith) mewn iaith glir, hygyrch sy'n cyd-fynd â dewisiadau'r person (rheoliad 3(1)(ga)). Rhaid dogfennu'r canlyniad a'r camau a gymerwyd yn gywir yng nghofnod yr achos, gan gynnwys a gyflawnwyd y datrysiad yn foddhaol; mae'r data hyn yn cefnogi Monitro a dysgu sefydliadol o dan reoliad 50.

Pan na ellir parhau â'r datrysiad cynnar

224. Os yw'r person yn tynnu'r pryder yn ôl ar lafar, rhaid i'r corff cyfrifol gadarnhau tynnu'n ôl yn ysgrifenedig (rheoliad 16). Os daw'r pryder yn destun achos sifil yn ystod ymchwiliad, bydd y pryder yn cael ei eithrio (rheoliad 14(1)(i)) a rhaid i ymdrin â'r pryder ddod i ben, gan gyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig. Os bydd ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol yn codi, caiff y corff cyfrifol atal datrysiad cynnar a rhaid iddo roi gwybod i'r person yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na dau ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y daw'r corff cyfrifol yn ymwybodol, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfreithiol ar ddatgelu (rheoliad 24A).

Cadw cofnodion a monitro

225. Cadwch gofnodion cywir ynghylch a gynigiwyd/gynhaliwyd trafodaeth wrando; dewisiadau cyfathrebu; eiriolaeth/addasiadau; y llwybr y cytunwyd arno (a chysyniad os yw'n Ddatrysiad Cynnar); camau a gymerwyd; a'r canlyniad a'r statws boddhad. Mae'r data hyn yn cefnogi dyletswyddau monitro a dysgu (rheoliad 50) ac adrodd BILL (rheoliad 51).

Tystiolaeth ymchwil sy'n cefnogi'r dull hwn

226. Mae datrysiad cynnar yn gwella boddhad ac yn lleihau uwchgyfeirio. Mae tystiolaeth achos yn dangos bod ymgysylltu llafar cynnar a chyfarfodydd wedi'u hwyluso yn cynyddu datrysiad tro cyntaf ac yn lleihau atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon.

227. Mae trin sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn darparu canlyniadau gwell. Mae adolygiadau yn tynnu sylw at werth ymatebion wedi'u teilwra, sy'n canolbwyntio ar y claf ac arferion cyfathrebu safonedig ar gyfer datrysiad effeithiol a dysgu

system.

228. Mae cyfathrebu tosturiol yn meithrin ymddiriedaeth ac ymlyniad. Mae tosturi yn gysylltiedig â llai o bryder, perthnasoedd therapiwtig cryfach a gwell ymlyniad— sy'n allweddol i ddatrys pryderon yn gynnar ac yn dda.

229. Mae gwrando gweithredol yn lleihau gwallau ac yn cryfhau perthnasoedd. Mae tystiolaeth yn cysylltu gwrando gweithredol â gwell dealltwriaeth, llai o gamgyfathrebu a mwy o foddhad.

230. Mae modelau datgelu rhagweithiol yn gweithio. Mae rhaglenni fel CANDOR yn dangos bod ymgysylltu amserol, tryloyw ar ôl niwed yn cefnogi datrysiad teg a gall leihau'r risg o ymglyfreitha.

Rhestr Wirio Cydymffurfiaeth y Rheolwr

231. Mae'r rhestr wirio isod yn crynhoi'r camau gofynnol a lle bo'n berthnasol yn darparu angorau rheoleiddiol neu gyfeiriadau tystiolaeth:

Gofyniad / Gweithred	Angor / tystiolaeth reoleiddiol
Cynnig trafodaeth wrando o fewn 5 diwrnod gwaith drwy gyfathrebu personol (ffôn/fideo/wyneb yn wyneb).	Rheoliadau 22(1), 22(4), 22(4A)–(4C)
Cofnodi dewisiadau cyfathrebu'r person (gan gynnwys y Gymraeg/anghenion mynediad) a darparu cyfathrebu yn y modd y gofynnwyd amdano.	Rheoliadau 3(1) (ga); 22(4)(f), 22(4B)–(4C)
Sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei arwain gan berson medrus addas sydd ag awdurdod i weithredu ac i gyflawni camau amserol.	Polisi a llywodraethu lleol; yn cyd-fynd ag egwyddorion rheoliad 7 (Swyddog Cyfrifol)
Cynnig addasiadau eiriolaeth a hygyrchedd (e.e., cyfieithydd, Llais) a'u trefnu ymlaen llaw.	Rheoliad 3(1)(i) a (ii) a 22(4b)
Egluro'r canlyniadau a ddymunir a rheoli disgwyliadau, gan ddogfennu blaenoriaethau'r person.	Rheoliad 22(4)(d);
Esbonio llwybrau datrys a chael cydsyniad i geisio datrysiad cynnar; cofnodwch y penderfyniad.	Rheoliad 22A (2)– (4); rheoliad 22(4)(c) (g), (h), (i)

Cwblhewch gamau datrysiad cynnar o fewn 10 diwrnod gwaith i gydnabyddiaeth neu uwchgyfeirio i Gam 2.	Diffiniad o gyfnod datrysiad cynnar (rheoliad 2(1)); rheoliad 22A (3)– (4)
Darparwch gadarnhad ysgrifenedig o gau (os caiff ei ddatrys) neu gadarnhad ysgrifenedig o uwchgyfeirio i Gam 2 (os nad yw'n cael ei ddatrys).	Rheoliad 22A(4)(b)–(c)
Esboniwch os nodir niwed yn y cam ffurfiol, bydd asesiad o atebolrwydd cymwys yn cael ei gynnal.	Rheoliad 22(4)(h); Rhannau 6 a 7
Rhowch wybod i'r person am gynnydd ac amserlenni tebygol.	Rheoliad 3(1)(fa)
Ataliwch ddatrysiad cynnar/ymchwiliad pan fydd prosesau diogelu neu droseddol yn berthnasol; hysbyswch o fewn dau ddiwrnod gwaith.	Rheoliad 24A
Cadwch gofnodion cyflawn ar gyfer monitro ac adrodd blynyddol.	Rheoliadau 50–51

Cam 2: Ymchwilio, Ymateb a Dysgu

232. Defnyddir Cam 2 i ddisgrifio ymchwiliad ffurfiol i bryderon o dan reoliad 23, sy'n sefydlu'r fframwaith statudol ar gyfer ymchwiliad ffurfiol i bryderon nad ydynt wedi'u datrys yn ystod y cyfnod datrysiad cynnar neu mewn perthynas â phryderon lle na cheisiwyd datrysiad cynnar (er enghraifft os na ystyriwyd ei fod yn briodol neu os nad oedd y person yn cydsynio). Ar ôl cychwyn, rhaid i'r corff cyfrifol gynnal ymchwiliad trylwyr, amserol a chymesur wedi'i deilwra i natur a chymhlethdod y pryder. Mae'r 'cloc' ar gyfer camau gweithredu o dan Gam 2 yn dechrau ar y diwrnod y cafodd y corff cyfrifol hysbysiad o'r pryder.

233. Enghreifftiau o arfer da yw lle mae pobl a theuluoedd (neu bobl sy'n bwysig i'r person) yn cael eu cynnwys wrth osod cwmpas a chynnwys yr ymchwiliad.

234. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad cychwynnol i ddiffinio cwmpas a dyfnder yr ymchwiliad, cynnal cyfathrebu priodol â'r hysbysydd, a sicrhau ei gyfranogiad ystyrlon drwy gydol y broses. Mae rheoliad 23 yn pwysleisio'r angen am gymorth staff, ystyried y defnydd o gyngor arbenigol annibynnol, ac ystyried dulliau amgen o ddatrys anghydfod lle bo hynny'n briodol.

235. Rhaid i'r ymchwiliad gael ei gynnal yn unol ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan sicrhau cysondeb, tryloywder ac atebolrwydd wrth ymdrin â phryderon

Y weithdrefn cyn ymchwilio o dan Reoliad 23

- 236.** Mae rheoliad 23 yn gosod rhwymedigaeth statudol ar gyrrff GIG Cymru i sicrhau bod unrhyw bryder sy'n ymwneud â honiad o niwed yn destun asesiad strwythuredig sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwerthusiad gorfodol o'r tebygolrwydd o atebolrwydd cymwys, y ddyletswydd i ystyried Gwneud lawn o dan reoliad 25, a, lle bo'n berthnasol, y gofynion gweithdrefnol ychwanegol a nodir yn Rhan 6 o'r Prif Reoliadau. [Gweler yr adran Gwneud iawn.](#)
- 237.** Cyn dechrau unrhyw ymchwiliad ffurfiol o dan reoliad 23, rhaid i'r corff cyfrifol gynnig cynnal trafodaeth wrando gyda'r unigolyn sydd wedi codi'r pryder, wedi'i dogfennu yn unol â rheoliad 22.
- 238.** Lle cynhelir y drafodaeth, rhaid iddi roi cyfle i ennyn dealltwriaeth yr unigolyn o'r digwyddiad, ei ddisgwyliadau ynghylch datrys, ac unrhyw anghenion cyfathrebu neu hygyrchedd penodol.
- 239.** Rhaid i'r corff cyfrifol esbonio'n glir os na ellir defnyddio'r cynllun gwneud iawn yn yr amgylchiadau lle mae'r iawndal amcangyfrifedig yn fwy na £50,000. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid dweud wrth y person am gael cyngor cyfreithiol annibynnol a rhoi manylion cyswllt Llais, Corff Llais y Dinesydd. Rhaid i'r cyngor hwn gael ei gofnodi'n ffurfiol a'i gynnwys yn yr ymateb i reoliad 24.
- 240.** Dylai'r asesiad cychwynnol o'r pryder fod yn drylwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn gymesur â difrifoldeb y materion a godwyd fel yr amlinellir yn adran graddio'r canllawiau hyn.
- 241.** Mae'n ddyletswydd ar y corff cyfrifol i raddio'r pryder yn gywir, ac i bennu dyfnder a chwmpas priodol yr ymchwiliad. Mae'r graddio hwn yn llywio cyfansoddiad y tîm ymchwilio, y dylid ei ddewis yn seiliedig ar arbenigedd amlwg, annibyniaeth a hygredded proffesiynol. Dylai ymchwilwyr fod yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig, gan gynnwys perthnasoedd teuluol ag unrhyw barti sy'n ymwneud â'r pryder. Dylid diogelu uniondeb y broses bob amser.

Ymchwilio i bryderon

- 242.** Yn unol â safonau cyfoes ymchwilio i ofal iechyd, dylai'r corff cyfrifol fabwysiadu methodolegau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r dadansoddiad o wraidd y broblem traddodiadol. Er bod dadansoddiad o wraidd y broblem yn parhau i fod yn offeryn dilys ar gyfer rhai digwyddiadau difrifoldeb uchel, nid yw'n gyffredinol berthnasol i'r amrywiaeth eang o bryderon ac mewn gwirionedd mae'n darparu sawl cyfyngiad critigol sydd angen eu hystyried yn ofalus.

- 243.** Enghreifftiau amgen yw Adolygiadau Ôl-Weithredu (AAR), yr offeryn Dysgu o Ddiffygion (LFD), a'r model SWARM sy'n cynnig fframweithiau strwythuredig, cyflym ac amlddisgyblaethol ar gyfer dadansoddi digwyddiadau.
- 244.** Mae'r modelau hyn yn cael eu cymeradwyo gan gyrff diogelwch cleifion blaenllaw yn y DU ac yn rhyngwladol ac maent wedi'u cynllunio i hyrwyddo diogelwch seicolegol, gwella dysgu tîm, a chynhyrchu canlyniadau y gellir gweithredu arnynt. Dylid hyfforddi ymchwiliwyr mewn unrhyw fethodolegau a ddefnyddir a'u grymuso i'w cymhwyso'n ddoeth yn seiliedig ar natur a chymhlethdod y pryder. Dylid ystyried ffactorau dynol a dull sy'n ystyriol o drawma hefyd.
- 245.** Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru a Chronfa Risg GIG Cymru wedi cael y dasg o weithio gyda'r GIG yng Nghymru i gyhoeddi fframwaith ymchwilio safon fodern ar gyfer rheoli pob pryder yn unol â'r canllawiau hyn a'r Prif Reoliadau a chefnogi ei weithredu a darparu goruchwyliaeth.
- 246.** At hynny, dylid cynnal ymchwiliadau o fewn fframwaith sy'n seiliedig ar systemau sy'n blaenoriaethu dysgu sefydliadol yn hytrach na beio unigolion gan harneisio gwersi o Ddiwylliant Cyfiawn. Dylai prosesau ymchwilio gefnogi staff yn deg drwy bryderon y maent yn ymwneud â nhw, wrth hyrwyddo dysgu sefydliadol.
- 247.** Dylai'r corff cyfrifol sicrhau bod ymchwiliadau yn archwilio ffactorau cyfrannol ar draws meysydd clinigol, gweithredol a llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso egwyddorion ffactorau dynol, nodi gwendidau system cudd, ac integreiddio canfyddiadau i fentrau gwella ansawdd ehangach. Dylai'r ymchwiliad gael ei ddogfennu'n fanwl gywir, gan gynnwys rhesymeg glir dros bob penderfyniad, sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, ac amserlen o gamau a gymerwyd.
- 248.** Mae'n ofynnol i'r corff cyfrifol roi sylw i a oes angen [cyngor meddygol annibynnol neu gyngor arall](#) ar y person sy'n ymchwilio i'r materion a godwyd gan y pryder.
- 249.** Mewn achosion lle mae Gwneud Iawn yn cael ei ysgogi, cyfeiriwch at yr adran [Gwneud Iawn](#)
- 250.** Mae'r egwyddor o "ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda" yn parhau i fod yn bwysig. Fodd bynnag, dylai'r ymchwiliad fod yn gymesur â graddio'r pryder, a dylai fod yn ddiduedd ac yn derfynol, a'i gyflawni yn y modd mwyaf amserol.
- 251.** Dylai'r corff cyfrifol sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu cyfathrebu'n dryloyw i'r unigolyn a gododd y pryder a bod dysgu sefydliadol yn cael ei ledaenu'n briodol. Dylai'r broses ymchwilio gael ei hymgorffori mewn system rheoli ansawdd gadarn

sy'n cefnogi gwelliant parhaus, atebolwydd a hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth iechyd.

Gwneud iawn

Trosolwg Cyffredinol

- 252.** Mae'r cysyniad o wneud iawn, fel y'i nodir yn Rhan 6 o'r Prif Reoliadau (a Rhan 7 mewn perthynas ag amgylchiadau lle mae un o gyrff GIG Cymru yn ymrwymo i drefniadau gydag un o gyrff y GIG yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon), yn rhan o drefniadau ehangach Gwrando ar Bobl.
- 253.** Mewn amgylchiadau lle mae pryder a hysbyswyd yn cynnwys honiad bod niwed wedi'i achosi neu a allai fod wedi'i achosi, mae gan gyrff GIG Cymru (BILlau, Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig) ddyletswydd i ystyried a oes atebolwydd cymwys yn bodoli ac a ddylid gwneud cynnig iawndal ai peidio. Mae hyn yn cynnwys ystyried a fu torri dyletswydd ac a achosodd hyn niwed, a esbonnir ymhellach yn yr Atodiad i'r adran hon.
- 254.** Mae egwyddorion gwneud iawn yn berthnasol yn gyfartal p'un a yw'r pryder a godwyd yn deillio o gŵyn neu ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion.
- 255.** Dim ond pan fydd ymchwiliad o dan reoliad 23 yn digwydd ac felly ni ellir ei ystyried o dan gam 1 (datrysiad cynnar) y gellir asesu atebolwydd cymwys ac iawn). Dylid cyfathrebu hyn yn glir yn ystod y drafodaeth wrando (reoliad 22(4)(h)).
- 256.** Mae'n bwysig nodi mai dim ond os nad yw gwerth unrhyw atebolwydd cymwys yn fwy na'r trothwy ariannol, sef £50,000 ar hyn o bryd, y caniateir cynnig yr iawn ar ffurf iawndal ariannol (gweler rheoliadau 29(2) o dan Ran 6 a 44(2) o dan Ran 7). Yn hynny o beth, mae'n bwysig bod asesiad yn cael ei gynnal **ar ôl cael y pryder** i benderfynu a) a honnir niwed fel rhan o'r pryder hwnnw, a b) y gwerth tebygol amcangyfrifedig. Bydd yr asesiad hwn yn llywio cwrpas yr ymchwiliad, ynghylch a yw'r gofyniad i ymchwilio i atebolwydd cymwys ac ystyried iawn ar ffurf iawndal ariannol yn cael ei ysgogi.
- 257.** Mewn amgylchiadau lle nad oes unrhyw honiad o niwed neu lle na chanfyddir niwed yn ystod yr ymchwiliad, mae gofyniad o hyd i gydymffurfio'n llawn â'r dyletswyddau o dan reoliad 23 i gynnal ymchwiliad ffeithiol llawn a darparu ymateb o dan reoliad 24, sy'n nodi canlyniad yr ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw fethiannau a nodwyd. Ni ddylid mynd i'r afael â materion atebolwydd cymwys ac iawndal ariannol fel rhan o'r ymchwiliad. Fodd bynnag, gellir ystyried agweddau eraill ar wneud iawn. Gellir gwneud iawn drwy:
- gwneud cynnig iawndal i fodloni unrhyw hawl i ddwyn achos sifil mewn perthynas ag atebolwydd cymwys;

- b. rhoi esboniad;
- c. gwneud ymddiheuriad ysgrifenedig; a
- d. rhoi adroddiad ar y camau sydd wedi'u cymryd, neu a gymerwyd, i atal achosion tebyg rhag codi.

258. Mewn amgylchiadau lle mae honiad o niwed neu lle gallai niwed fod yn bresennol yna mae'n bwysig penderfynu a yw gwerth yr hawliad yn debygol o fod yn fwy na'r trothwy ariannol, h.y. £50,000. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r corff cyfrifol gynnal ymchwiliad ffeithiol llawn a darparu ymateb o dan reoliad 24 heb asesu materion atebolrwydd cymwys. Caiff y corff GIG Cymru ystyried gwneud a chynnig setliad y tu allan i'r darpariaethau hyn pan fo atebolrwydd cymwys eisoes wedi'i asesu (rheoliad 29(3)).

259. Mae rheoliadau 34 i 48 (yn Rhan 7) yn caniatáu i iawn gael ei ystyried mewn perthynas â gofal a gomisiynwyd gan gyrff y GIG mewn rhannau eraill o'r DU (a elwir yn achosion trawsffiniol). Mae trefniadau penodol yn ymwneud â'r achosion trawsffiniol hyn a'r rhyngweithio rhwng y Corff GIG Cymru a chorff arall y GIG. Cyfeirir at y trefniadau hyn mewn manau eraill yn y Canllawiau hyn.

260. Nid yw adrannau gwneud iawn o'r Prif Reoliadau yn berthnasol i gyrff cyfrifol ac eithrio cyrff GIG Cymru ac felly nid ydynt yn berthnasol i Ddarparwyr Gofal Iechyd Annibynnol na Darparwyr Gofal Sylfaenol (ac eithrio pan fo'r Darparwr Gofal Sylfaenol yn bractis a reolir gan Gorff Iechyd).

261. Mae hefyd yn berthnasol nodi yma bod y Prif Reoliadau (rheoliad 14), yn cynnwys sawl eithriad, gan gynnwys (sy'n arbennig o berthnasol i'r rhan gwneud iawn o'r broses):

- a) Na ddylid ymchwilio i bryder mewn amgylchiadau lle mae achos sifil (hawliad) wedi'i gychwyn, gan gynnwys cam cyn-cyfreitha'r achosion hynny. Mae hyn yn golygu, os yw Llythyr Hysbysu neu Lythyr Hawliad wedi'i gyflwyno, neu achos Llys wedi'i gyhoeddi a'i gyflwyno, ni ddylid ymchwilio i'r pryder, gan gynnwys yr elfennau gwneud iawn. Os canfyddir bod y camau hyn wedi'u cymryd ran o'r ffordd drwy ymchwiliad o dan y trefniadau hyn, rhaid i'r ymchwiliad ddod i ben a rhaid diweddarau'r claf neu ei gynrychiolydd (rheoliad 28). Dylai cyrff GIG Cymru hefyd fod yn ymwybodol y dylent ystyried hyn ymhellach pan fyddant yn cael eu hysbysu am gytundeb ffi amodol neu bremiwm yswiriant wedi'i wneud, ac efallai yr hoffent ofyn am gyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
- b) Na ddylid ymchwilio i bryder mewn amgylchiadau lle mae'r pryder yn cael ei ymchwilio, neu wedi'i ymchwilio, gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon'), oni bai bod yr Ombwdsmon wedi argymhell bod y corff GIG Cymru yn cynnig math o iawn o dan Ran 6, ac yn yr achos hwnnw dim ond at ddibenion penderfynu a yw atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a allai fodoli y caiff y corff GIG Cymru gynnal ymchwiliad pellach i'r pryder a chynnig math o iawn yn unol â'r argymhellion. Mae hyn yn caniatáu i achosion drosglwyddo'n ôl o'r Ombwdsmon i'r corff GIG Cymru ar gyfer

ymchwiliad pellach cyfyngedig (rheoliad 14(1)(c) fel y'i diwygiwyd gan [Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol \(Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2023](#)).

- 262.** Mae'r Prif Reoliadau hefyd yn darparu, yn rheoliad 15(3), na chaniateir hysbysu pryder dair blynedd neu fwy ar ôl y dyddiad y digwyddodd y mater sy'n destun y pryder neu, os yw'n ddiweddarach, tair blynedd neu fwy o'r dyddiad y daeth y mater sy'n destun y pryder i sylw'r claf.
- 263.** Mae'n bwysig bod yr eithriadau uchod yn cael eu hystyried ar ddechrau'r pryder.
- 264.** Os, ar ôl ystyried pob un o'r uchod, penderfynir gan y corff GIG Cymru a) bod y pryder yn cynnwys honiad o niwed, b) bod gwerth yr hawliad yn annhebygol o fod yn fwy na'r trothwy ariannol ac c) nad oes unrhyw un o'r eithriadau yn berthnasol, dylai'r ymchwiliad gynnwys ystyried atebolrwydd cymwys. Os sefydlir atebolrwydd cymwys, mae'n ofynnol i'r corff GIG Cymru o dan y Rheoliadau ystyried gwneud cynnig i wneud iawn. Gellir ystyried cynnig iawn anariannol o hyd pan fo'r gwerth hawliad yn debygol o fod yn fwy na'r trothwy gwerth hawliad.
- 265.** Gall iawn fod ar wahanol ffurfiau, a gall gynnwys un neu gyfuniad o'r canlynol:
- Cynnig digollediad ariannol (hyd at £50,000).
 - Contract i ddarparu gofal neu driniaeth adferol (a gynigir i'r claf gyda'r bwriad o geisio gwella ei gyflwr a'i adfer, cyn belled ag y bo modd, i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynnddi oni bai am dorri dyletswydd).
 - Ymddiheuriad ysgrifenedig.
 - Esboniad o ddigwyddiadau.
 - Adroddiad ar gamau sydd wedi'u cymryd, neu a fydd yn cael eu cymryd, i atal achosion tebyg rhag codi.
- 266.** Er bod yr ystyriaethau ynghylch gwneud iawn yn crisialu yn ddiweddarach yn y broses, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hegluro i'r claf neu ei gynrychiolydd ar y dechrau (h.y. efallai o fewn y drafodaeth wrando), fel ei fod yn deall y rhwymedigaethau sy'n codi. Mae hefyd yn bwysig bod trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r claf neu ei gynrychiolydd ynghylch ei ddisgwyliadau ar gyfer canlyniad y pryder, gan gynnwys y gwahanol fathau o iawn. Byddai'n synhwyrol i'r drafodaeth hon gael ei chynnal fel rhan o'r drafodaeth wrando, ac i ailystyried hyn ar ôl cwblhau ymchwiliad cychwynnol corff y GIG yng Nghymru os yw'r mater yn mynd i Ran 6 (gwneud iawn) byddai hyn eto yn cael ei gyflawni orau yn ystod y cyfarfod adborth a gynigir ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, ac ar y pwynt hwnnw caiff ei drosglwyddo fel arfer i dîm gwneud iawn corff y GIG yng Nghymru i'w drin.

Ymateb i bryder

- 267.** Dylai'r ymateb terfynol i bryder gan gorff cyfrifol nad yw'n un o Gyrrff GIG Cymru gael ei anfon o dan reoliad 24. Bydd hwn yn ymateb ffeithiol na fydd yn mynd i'r afael â materion atebolrwydd cymwys. Yn yr un modd, fel y nodir uchod, lle nad

oes gofyniad i un o Gyrrff GIG Cymru ymchwilio i atebolwydd cymwys, bydd yr ymateb hwn o dan reoliad 24.

268. Pan fo'r gofyniad i ystyried atebolwydd cymwys ac iawn yn codi, bydd canlyniad ymchwiliad cychwynnol y Corff GIG Cymru fel a ganlyn:

- Ymateb a anfonir o dan reoliad 26 (a elwir yn adroddiad Interim), yn dod i'r casgliad bod neu y gallai fod atebolwydd cymwys ond bod angen ymchwiliadau pellach i benderfynu a oes atebolwydd cymwys yn bodoli neu raddau'r atebolwydd hwnnw.
- Adroddiad ymchwiliad a anfonir o dan reoliad 31 mewn perthynas â pherson sy'n ceisio iawn pan fo'r corff GIG Cymru yn cadarnhau, yn ei farn ef, a oes atebolwydd cymwys ai peidio.
- Rheoliad 33, sy'n cyfathrebu penderfyniad y corff GIG Cymru ynghylch a ddylid gwneud cynnig i wneud iawn ai peidio, gan gynnwys naill ai gwneud y cynnig hwnnw neu hysbysu na fydd cynnig yn cael ei wneud gan nad oes unrhyw atebolwydd cymwys.

269. Ar y dechrau, mae'n bwysig bod yr holl gyfathrebiadau ynghylch gwneud iawn yn cael eu darparu gyda'r claf neu ei gynrychiolydd mewn golwg, a bod empathi, eglurder a chefnogaeth wrth wraidd pob trafodaeth a chyfathrebu. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw iawn yn ymwneud â'r elfennau ariannol yn unig, a bod y mathau eraill o iawn yr un mor bwysig. Pan fydd materion atebolwydd cymwys a chynigion ariannol yn cael eu trafod, bydd angen cyfeirio at derminoleg gyfreithiol; mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud mewn iaith glir, gyda'r claf neu ei gynrychiolydd mewn golwg, a bod esboniadau clir yn cael eu darparu.

270. Rhaid i'r ymatebion gael eu llofnodi gan y swyddog cyfrifol neu ei ddirprwy dynodedig.

Rheoliad 24 (ymateb)

271. Yr amserlen ar gyfer anfon ymateb rheoliad 24 yw 30 diwrnod gwaith gan ddechrau â'r dyddiad yr hysbyswyd y pryder yn unol â rheoliad 24(3). Os nad yw'n bosibl anfon yr ymateb o fewn yr amserlen hon, yna yn unol â rheoliad 24(4), rhaid i'r corff cyfrifol hysbysu'r person neu ei gynrychiolydd ac esbonio'r rheswm pam, ac anfon yr ymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn chwe mis (gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd hysbysiad o'r pryder).

272. Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r gofynion cynnwys fel a ganlyn:

- Ymddiheuriad (lle bo'n briodol)
- Crynodeb o'r hyn oedd y pryder
- Esboniad o sut y cafodd y pryder ei ymchwilio
- Copïau o unrhyw farn arbenigol a gafwyd fel rhan o'r ymchwiliad
- Copïau o gofnodion meddygol perthnasol, lle bo'n briodol
- esboniad o unrhyw gamau a gymerir

- cynnig i drafod yr ymateb i'r pryder gyda'r swyddog cyfrifol neu ei gynrychiolydd enwebedig; a
- manylion hawl y person i godi ei bryder gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- ac yn achos un o gyrff GIG Cymru:
 - mewn perthynas â phryder sy'n honni bod niwed wedi'i achosi neu a allai fod wedi'i achosi, esboniad o'r rhesymau pam nad oes atebolrwydd cymwys; neu
- esboniad o pam na fydd trefniadau gwneud iawn ariannol o dan Ran 6 yn cael eu hysgogi mewn ymateb i bryderon sy'n honni bod niwed wedi'i achosi lle byddai gwerth ariannol yr hawliad, pe bai'n cael ei brofi, yn fwy na'r trothwy ariannol a nodir yn rheoliad 29. Fodd bynnag, efallai y bydd mathau eraill o iawn yn dal i fod yn addas.

Rheoliad 26 (Ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod atebolrwydd cymwys neu y gallai fod atebolrwydd cymwys)

273. Os yw'r ymchwiliad yn arwain at ganfyddiad bod atebolrwydd cymwys yn bodoli, neu y gallai fodoli, rhaid i'r corff GIG Cymru anfon adroddiad interim o dan reoliad 26. Bydd yr ymateb hwn fel arfer yn cyfaddef torri dyletswydd a gall gyfaddef rhywfaint o achosiaeth, ond fel arfer mae angen cynnal ymchwiliadau pellach i bennu achosiaeth.

274. Yr amserlen ar gyfer anfon adroddiad interim rheoliad 26 yw **30 diwrnod gwaith gan ddechrau â'r dyddiad yr hysbyswyd y pryder** yn unol â rheoliad 26(2). Os nad yw'n bosibl anfon yr ymateb o fewn yr amserlen hon, yna yn unol â rheoliad 26(3), rhaid i'r Corff GIG Cymru hysbysu'r person neu ei gynrychiolydd ac egluro'r rheswm pam, ac anfon yr ymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn **120 diwrnod gwaith** (gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd hysbysiad o'r pryder). Os na ellir cadw at y cyfnod o 120 diwrnod gwaith, rhaid i'r corff GIG Cymru roi gwybod i'r claf neu ei gynrychiolydd am y rhesymau dros yr oedi, a phryd y gellir disgwyl yr adroddiad interim rheoliad 26.

275. Mae rheoliad 26(5) hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod yn rhaid darparu adroddiad yr ymchwiliad y cyfeirir ato yn rheoliad 31 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn **120 diwrnod gwaith**. Y darpariaethau cyfatebol yn Rhan 7 yw rheoliadau 40 (adroddiad interim ac adroddiad yr ymchwiliad) a 48 (hysbysu ynghylch penderfyniad am wneud iawn).

276. Os na ellir cadw at y cyfnod o 120 diwrnod gwaith, rhaid i'r corff GIG Cymru roi gwybod i'r claf neu ei gynrychiolydd am y rhesymau dros yr oedi, a phryd y gellir disgwyl adroddiad yr ymchwiliad.

277. Mewn amgylchiadau lle mae atebolrwydd cymwys yn cael ei ymchwilio, cydnabyddir efallai na fydd yn bosibl darparu ymateb o fewn 30 diwrnod gwaith. Felly, mae'n arbennig o bwysig yn yr achosion hyn bod amserlenni yn cael eu

trafod gyda'r claf neu ei gynrychiolydd ar y dechrau, fel bod amser ymateb realistig yn cael ei gytuno a disgwyliadau yn cael eu rheoli.

278. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei ddarparu i'r claf neu ei gynrychiolydd ynghyd â'r adroddiad interim. Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r gofynion cynnwys ar gyfer yr adroddiad interim o dan reoliad 26 fel a ganlyn:

- crynodeb o natur a sylwedd y materion a gynhwysir yn y pryder;
- disgrifiad o'r ymchwiliad a gynhaliwyd hyd yn hyn;
- disgrifiad o pam ym marn y corff GIG Cymru mae atebolrwydd cymwys neu y gallai fod atebolrwydd cymwys;
- copi o unrhyw gofnodion meddygol perthnasol;
- esboniad o sut i gael mynediad at gyngor cyfreithiol am ddim;
- esboniad o wasanaethau eiriolaeth a chymorth a allai fod o gymorth;
- esboniad o'r broses ar gyfer ystyried atebolrwydd ac iawn;
- cadarnhad y bydd yr adroddiad llawn yr ymchwiliad ar gael i'r person sy'n ceisio iawn;
- manylion hawl y person i fynd â'i bryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- cynnig cyfle i drafod cynnwys yr adroddiad interim gyda'r swyddog cyfrifol neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran.

Rheoliad 31 (adroddiad yr ymchwiliad) a 33 (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad)

279. Mae ymateb o dan reoliad 31 yn cyfathrebu canlyniad yr ymchwiliad yn cynnwys tystiolaeth feddygol, a datganiad ynghylch a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli a pham y cyrhaeddwyd y penderfyniad hwnnw.

280. Mae ymateb o dan reoliad 33 yn cyfathrebu canlyniad terfynol y corff GIG Cymru, naill ai bod penderfyniad i wneud cynnig o iawn, neu, yn dilyn ymchwiliad pellach ar ôl yr ymateb interim, na fydd yn gwneud cynnig o iawn ar y sail nad oes atebolrwydd cymwys yn dilyn ymchwiliad.

281. Yn hytrach nag anfon adroddiad interim o dan reoliad 26 cyn adroddiad terfynol yr ymchwiliad o dan reoliad 31, mewn rhai achosion, efallai y bydd yn bosibl cadarnhau'r sefyllfa ynghylch achosiaeth, a graddau'r achosiaeth, ar unwaith a heb ymchwiliad pellach. Yn yr achosion hynny, bydd yn bosibl i'r corff GIG Cymru symud ymlaen ar unwaith i baratoi adroddiad yr ymchwiliad rheoliad 31 a phenderfyniad rheoliad 33, gan gadarnhau'r sefyllfa o ran atebolrwydd cymwys yn llwyr, ac o bosibl hefyd yn gwneud cynnig o iawn. Bydd rheoliad 26(7) ac (8) yn galluogi'r adroddiad interim i gael ei ddarparu ar yr un pryd ag adroddiad yr ymchwiliad ac yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas ag achosion o'r fath.

- 282.** Fel arall, fel y nodwyd uchod, gall y corff GIG Cymru anfon ymateb Rheoliad 33 ar ôl iddo gynnal ymchwiliadau pellach o dan Ran 6 ar ôl i'r ymateb Rheoliad 26 gael ei anfon.
- 283.** Yr amserlen ar gyfer anfon ymateb Rheoliad 33 yw **120 diwrnod gwaith** yn unol â Rheoliad 33(a). Os na ellir cadw at y cyfnod o 120 diwrnod gwaith, rhaid i'r corff GIG Cymru hysbysu'r person a hysbysodd y pryder am y rhesymau dros yr oedi, a phryd y cyflwynir ymateb y Rheoliad (Rheoliad 33(a)).
- 284.** Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi isod mewn perthynas â'r cynnig o iawn a'r amserlenni perthnasol.
- 285.** Mae Diwygiadau 2025 yn cyflwyno is-baragraff (fa) newydd i reoliad 3(1) (egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyfrifol hysbysu'r person a gododd y pryder am gynnydd yr ymchwiliad a'r amserlen debygol i'w gwblhau.
- 286.** Effaith yr is-baragraff newydd hwn yw rhoi mwy o bwyslais ar gyfathrebu cynnar a thryloyw am amserlenni disgwylidig. Pan fo'r corff cyfrifol yn hysbysu'r person am amserlen realistig a ragwelir ar gyfer cwblhau ymchwiliad rheoliad 23, dylai'r amserlen gyfathrebu honno fel arfer ddod yn darged gweithredol ar gyfer cyhoeddi'r ymateb dilynol o dan reoliadau 24, 26 ac, lle bo'n berthnasol, 31.
- 287.** Fodd bynnag, mae'r amserlen statudol bresennol o 30 diwrnod gwaith yn rheoliadau 24 a 26 yn parhau i fod ar waith fel diogelwch. Mae'n gweithredu fel sefyllfa ddiodyn (wrth gefn) lle nad oes amserlen amgen wedi'i chyfathrebu i'r person sy'n codi'r pryder.
- 288.** Yn unol â hynny, y bwriad polisi yw y dylai cyrff cyfrifol, ar gam cynnar, ddarparu dyddiad cwblhau disgwylidig clir a realistig wedi'i deilwra i amgylchiadau'r ymchwiliad. Mae hyn yn cefnogi nod polisi ehangach Gwranddo ar Bobl o sicrhau bod y broses bryderon yn dryloyw, yn canolbwyntio ar y person ac yn seiliedig ar ddisgwylidau clir. Pan fo amserlen o'r fath yn cael ei chyfathrebu, disgwylir i gyrff cyfrifol reoli'r ymchwiliad er mwyn bodloni'r amserlen honno, yn amodol ar y darpariaethau presennol sy'n caniatáu hysbysu ac esbonio pan fo oedi yn codi.

Proses gwneud iawn

- 289.** Unwaith y bydd wedi'i sefydlu y gall atebolrwydd cymwys fodoli neu mae'n bodoli, bydd y mater yn trosglwyddo o Ran 5 o'r Rheoliadau (Trin Pryder) i Ran 6 (iawn). Fel arfer ar y cam hwn bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i dîm gwneud iawn y corff GIG Cymru i'w drin.
- 290.** Ar ôl i'r tîm gwneud iawn dderbyn y mater, byddant yn cysylltu â'r claf neu ei gynrychiolydd i drafod camau nesaf y broses, a fydd yn cael eu hystyried fesul achos.

291. Bydd ymchwiliadau pellach ar y cam hwn yn canolbwyntio ar benderfynu a oes atebolrwydd cymwys (mewn amgylchiadau lle mae adroddiad interim Rheoliad 26 yn cyfaddef torri dyletswydd yn unig), graddau'r atebolrwydd cymwys a'r cwantwm. Gallant gynnwys:

- a) P'un a oes atebolrwydd cymwys a graddau'r atebolrwydd cymwys hwnnw, yn enwedig yr elfen achosiaeth.
- b) Asesiad cyfredol o gyflwr a phrognosis y claf.
- c) Cael Tystysgrif Budd-daliadau Adferadwy neu Dystysgrif Ffioedd y GIG (gweler isod).
- d) Meintioli'r hawliad, gan gynnwys colled ariannol.

292. Ar ôl i'r Tîm gwneud iawn wneud penderfyniad cychwynnol ar ba ymchwiliadau sy'n ofynnol, dylid darparu diweddariad i'r claf neu'r cynrychiolydd sy'n nodi'r rheini, ynghyd ag amserlenni tebygol i'w cwblhau.

293. Ar y pwynt y mae'r mater yn trosglwyddo i Ran 6, bydd gan y claf hawl i gyngor cyfreithiol annibynnol (gweler yr adran ar [Ddarparu cyngor cyfreithiol](#)). Dylid esbonio hyn i'r person a hysbysodd y pryder fel rhan o adroddiad interim rheoliad 26 ac wrth gyfathrebu penderfyniad o dan reoliad 33, ond os nad yw'r rhain wedi'u darparu eto, dylai'r tîm gwneud iawn gyfathrebu hyn.

294. Canlyniad arall o'r mater yn trosglwyddo i Ran 6 yw atal dros dro gyfnod y cyfyngiad mewn perthynas ag unrhyw hawliad. Os nad yw hyn wedi'i esbonio i'r claf, dylai'r tîm gwneud iawn gyfathrebu hyn.

295. Er mwyn ymchwilio a oes atebolrwydd cymwys, a all gynnwys ystyried a yw achosiaeth yn deillio o unrhyw dorri dyletswydd a nodwyd, neu raddau'r niwed a achosir lle nad yw hynny'n glir, a/neu gyflwr a phrognosis y claf, efallai y bydd angen cael mewnbwn gan arbenigwr meddygol-gyfreithiol annibynnol. Os oes angen tystiolaeth annibynnol, mae'r Prif Reoliadau (yn rheoliad 32(1)(b)) yn ei gwneud yn ofynnol bod hyn yn gyfarwyddyd ar y cyd ynghyd â'r person a hysbysodd y pryder. Felly, dylid cytuno ar y llythyr cyfarwyddyd at yr arbenigwr, ac unrhyw ohebiaeth bellach, rhwng y corff GIG Cymru a'r person a hysbysodd y pryder.

296. Unwaith y bydd y corff GIG Cymru wedi cwblhau ei ymchwiliad ynghylch atebolrwydd cymwys a chyflwr a phrognosis y claf wedi'u sefydlu a'r hawliad wedi'i feintioli, rhaid cyfathrebu eu penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud cynnig o iawn ai peidio o dan reoliad 33. Fel y nodwyd uchod, gall hyn naill ai ddod i'r casgliad:

- a) Nad oes unrhyw atebolrwydd cymwys ac felly ni fydd unrhyw gynnig o iawn yn cael ei wneud; neu
- b) Mae atebolrwydd cymwys ac felly bydd cynnig o iawn yn cael ei wneud (drwy ddigollediad ariannol neu ymrwymo i gontract i ddarparu gofal neu driniaeth neu'r ddau).

297. Rhaid anfon y cyfathrebiad rheoliad 33 o fewn 120 diwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbyswyd y pryder. Os na ellir cadw at y cyfnod o 120 diwrnod gwaith, rhaid i'r corff GIG Cymru hysbysu'r person a hysbysodd y pryder am y rhesymau dros yr oedi, a phryd y bydd y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu (rheoliad 33(a)).

298. Os ystyrir bod cynnig o ddigollediad ariannol yn briodol fel rhan o wneud iawn, bydd y corff GIG Cymru yn sicrhau bod awdurdodiad gan y person(au) dirprwyedig priodol o fewn y corff GIG Cymru wedi'i gael cyn gwneud unrhyw gynnig ariannol o iawn.

299. Fel y nodwyd uchod, gall gwneud iawn fod ar wahanol ffurfiau, a gall gynnwys un neu gyfuniad o'r canlynol, y dylid eu nodi yn yr ymateb Rheoliad 33:

- Cynnig digollediad ariannol (hyd at £50,000).
- Contract i ddarparu gofal neu driniaeth adferol (a gynigir i'r claf gyda'r bwriad o geisio gwella ei gyflwr a'i adfer, cyn belled ag y bo modd, i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi oni bai am dorri dyletswydd). Gall hyn fod drwy ofal a ddarperir yn lleol neu a gomisiynir i'w ddarparu gan ddarparwr arall ar draul y corff GIG Cymru.
- Ymddiheuriad ysgrifenedig.
- Esboniad o ddigwyddiadau.
- Adroddiad ar gamau sydd wedi'u cymryd, neu a fydd yn cael eu cymryd, i atal achosion tebyg rhag codi.

300. Rhan annatod o'r broses bryderon a gwneud iawn yw dysgu, fel yr amlinellir mewn manau eraill yn y Canllawiau hyn. Mae Cronfa Risg Cymru yn rheoli proses ar gyfer Dysgu o Ddigwyddiadau ar ran Llywodraeth Cymru. Lle bo'n bosibl, dylid nodi tystiolaeth o ddysgu, gyda'r nod o wella safonau mewn diogelwch cleifion, yn y cyfathrebiad rheoliad 33 fel rhan o'r iawn a gynigir.

301. Pan dderbynnir atebolrwydd cymwys, gall un o gyrrff GIG Cymru wneud cynnig o ddigollediad ariannol nad yw'n fwy na £50,000. Mae rhagor o wybodaeth am brisio pryderon wedi'i nodi isod. Dylai cyfathrebu Rheoliad 33 nodi'r sail y mae'r pryder wedi'i brisio arni.

302. Rhaid i'r person a hysbysodd y pryder neu ei gynrychiolydd cyfreithiol gael ei hysbysu bod ganddynt 6 mis i ymateb i'r cynnig o iawn. Os nad yw'r person neu ei gynrychiolydd, a gododd y pryder, yn gallu ymateb i'r penderfyniad o fewn 6 mis, rhaid iddynt gysylltu â'r corff GIG Cymru a rhoi esboniad am yr oedi wrth ymateb. Yna gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer ymateb i'r penderfyniad i 9 mis o'r dyddiad y gwnaed y cynnig. Fodd bynnag, os na dderbynnir ymateb o fewn 9 mis, bydd cyfnod y cyfyngiad yn dechrau rhedeg.

303. Cydnabyddir ei bod yn anodd ar ddechrau ymchwiliad o dan reoliad 23 i fod yn sicr am werth ariannol hawliad ac mae'n anochel bod rhai achosion a ymrwymodd i'r trefniadau gwneud iawn oherwydd yr ystyriwyd y byddai digollediad ariannol, pe bai atebolrwydd yn cael ei brofi, yn werth llai na £50,000, ond ei bod yn dod i'r amlwg, ar ôl ymchwiliad, eu bod yn werth mwy na hynny. Yn

yr achosion hyn, mae rheoliad 29(3) yn darparu y gall cyrff GIG Cymru roi ystyriaeth i wneud cynnig o setliad y tu allan i ddarpariaethau'r Prif Reoliadau, er enghraifft, setliad y tu allan i'r llys. Gallai cyrff GIG Cymru ar y cam hwn, ac yn ysbryd y Prif Reoliadau, ystyried cynnig talu costau cyfreithiol y claf sy'n gysylltiedig â chael cyngor ar unrhyw setliad y tu allan i'r llys o'r fath. Fodd bynnag, nid oes unrhyw rwymedigaeth iddynt wneud hynny.

- 304.** Os gwneir cynnig o iawn, bydd y setliad a gynigir gan y cynnig drwy gytundeb ffurfiol y mae'n rhaid iddo gynnwys ildiad unrhyw hawl i ddwyn achos sifil mewn perthynas â'r atebolrwydd cymwys y mae'r setliad yn ymwneud ag ef (rheoliad 33(e)).
- 305.** Pan fo'r person a hysbysodd y pryder yn anfodlon ar ganlyniad yr ymateb neu'r cynnig, rhaid iddo gael ei atgoffa o'i hawl i hysbysu'r pryder i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 306.** Er mwyn amddiffyn unigolion agored i niwed, bydd angen cymeradwyaeth llys ar rai setliadau o iawn. Mae'r achosion hyn lle mae'r atebolrwydd yn ymwneud â phlentyn o dan 18 oed neu berson sydd heb alluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005¹⁸(1). Mewn achosion o'r fath, bydd angen gwneud cais i'r llys, a phan fo angen cymeradwyaeth llys ar setliad o iawn, rhaid i'r corff GIG Cymru dalu'r holl gostau cyfreithiol rhesymol i gael cymeradwyaeth y llys.

Arbenigwyr annibynnol

- 307.** Fel y gwelir uchod, efallai y bydd nifer o faterion y gallai fod angen ymchwiliad pellach iddynt o dan Ran 6, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag achosiaeth, cyflwr a phrognosis a/neu gwantwm i sefydlu a oes atebolrwydd cymwys y dylid gwneud cynnig o iawn mewn perthynas ag ef. Er mwyn cwblhau'r ymchwiliadau hyn, efallai y bydd angen mewnbwn arbenigol annibynnol. O dan y trefniadau gwneud iawn, dylai unrhyw gyngor meddygol arbenigol a geisir o dan reoliad 32 gael ei gyfarwyddo ar y cyd gan y person a hysbysodd y pryder a'r corff GIG Cymru. Os yw'r person wedi derbyn y cynnig o gyngor cyfreithiol am ddim, yna dylid caniatáu i'w gynghorydd cyfreithiol hefyd gyfrannu at y cyfarwyddiadau i'r arbenigwr/arbenigwyr meddygol.

Darparu cyngor cyfreithiol

- 308.** Yn unol â rheoliad 32, pan fo'r trefniadau gwneud iawn yn cael eu defnyddio (h.y. pan fo'r Corff GIG Cymru wedi derbyn bod atebolrwydd cymwys neu y gallai fod atebolrwydd cymwys, ac nid o'r pwynt y ceir pryder), bydd cyngor cyfreithiol am ddim i'r person a hysbysodd y pryder ar gael, os yw'r person neu ei gynrychiolydd ei eisiau, mewn perthynas â:
- a) cyfarwyddo arbenigwyr clinigol ar y cyd gan gynnwys eglurhad o faterion sy'n codi o'u hadroddiadau;

¹⁸ [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)

- b) unrhyw gynnig o iawn a wneir yn unol â Rhan 6 o'r Prif Reoliadau;
- c) cynnig o iawn a wneir yn unol â Rhan 7 o'r Prif Reoliadau
- d) unrhyw wrthodiad i wneud cynnig; neu
- e) unrhyw gytundeb setlo a gynigir.

309. Dim ond gan gwmni o gyfreithwyr sydd ag arbenigedd cydnabyddedig mewn esgeuluster clinigol y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol (sy'n golygu bod rhaid iddynt gael o leiaf un partner neu gyflogai sy'n aelod o Banel Esgeuluster Clinigol Cymdeithas y Cyfreithwyr neu'r Panel Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (rheoliad 32(2)). Mae sefydliadau'r GIG yn gallu cael manylion cyswllt o wefannau'r sefydliadau hyn a'u rhannu â'r person a gododd y pryder. Rhaid i gost cyngor cyfreithiol a chlinigol o'r fath gael ei ariannu gan y corff GIG Cymru ac nid y person a gododd y pryder.

310. Ceir canllawiau i'r cyrff GIG Cymru ar gost ffioedd cyfreithiol mewn dogfen ar wahân.

Cyfyngiad - atal dros dro

311. Cyfyngiad yw'r terfyn amser cyfreithiol y mae'n rhaid cyflwyno hawliad. Mewn hawliadau lle honnir niwed (gan gynnwys y rhai o esgeuluster clinigol) mae gan Hawlydd fel arfer **dair blynedd** o ddyddiad y "sail achos", sydd bron bob amser yn ddyddiad yr anaf, neu eu gwybodaeth am yr un peth, i gyflwyno hawliad am ddigollediad (Deddf Cyfyngiadau 1980). Mae rhai eithriadau i'r rheol hon sy'n cynnwys:

- a) Plant o dan 18 oed ar adeg yr anaf – ni fydd y cyfnod o dair blynedd yn dechrau nes bod y plentyn yn cyrraedd 18 oed.
- b) Cleifion sydd heb alluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 – efallai na fydd y cyfnod o dair blynedd byth yn dechrau.

312. Mae rheoliad 30 yn llywodraethu'r sefyllfa ynghylch atal cyfnod y cyfyngiad dros dro yn rhinwedd y broses Gwrando ar Bobl. Unwaith y bydd pryder yn trosglwyddo i Ran 6 (iawn), h.y. pan fydd y corff GIG Cymru o'r farn bod atebolrwydd cymwys yn bodoli neu y gallai fodoli, mae'r Prif Reoliadau yn caniatáu atal y cyfnod cyfyngiad dros dro. Felly, nid yw cyfyngiad yn cael ei atal dros dro yn awtomatig pan fydd pryder yn cael ei godi. Yn ystod yr amser pan fo'r atebolrwydd yn destun cais am iawn, mae cyfnod y cyfyngiad yn cael ei atal dros dro, hynny yw, mae'r "cloc yn cael ei stopio". Os yw cyfnod y cyfyngiad yn cael ei atal dros dro o dan y broses gwneud iawn, mae'r cyfnod atal dros dro yn dechrau yn ôl-weithredol o'r dyddiad pan gafwyd y pryder gyntaf gan y corff GIG Cymru.

313. Pan fo cynnig o iawn drwy ddigollediad ariannol wedi'i wneud, mae cyfnod y cyfyngiad yn dechrau rhedeg eto:

- a) Y diwrnod ar ôl i'r claf neu ei gynrychiolydd dderbyn y cynnig o iawn hwnnw,
- b) Y dyddiad y mae'r claf neu ei gynrychiolydd yn gwrthod y cynnig o iawn hwnnw, neu
- c) 9 mis ar ôl gwneud y cynnig o iawn hwnnw (lle na dderbynnir ymateb)

314. Os yw cynnig o iawn wedi'i wneud ond mae angen cymeradwyaeth y Llys ar gyfer y setliad (mewn achosion o blant o dan 18 oed neu'r rhai sydd heb alluedd) yna mae cyfnod y cyfyngiad yn parhau i fod wedi'i atal nes bod y Llys yn cymeradwyo'r setliad.

315. Os bydd hawliad sifil yn cael ei gyflwyno wedyn, mae'r cyfnod atal dros dro cael ei ystyried wrth gyfrifo cyfnod y cyfyngiad sy'n weddill ac yn y pen draw pan fydd y cyfyngiad yn dod i ben.

316. Y rheswm dros yr atal dros dro yw sicrhau nad oes unrhyw berson dan anfantais, neu ei atal rhag dwyn achos cyfreithiol, os ydynt yn anfodlon ar ganlyniad yr ymchwiliad i wneud iawn. Mae'n bwysig bod y person neu ei gynrychiolydd yn deall, lle gwneir cynnig o iawn ariannol, mai dim ond 6 mis sydd ganddynt i ystyried y cynnig (neu gyfanswm o 9 mis os oes angen mwy o amser). Ar ôl y cyfnod 9 mis hwnnw, ni fydd y trefniadau gwneud iawn yn berthnasol mwyach.

317. Efallai y bydd achosion lle mae pryder yn cael ei hysbysu ychydig cyn i gyfnod y cyfyngiad ddod i ben ac nid yw wedi bod yn bosibl i ymchwiliad gael ei gwblhau. Efallai y bydd y corff GIG Cymru yn dymuno ystyried cytuno ar estyniad i gyfnod y cyfyngiad er mwyn caniatáu iddo gwblhau ei ymchwiliad a darparu ymateb wrth osgoi'r angen i'r claf/darpar Hawlydd gyhoeddi achos llys.

318. Mewn achosion lle nad yw'r achos yn trosglwyddo i Ran 6, naill ai oherwydd nad yw atebolrwydd cymwys wedi'i ymchwilio, neu oherwydd bod y corff GIG Cymru wedi dod i'r casgliad nad oes atebolrwydd cymwys ac wedi anfon ymateb rheoliad 24, nid yw'r cyfyngiad yn cael ei atal dros yn rhinwedd y Prif Reoliadau. Unwaith eto, efallai y bydd y corff GIG Cymru yn dymuno ystyried cytuno ar estyniad i gyfnod y cyfyngiad gyda'r claf neu ei gynrychiolydd.

Cwantwm

Iawndal cyffredinol

319. Bwriad iawndal cyffredinol yw digolledu'r claf mewn perthynas â phoen, dioddefaint a cholli amwynder o ganlyniad i unrhyw anaf corfforol neu anaf seiciatrig cydnabyddedig a achosir, a fyddai wedi ei osgoi fel arall. Felly, mae angen i'r corff GIG Cymru sefydlu graddau unrhyw anaf a pha symptomau a

chollod amwynder y mae'r claf wedi'u dioddef o ganlyniad i'r torri dyletswydd, ar wahân i'r hyn a fyddai wedi cael ei ddioddef beth bynnag.

- 320.** Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio lefel cynnig priodol i ddiogolledu'r claf am unrhyw symptomau, colled amwynder, a thriniaeth ychwanegol. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r anaf neu'r niwed, yr uchaf yw'r dyfarniad o ddiogollediad.
- 321.** Er mwyn cyfrifo'r swm priodol, gall cyrff GIG Cymru gyfeirio at Ganllawiau'r Coleg Barnwrol yn y lle cyntaf, gan fod hyn yn darparu *ystod* o iawndal i'w ddyfarnu, fesul math o anaf. Mae Canllawiau'r Coleg Barnwrol yn ystyried:
1. Hyd yr anaf, gan gynnwys a yw'r adferiad wedi bod yn hir neu a ddisgwylir i'r anaf fod yn barhaol.
 2. Yr angen am driniaeth ychwanegol, a allai fod wedi'i hosgoi (yn y gorffennol neu'r dyfodol).
 3. Y risg o gymhlethdodau yn y dyfodol.
- 322.** Nid yw pob anaf sy'n deillio o esgeuluster clinigol clinigol yn 'ffitio' i gategori o fewn Canllawiau'r Coleg Barnwrol a gall cyfeirio at adroddiadau cyfraith achos cwantwm fod yn ddefnyddiol. Mae'r rhain yn ddyfarniadau a adroddwyd neu setliadau y tu allan i'r llys sydd wedi'u cyrraedd mewn achosion go iawn a gallant helpu i gyrraedd ffigur priodol.
- 323.** Mae anafiadau seiciatrig yn aml yn cyd-fynd ag anaf corfforol. Er mwyn cael hawl i ddiogollediad, rhaid i glaf fod wedi dioddef anaf seiciatrig cydnabyddedig, a fyddai fel arfer yn cael ei ddangos gan ddiagnosis ffurfiol. Efallai y bydd angen mewnbwn gan arbenigwr annibynnol i asesu'r claf oni bai bod tystiolaeth o hyn yn y cofnodion meddygol.
- 324.** Mae'n bwysig nodi, pan fo claf wedi dioddef mwy nag un anaf gwahanol, boed hynny'n anaf corfforol neu seiciatrig neu'r ddau, fel arfer nid yw'n briodol adio'r gwerthoedd ar wahân ar gyfer pob anaf unigol, gan y bydd rhywfaint o orgyffwrdd.

Iawndal arbennig

- 325.** Mae'r term 'iawndal arbennig' yn cwmpasu ystod o benawdau colled (mathau o hawliad ariannol) y gellir eu hawlio lle mae'r claf wedi dioddef colledion ariannol o ganlyniad i'r esgeuluster. Mae colledion fel arfer yn cael eu rhannu'n golledion yn y gorffennol a'r dyfodol fel y nodir isod.
- 326.** Os yw claf yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, yn aml bydd manylion unrhyw hawliadau iawndal arbennig yn cael eu nodi mewn 'Rhestr Golledion', wedi ei hategu gan y dystiolaeth angenrheidiol. Dylid ystyried gofyn am ddadansoddiad o'r fath os yw'n debygol y bydd iawndal arbennig sylweddol.
- 327.** Bydd y penawdau colledion y gellir eu hadennill yn amrywio yn ôl achos, yn dibynnu ar yr atebolrwydd cymwys sydd wedi'i dderbyn gan y corff GIG Cymru ac

amgylchiadau unigol y claf. Isod mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r mathau o iawndal arbennig sy'n cael eu hawlio'n aml:

1. Gellir hawlio **colli enillion** os na allai'r person wedi'i anafu weithio o ganlyniad i'r torri dyletswydd (neu gymryd mwy o amser i ffwrdd nag y byddai fel arall heb dâl). Gall hyn gynnwys hawliad am daliadau bonws a gollwyd, cyfleoedd dyrchafiad a gollwyd neu hyd yn oed hawliad am golli pensiwn.
2. Mae **gofal a chymorth** yn cyfeirio at swm a hawliwyd gan aelod o'r teulu neu weithiwr proffesiynol a allai fod wedi cynorthwyo â thasgau cartref neu ofalu am y claf pan oedd yn gwella o'i anaf. Gallai'r golled hon barhau i'r dyfodol os oes angen cymorth hirdymor ar y claf o ganlyniad i'w anaf.
3. Yn yr un modd, cymorth ychwanegol â **glanhau, garddio neu wella'r cartref** a achosir o ganlyniad i analluogrwydd y claf oherwydd yr esgeuluster a gyfaddefwyd.
4. **Teithio** a oedd ond yn angenrheidiol oherwydd yr esgeuluster, gan gynnwys cost tanwydd, parcio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Gall hyn hefyd gael ei hawlio gan aelodau o'r teulu a oedd yn gorfod teithio i gynorthwyo'r claf.
5. Gellir hawlio **costau triniaeth** (boed yn y gorffennol neu'r dyfodol) ar sail breifat, os oedd/yw'r driniaeth yn ofynnol o ganlyniad uniongyrchol i'r esgeuluster.
6. Gall hawliadau **cymhorthion ac offer** gynnwys matresi arbenigol, cadeiriau, cymhorthion symudedd ac unrhyw eitemau eraill a fyddai'n gwella cyflwr y claf yn dilyn anaf.
7. Yn aml, hawli'r am wyliau coll, neu dreuliau **amrywiol** eraill, fel triniaethau dros y cownter. Dylid ystyried y rhain fesul achos.
8. **Costau angladd** os bu farw'r claf o ganlyniad uniongyrchol i'r esgeuluster.

328. Dylai cyrff GIG Cymru geisio tystiolaeth o'r colledion, a all gynnwys derbynebaw am unrhyw dreuliau blaenorol neu ddyfynbrisiau ar gyfer treuliau yn y dyfodol, neu slipiau cyflog cyn ac yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer unrhyw golli enillion. Fodd bynnag, efallai na fydd bob amser yn bosibl darparu tystiolaeth (derbynebaw am danwydd, er enghraifft) a dylid cymryd dull pragmatig yn enwedig pan fo'r symiau a hawli'r yn isel.

Cwantwm mewn achosion angheuol

329. Gellir dwyn hawliadau penodol yn yr achosion hyn, hawliadau ar ran yr Ystad o dan ***Ddeddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) 1934*** a hawliadau gan ddibynyddion o dan ***Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976***. I gael rhagor o wybodaeth, dylai cyrff GIG Cymru gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Uned Adfer Digollediad

330. Os yw cynnig ariannol o setliad i'w wneud, rhaid cofrestru'r mater gyda'r Uned Adfer Digollediad ('CRU'), drwy Ffurflen CRU1, i benderfynu a fydd y corff GIG Cymru yn atebol am unrhyw fudd-daliadau a delir i'r claf. Bydd Tystysgrif Budd-daliadau Adenilladwy yn cael ei derbyn, sy'n dangos naill ai Dim budd-daliadau,

neu'n rhestru'r budd-daliadau priodoledig sydd i'w had-dalu. Os yw budd-daliadau i'w had-dalu i'r CRU, mae'n bwysig ystyried, cyn gwneud unrhyw gynnig, a ellir eu gwrthbwysu yn erbyn unrhyw hawliad am iawndal arbennig. Hefyd, a yw'r budd-daliadau wedi'u priodoli'n gywir. Os na, dylai'r corff GIG Cymru wneud cais am adolygiad neu ailystyriaeth orfodol o'r dystysgrif (nodwch fod terfynau amser yn berthnasol i'r prosesau hyn).

Ffioedd y GIG

331. Ar ôl cofrestru'r mater gyda'r CRU, dylai'r corff GIG Cymru hefyd gwblhau'r adran sy'n ymwneud ag ysbytai'r GIG y mae'r claf wedi mynd iddynt o ganlyniad i'r torri dyletswydd. Os priodolir Ffioedd y GIG, bydd Tystysgrif Ffioedd y GIG yn cael ei chyhoeddi. Mae'r ffioedd hyn yn daladwy gan y corff GIG Cymru yn ychwanegol at yr iawndal, oni bai eu bod yn cael eu hadolygu neu eu herio'n llwyddiannus mewn amgylchiadau lle maent wedi'u priodoli'n anghywir, e.e. oherwydd y byddai'r driniaeth ysbyty wedi bod yn angenrheidiol beth bynnag neu oherwydd y byddai'r digolledwr wedi ei darparu.

Atodiad i'r Adran Gwneud Iawn

Atebolrwydd Cymwys – esboniad

332. Dim ond os oes atebolrwydd cymwys profedig mewn camwedd y gellir ystyried gwneud iawn. Mae atebolrwydd cymwys yn cael ei ystyried gan gyfeirio at brawf tri cham.

1. Bod gan y Corff GIG Cymru ddyletswydd gofal i'r claf
2. Bod torri'r ddyletswydd honno wedi digwydd
3. Bod torri'r ddyletswydd wedi achosi anaf personol neu golled

333. Mewn amgylchiadau lle mae atebolrwydd cymwys wedi'i sefydlu (h.y., pan fo torri dyletswydd gofal a achosodd anaf personol neu golled), mae gan y claf hawl i ddigollediad i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng (i) y cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe bai safon y driniaeth a gafodd wedi bod o safon dderbyniol a (ii) ei gyflwr gwirioneddol.

334. Dim ond pan fydd y profion hyn yn cael eu bodloni y dylid ystyried taliad digollediad. Dylid gwneud hyn yn glir iawn i gleifion a'u cynrychiolwyr gan fod pobl yn aml yn credu mai dim ond gofal gwael sydd ei angen er mwyn bodloni'r prawf esgeuluster ac er mwyn bod hawl i ddiogollediad. Fodd bynnag, mae'n wir bod angen i'r person hefyd fod wedi dioddef niwed o ganlyniad (a elwir yn “achosiaeth niwed”). Gall pennu achosiaeth fod yn anodd iawn, yn enwedig os oedd y claf yn sâl iawn beth bynnag, neu efallai ei fod wedi disgwyl rhywfaint o boen neu gymhlethdodau yn ystod ei gyfnod adferiad o ganlyniad i driniaeth.

Dyletswydd Gofal

335. Mewn hawliad esgeuluster clinigol, mae dyletswydd gofal fel arfer yn cael ei sefydlu bob amser.

Safon Gofal: Torri Dyletswydd

336. Mae prawf cyfreithiol i benderfynu a yw clinigydd wedi bod yn esgeulus ai peidio. Gelwir hyn yn “Brawf Bolam” ac mae'n deillio o achos adnabyddus ***Bolam v Friern Hospital Management Committee [1957]***. Cafodd cwmpas y prawf ei gyfyngu wedi hynny yn dilyn achos diweddarach ***Bolitho v City & Hackney Health Authority [1998]***.

337. Y Prawf Cyfreithiol:

Mae clinigydd wedi bod yn esgeulus os nad yw wedi dilyn arfer a ystyriwyd yn dderbyniol gan gorff cyfrifol o farn feddygol. Nid oes angen i'r corff cyfrifol hwnnw fod yn gorff mwyafrifol. Rhaid i'r clinigydd wedyn weithredu yn unol â'r arfer i safon i'w disgwyl gan glinigydd rhesymol gymwys. Os yw'r clinigydd yn

credu ei fod yn arbennig o gymwys mewn unrhyw faes penodol, yna'r safon yw arbenigwr rhesymol gymwys.

- 338.** Felly, mae'n amddiffyniad i honiad o esgeuluster os gall y Corff GIG Cymru brofi y byddai corff rhesymol a chyfrifol o ymarferwyr ag enw da yn y maes perthnasol wedi cynnal yr ymchwiliadau a'r driniaeth yn yr un modd â'r clinigydd.
- 339.** Mae'r safon a nodir yn Bolam yn un wrthrychol ac felly mae'n bwysig cofio bod safon y gofal wedi'i theilwra i'r dasg a wneir ac nid lefel profiad y clinigydd unigol.
- 340.** Mae'r prawf Bolitho yn egluro bod rhaid i farn a ddelir gan gorff cyfrifol fod allu gwrthsefyll dadansoddiad rhesymegol.
- 341.** Ers hynny, mae **Montgomery v Lanarkshire Health Board [2015]** wedi addasu'r prawf ar gyfer torri dyletswydd mewn perthynas ag achosion sy'n ymwneud â chydsyniad ac mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach isod. Gelwir hyn yn aml yn brawf Montgomery.

Ymchwilio i Dorri Dyletswydd

342. Bydd cwmplas yr ymchwiliad yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o achos/honiadau. Fodd bynnag, mae sawl cam i'w cymryd wrth ymchwilio:

- Nodi'r methiannau honedig yn y gofal/driniaeth;
- Nodi a chael gafael ar ddogfennaeth berthnasol (e.e. cofnodion meddygol, radioleg, polisïau, unrhyw ddogfennaeth digwyddiadau)
- Nodi pwy oedd yn rhan o'r gofal/driniaeth;
- Gofyn am gyfrif ffeithiol gan y clinigydd/clinigwyr sy'n ymwneud â'r gofal/driniaeth a'u sylwadau ar y pryderon penodol a godwyd a'r honiadau o esgeuluster;
- Gofyn am drosolwg gan yr Arweinydd Clinigol (os yw'n briodol);
- Lle bo angen, cael tystiolaeth arbenigol annibynnol ar dorri dyletswydd.
- Wrth gael y cyfrifon ffeithiol gan glinigydd mae'n bwysig ystyried safon y gofal ar adeg yr esgeuluster honedig (h.y. nid y safon gyfredol), a yw ei gyfrif ffeithiol yn ddigon manwl, a yw'n cael ei ategu gan y cofnodion meddygol ac a oes angen mewnbwn ychwanegol gan glinigwyr eraill.

Safon a Baich Profi

Y safon profi mewn achosion o esgeuluster meddygol yw "yn ôl pwysau tebygolrwydd" (h.y. 51% yn debygol). Baich yr Hawlydd yw profi, 'yn ôl pwysau tebygolrwydd' bod gofal y Diffynnydd wedi disgyn islaw'r safon resymol a derbynol.

Achosiaeth

343. Os na chafodd y claf anaf o ganlyniad i'r torri dyletswydd, nid oes atebolrwydd cymwys. Rhaid bod cyswllt achosol rhwng y torri dyletswydd a'r niwed y cwynwyd amdano gan y claf. Ymchwiliad esboniadol yw hwn yn y bôn: sut, mewn gwirionedd, y digwyddodd y niwed? Mae'r cwestiwn fel arfer yn cael ei drin gan y prawf "heblaw am". Y rheol gyffredinol yw, os na fyddai'r niwed i'r claf wedi digwydd "heblaw am" yr esgeuluster, yna yr esgeuluster yw achos y niwed. Pe bai'r niwed wedi digwydd beth bynnag, nid yr esgeuluster yw achos y niwed. Mae hwn yn esboniad byr a sylfaenol o rai o'r prif gyfraith achosion yn y maes hwn ac ni ddylid dibynnu arno fel cyfrif cyflawn o'r gyfraith nac yn lle cyngor cyfreithiol. Gellir gofyn am gyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

Prawf Achosiaeth Amgen - Cyfraniad Perthnasol

344. Lle nad yw'n bosibl dod i gasgliad ynghylch y tebygolrwydd na fyddai'r anaf wedi digwydd oni bai am y torri dyletswydd, gellir ystyried cyfraniad perthnasol mewn rhai amgylchiadau.

345. Sefydlodd achos ***Bailey v Ministry of Defence [2008]*** mewn rhai amgylchiadau, lle na all gwyddor feddygol sefydlu'r tebygolrwydd na fyddai'r anaf wedi digwydd "heblaw am" weithred o esgeuluster, ond ei bod yn bosibl sefydlu bod cyfraniad yr achos esgeulus yn fwy na dibwys, mae'r prawf "heblaw am" yn cael ei addasu. Mae hyn yn codi mewn amgylchiadau lle mae mwy nag un achos posibl yr anaf, esgeulus a heb fod yn esgeulus, a all godi gyda'i gilydd. Yn yr achosion hynny, os gall y claf sefydlu bod y torri dyletswydd wedi gwneud mwy na gwahaniaeth dibwys i ganlyniad y claf, bydd yr hawliad yn llwyddo.

346. Nid yw bob amser yn hawdd asesu cyfraniad perthnasol, ac efallai y bydd angen gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

Ymchwilio i Achosiaeth

347. Bydd angen sefydlu sut mae'r torri dyletswydd wedi effeithio ar y claf. Ymhlith y cwestiynau allweddol i'w gofyn mae:

- Achosiaeth ffeithiol - a yw'r golled y mae'r hawlydd yn ceisio iawndal amdani yn ganlyniad i weithred neu hepgoriad y diffynnydd? Pa gyfres o ddigwyddiadau fyddai wedi digwydd pe na bai'r torri dyletswydd wedi digwydd? Mae hyn er mwyn cael dealltwriaeth ffeithiol o'r camau a'r amserlen a fyddai wedi digwydd heblaw am y torri dyletswydd.
- Achosiaeth meddygol/anafiadau - yn ôl pwysau tebygolrwydd, pa wahaniaeth a achosodd y torri dyletswydd yn feddygol i'r claf? Dylid ymchwilio i hyn drwy ofyn am sylwadau mewnol gan y clinigwyr perthnasol ac, mewn rhai achosion, byddai angen cyfarwyddo arbenigwr annibynnol ar y cyd â'r achwynydd.

Dylai Cyrff GIG Cymru ystyried nid yn unig y canlyniadau tymor hwy, ond hefyd yr effaith tymor byr ar y claf. Er enghraifft, mewn pryder sy'n ymwneud ag oedi wrth roi diagnosis o dorasgwrn, er efallai na fu unrhyw effaith ar y driniaeth a'r prognosis i'r claf, gellir sefydlu achosiaeth am gyfnod byr o boen neu symptomau diangen.

Pryderon sy'n ymwneud â chydysyniad

348. Gellir codi pryderon mewn perthynas â'r broses gydsynio. Mae'r prawf cyfreithiol o dorri dyletswydd a gymhwysir i honiadau a wnaed mewn perthynas â chydysyniad wedi'i nodi yn achos *Montgomery*.

Torri Dyletswydd (cydsyniad)

349. Yr achos allweddol yn y maes hwn yw *Montgomery v Lanarkshire Health Board [2015]* UKSC 11.

350. Penderfynwyd, er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gydsynio yn cael ei chwblhau'n gywir, bod dyletswydd ar glinigydd i gymryd gofal rhesymol i sicrhau bod claf yn ymwybodol o unrhyw risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag unrhyw driniaeth a argymhellir ac o unrhyw driniaethau amgen neu amrywiadol rhesymol, gan gynnwys dim triniaeth o gwbl.

351. O ran triniaethau amgen, nid yw rhwymedigaeth y clinigydd yn ymestyn i gyfathrebu'r holl driniaethau amgen posibl, ond yn hytrach dim ond y rhai y mae'r clinigydd yn eu hystyried yn rhesymol. Wrth farnu beth sy'n rhesymol, dylid defnyddio egwyddorion y prawf Bolam. (*McCulloch v Forth Valley Health Board [2023]* UKSC 26).

Risg Berthnasol

352. Mae'r prawf perthnasedd yn seiliedig ar a fyddai person rhesymol yn amgylchiadau'r claf hwnnw yn debygol o briodoli arwyddocâd i'r risg, neu a yw'r clinigydd yn ymwybodol, neu a ddylai'n rhesymol fod yn ymwybodol, y byddai'r claf penodol hwnnw'n debygol o briodoli arwyddocâd i'r risg.

353. Nid yw'r Llysoedd wedi gosod ffigur canrannol ar yr hyn a fyddai'n pennu'r asesiad ynghylch a yw risg yn berthnasol ai peidio. Mae'n bwysig bod clinigwyr yn trafod gyda'u cleifion i benderfynu beth sy'n debygol o gael ei ystyried fel risg berthnasol iddynt yn eu hachos unigol. Y nod yw sicrhau bod y claf yn deall difrifoldeb ei gyflwr, a manteision a risgiau disgwylid y driniaeth arfaethedig ac unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol, fel bod y claf wedyn mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus (paragraff 90 o ddyfarniad *Montgomery*).

354. Felly, rhaid asesu torri dyletswydd mewn perthynas â chydysyniad ar egwyddor Montgomery, yn hytrach na'r prawf a nodir yn Bolam. A yw clinigydd wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y claf yn ymwybodol o unrhyw risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig ag unrhyw driniaeth a argymhellir ac o unrhyw driniaethau amgen neu amrywiadol rhesymol, gan gynnwys dim triniaeth o gwbl? Os mai na yw'r ateb, bydd torri dyletswydd yn cael ei sefydlu.

Achosiaeth (cydsyniad)

355. Pan sefydlir torri dyletswydd, mae'r cyfrifoldeb wedyn ar y claf/achwynydd i brofi y byddent, yn ôl pwysau tebygolrwydd, wedi gwneud penderfyniad gwahanol a fyddai wedi osgoi neu newid yr anaf mewn ffordd berthnasol. Er enghraifft, yn Montgomery, profodd y claf y byddai wedi dewis toriad Cesaraidd pe bai wedi cael ei gwneud yn ymwybodol o'r risgiau dystocia ysgwydd a chael yr opsiwn. Efallai y bydd angen gofyn am ddatganiad gan y claf/achwynydd.

356. Mae'n bwysig adolygu cofnodion y claf yn fanwl i gynorthwyo'r corff GIG Cymru i benderfynu a ellir sefydlu achosiaeth. Os yw claf wedi bod yn dioddef o symptomau parhaus ac wedi disbyddu'r holl driniaethau eraill sydd ar gael iddo, pa mor debygol yw y byddai wedi bwrw ymlaen â'r driniaeth dan sylw hyd yn oed pe bai cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i ddarparu?

357. Os bydd angen canllawiau pellach mewn perthynas â'r profion cyfreithiol ar gyfer atebolrwydd cymwys, dylid gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

Gwneud iawn pan ddarperir gofal gan ddarparwyr GIG Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

358. Mae Rhan 7 o'r Prif Reoliadau yn creu'r broses y dylai cyrff GIG Cymru ei dilyn pan fo pryder yn cael ei godi am ofal a ddarperir y tu allan i Gymru o dan drefniadau a gomisiynwyd—yn benodol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'n integreiddio egwyddorion tegwch, dyletswyddau statudol, camau ymarferol, trefniadau diogelu cytundebol, a gofynion dysgu/sicrwydd.

359. Pan wneir trefniadau comisiynu gyda Gogledd Iwerddon, yr Alban, Lloegr, darparwyr preifat, byddai'n arfer da cynnwys cyfrifoldeb i fodloni gofynion y Prif Reoliadau yn y trefniadau cytundebol.

Egwyddor Graidd Tegwch

360. Pan fo un o gyrff GIG Cymru yn comisiynu gwasanaethau gan ddarparwr GIG Lloegr ar gyfer trigolion Cymru, mae proses cwynion, digwyddiadau ac iawn Cymru yn berthnasol fel pe bai'r gofal wedi'i ddarparu yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau cydraddoldeb mynediad at iawn a chysondeb ar draws ffin Cymru a Lloegr. Mae Rhan 7 o'r Rheoliadau yn darparu'r mecanwaith ar gyfer

hysbysiadau, ymchwilio ac iawn trawsffiniol.

Y Cyd-destun Cyfreithiol Ledled y DU

361. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu fframwaith cyfraith gyffredin y gyfraith gamweddau sy'n cyd-fynd ar y cyfan. O dan Ran 7, pan fydd un o gyrff GIG Lloegr sy'n rheoli gofal o dan drefniadau gydag un o gyrff GIG Cymru yn derbyn pryder sy'n honni niwed, rhaid iddo ystyried a all atebolwydd cymwys mewn camwedd (QLIT) fodoli a hysbysu'r corff GIG Cymru gyda chofnodion, barn arbenigol a'i resymeg.

A dylai ddarparu'r canlynol:

- copi o'r ymateb i unrhyw bryder a ddarperir yn unol â gweithdrefn gwyno berthnasol
- copi o unrhyw gofnodion meddygol perthnasol;
- copi o unrhyw farn arbenigol a gafwyd yn ystod ymchwiliad i bryder;
- adroddiad ysgrifenedig o pam ei fod yn credu bod atebolwydd cymwys neu y gallai fod atebolwydd cymwys;
- y dyddiad y cafodd y pryder; ac
- unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y gallai'r corff GIG Cymru fod eu hangen yn rhesymol.

362. Yna mae cyrff GIG Cymru yn penderfynu a oes Atebolwydd Cymwys mewn Camwedd (QLIT) yn bodoli ac a ddylid gwneud cynnig o iawn (gweler y broses penderfynu iawn).

363. Disgwylir cydweithio â NHS Resolution a'r darparwr yn Lloegr i sefydlu ffeithiau ac, lle bo'n briodol, cytuno ar iawn.

Atebolwydd cymwys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon

364. Oherwydd y gwahaniaeth ym mhwerau cyfreithiol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Prif Reoliadau (fel y'u diwygiwyd) yn gosod dyletswyddau statudol uniongyrchol ar gyrff y GIG yn yr Alban na Gogledd Iwerddon i ystyried a oes atebolwydd cymwys mewn camwedd mewn perthynas â gwasanaethau y maent wedi'u darparu o dan drefniadau gydag un o gyrff GIG Cymru.

365. Yn unol â hynny, pan fo un o gyrff GIG Cymru yn ymrwmo i drefniadau comisiynu gyda chorff GIG yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion Cymru, rhaid i'r corff GIG Cymru sicrhau bod y contract comisiynu yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff GIG yr Alban neu'r corff GIG Gogledd Iwerddon:

- Ystyried, pan fydd yn derbyn pryder yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau hynny a'i drin o dan ei weithdrefn gwyno leol, a oes neu a allai fod atebolwydd cymwys;

- ac os yw'n barnu bod atebolrwydd cymwys o'r fath yn bodoli neu y gallai fodoli, hysbysu'r mater a'i gyfeirio at gorff comisiynu GIG Cymru i ymdrin ag ef yn unol â rheoliad 38 a gweddill Rhan 7 o'r prif reoliadau.

366. Rhaid i'r contract comisiynu hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon ddarparu'r un wybodaeth i gorff GIG Cymru y byddai'n ofynnol i gorff GIG Lloegr ei darparu o dan reoliad 36 o'r Prif Reoliadau.

367. Yng sgil y gwahaniaethau rhwng systemau cyfreithiol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae trefniadau polisi yn darparu y bydd unrhyw gais llwyddiannus am iawn sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynwyd gan gorff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn cael ei ariannu gan y corff GIG Cymru sy'n comisiynu. Mae hyn yn cynnwys talu digollediad a chostau cyfreithiol cysylltiedig. Felly, bydd unrhyw ildiad a lofnodwyd gan y person o dan reoliad 48(e) yn ymwneud ag atebolrwydd y corff GIG Cymru.

Camau sy'n ofynnol o dan Reoliad 38 (fel y'i diwygiwyd)

368. Mae rheoliad 38 yn rhagnodi'r camau y mae'n rhaid i un o gyrff GIG Cymru eu cymryd pan fydd yn derbyn hysbysiad gan un o gyrff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon bod atebolrwydd cymwys, neu y gallai fod atebolrwydd cymwys, mewn camwedd mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd.

369. Ar ôl derbyn hysbysiad o'r fath, rhaid i'r corff GIG Cymru gydnabod derbyn yr hysbysiad o fewn pum diwrnod gwaith; ac o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn, hysbysu'r person a gododd y pryder bod y mater wedi'i drosglwyddo i'r corff GIG Cymru i ystyried a oes atebolrwydd cymwys yn bodoli. O'r pwynt hwnnw ymlaen, rhaid i'r corff GIG Cymru fwrw ymlaen yn unol â darpariaethau perthnasol Rhan 7 o'r Prif Reoliadau (fel y'u diwygiwyd).

370. Mae'r camau gweithdrefnol sy'n berthnasol i ymchwiliadau sy'n ymwneud â chyrrff GIG Lloegr yn berthnasol yn fras yn yr un modd, yn amodol ar addasiadau angenrheidiol i gyfeiriadau. Fodd bynnag, nid yw'r mecanweithiau cydweithredu rheoliadol sy'n berthnasol rhwng cyrrff GIG Cymru a Lloegr yn berthnasol mewn perthynas â chyrrff GIG yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Camau gweithredu pan godir Pryder Trawsffiniol

371. Cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith a chofnodi'r pryder mewn systemau lleol.

Cadarnhau'r awdurdodaeth a'r llwybr comisiynu (Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon).

372. Ceisio cydsyniad a gofyn am gofnodion/allbynnau ymchwilio gan y darparwr; ar gyfer darparwyr yn Lloegr, gofynnwch am eu hasesiad o QLIT posibl.

- 373.** Ymgysylltu'n gynnar ag NHS Resolution ar gyfer achosion yn Lloegr lle honnir niwed a gallai QLIT fodoli. Sicrhau trafodaethau gweithredol gyda thimau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru drwy gydol y broses hon.
- 374.** Ymchwilio yn unol ag egwyddorion Rheoliad 23: cymesur, amserol, tryloyw; cynnwys y person sy'n codi'r pryder.
- 375.** Asesu a oes QLIT ai peidio ac a ddylid cynnig gwneud iawn ai peidio.
- 376.** Cyhoeddi adroddiadau interim/ymchwilio o fewn amserlenni cymwys a chyfathrebu canlyniadau'n glir.
- 377.** Mae rheoliad 40(2) yn darparu bod yr amserlen arferol ar gyfer adroddiad interim o dan Ran 7 o fewn 50 diwrnod gwaith yn dechrau â'r diwrnod y cafwyd hysbysiad o bryder, ac os nad yw hynny'n bosibl o fewn 120 diwrnod gwaith, ac mae rheoliad 40(5) yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad yr ymchwiliad gael ei ddarparu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a heb fod yn hwyrach na 120 diwrnod gwaith.
- 378.** Gweithredu camau dysgu, monitro a chau gyda sicrwydd.
- 379.** Cynnal adolygiadau ôl-achos; rhannu dysgu â byrddau clinigol a thimau comisiynu; cynnwys metrigau trawsffiniol yn yr adroddiad blynyddol (Rheoliad 51) a sicrhau goruchwyliaeth gan y person a ddynodwyd o dan Rheoliad 6.

Cyfathrebu Canlyniadau Ymchwiliadau a Phenderfyniadau Gwneud iawn

- 380.** Wrth gyfathrebu canlyniad ymchwiliad neu benderfyniad ar Wneud iawn, rhaid i'r person sy'n ei dderbyn deimlo ei fod yn cael ei glywed, ei barchu a'i gefnogi, tra'n gadael gyda dealltwriaeth glir o'r hyn a benderfynwyd, pam y penderfynwyd hynny, a beth sy'n digwydd nesaf. Dylid cynnal y cynnig gweithredol o eiriolaeth drwy gydol y broses gyfan a chyfeirio i wasanaethau cymorth a allai fod o gymorth i'r person sy'n hysbysu'r pryder, yn enwedig pan fo trallod yn amlwg.
- 381.** Mae cyflawni'r cydbwysedd hwn yn gofyn am dri pheth sy'n gweithio gyda'i gilydd:
- Tôn dosturiol a defnydd o iaith glir
 - cadw at y Prif Reoliadau, a
 - cysoni â disgwyliadau'r Ombwdsmon ar gyfer tegwch, rhymedi, a chyfathrebu hygyrch

Cyfathrebu Canlyniad Ymchwiliadau i Bryderon

- 382.** Dechreuwch drwy gydnabod profiad y person a'r ymdrech a gymerodd i godi ei bryder. Mae hwn yn ddisgwyliad rheoliadol o dan reoliad 3(1)(d) ac (e), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pobl sy'n codi pryderon yn cael eu trin â pharch a chwarteisi a bod eu disgwyliadau yn cael eu sefydlu.
- 383.** Nodwch, yn eu termau eu hunain, yr hyn a ddywedasant wrthy ch a'r hyn oedd bwysicaf iddynt. Mae hyn yn dangos eich bod wedi gwrandao a deall, sy'n hanfodol ar gyfer ymddiriedaeth ac sy'n cyd-fynd â safonau gwasanaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cyfathrebu parchus.
- 384.** Nesaf, esboniwch yr hyn wnaethoch chi. Disgrifiwch gwmpas eich adolygiad mewn iaith glir, bob dydd: pa gofnodion wnaethoch chi eu hadolygu, gyda phwy wnaethoch chi siarad, a pha safonau a gymhwyswyd gennych. Osgowch ymadroddion amddiffynnol neu jargon cyfreithiol.
- 385.** Mae rheoliad 3(1) (ga) yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfathrebu yn cael ei ddarparu mewn modd y gall y person ei ddeall, gydag esboniadau o dermau cyfreithiol neu feddygol lle bo angen. Mae canllawiau Cymdeithas y Cyfreithwyr ac arfer gorau iaith glir yn pwysleisio brawddegau byr, geiriau cyfarwydd, ac esbonio unrhyw dermau cyfreithiol neu glinigol angenrheidiol y tro cyntaf iddynt ymddangos. Os na ellir osgoi term technegol, diffiniwch ef mewn geiriau clir.
- 386.** Nid yw hyn yn ymwneud â gor-symleiddio; mae'n ymwneud â gwneud y neges yn hawdd i'w deall y tro cyntaf iddi gael ei darllen, sy'n adeiladu ymddiriedaeth, yn lleihau pryder ac yn atal uwchgyfeirio.
- 387.** Cyflwynwch eich canfyddiadau'n ffeithiol a heb amwysedd ond byddwch yn ymwybodol o effaith y datganiadau ffeithiol hyn pan mae'n ymwneud â dioddefaint neu farwolaeth person. Ar gyfer pob mater a godwyd, nodwch ganfyddiadau'r ymchwiliad a'r rhesymau dros bob penderfyniad a wnaed.
- 388.** Mae amseroldeb yn hanfodol. Mae rheoliad 22(1) yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod o fewn pum diwrnod gwaith, ac mae rheoliad 24(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymateb llawn gael ei anfon o fewn 30 diwrnod gwaith.
- 389.** Mae rheoliad 24(1)(a)–(f) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr ymateb ysgrifenedig yn crynhoi'r materion, yn disgrifio'r ymchwiliad, yn cynnwys barn a chofnodion arbenigol perthnasol, ac yn nodi unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd. Os oedd gofal yn methu cyrraedd y safonau disgwyliedig, dywedwch hynny'n glir a chyhoeddi ymddiheuriad diamheuol. Monitwch yn ofalus yr effaith y mae'r datganiadau hyn yn ei chael ar yr unigolyn, yn enwedig os ydych yn bwydo'n ôl drwy gyfathrebu personol.
- 390.** Os nad yw'n bosibl darparu ymateb llawn o fewn 30 diwrnod gwaith, rhaid i chi esbonio pam a darparu dyddiad diwygiedig realistig, gan roi'r wybodaeth

ddiweddaraf i'r person. Os yw amgylchiadau eithriadol yn golygu na ellir bodloni hyd yn oed y terfyn allanol 6 mis yn rheoliad 24(4)– (5), rhaid i chi roi rhesymau a dyddiad disgwyliedig newydd. Mae'r rhain yn ofynion cyfreithiol.

- 391.** Os yw corff cyfrifol yn methu dyddiad cau y cytunwyd arno, gall hyn effeithio'n negyddol ar gywirdeb y cynrychiolydd unigol a ffydd yn y sefydliad yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn agored ac yn dryloyw. Gall hyn arwain at uwchgyfeirio a chanfyddiadau o anonestrwydd a chadw neu guddio'r gwir.
- 392.** Pan fo niwed wedi bod yn gymedrol, yn ddifrifol neu wedi achosi marwolaeth ac yn gysylltiedig â'r gofal neu'r driniaeth a ddarparwyd, gall y Ddyletswydd Gonestrwydd fod yn berthnasol. Rhaid i chi gadarnhau yn eich cyfathrebiad canlyniadau bod camau gonest wedi'u cymryd pan gododd y ddyletswydd a darparu adroddiad dilynol ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith, gan gynnwys ymddiheuriad ac amlinelliad o'r camau nesaf. Weithiau cyflawnir hyn ar ddiwedd y drafodaeth wrando neu yn fuan wedyn ar ôl i'r ffeithiau gael eu gwirio. Os yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd o dan adran 3 o Ddeddf 2020 yn gymwys a bod hysbysiad wedi'i roi o dan reoliadau 4(1) a 5(1) o Reoliadau 2023, nid oes angen i'r corff cyfrifol anfon yr hysbysiad o bryder at y claf neu ei gynrychiolydd.
- 393.** Gorffennwch drwy wahodd trafodaeth bellach. Cynigiwch gyfarfod yn bersonol, drwy fideo, neu dros y ffôn i drafod y canlyniad (rheoliad 24).
- 394.** Mae cyrff cyfrifol yn gyfrifol am ailasesu'r angen am a darparu manylion cymorth eiriolaeth drwy Llais ac egluro'r hawl i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon.
- 395.** Peidiwch â dirwyn y sgwrs i ben; yn hytrach, dylech greu llwybr diogel ar gyfer cwestiynau wrth fod yn glir am derfynau amser ffurfiol. Mae'r dull hwn yn gyson â rheoliad 24(1)(g)–(h) a safonau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer bod yn agored a hygyrchedd.

Cyfathrebu Cynnig Gwneud Iawn

- 396.** Pan fyddwch yn cyfathrebu penderfyniad Gwneud Iawn, mae'r un egwyddorion yn yr adran uchod yn berthnasol.
- 397.** Dechreuwch drwy gydnabod profiad y person a chrynhai, yn eu termau eu hunain, yr hyn a ddywedasant wrthyhych oedd bwysicaf iddynt. Yna esboniwch, mewn iaith glir, ganfyddiadau eich ymchwiliad a'r rhesymeg y tu ôl i'ch penderfyniad.
- 398.** Mae rheoliad 26 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a allai fodoli, eich bod yn darparu adroddiad interim sy'n esbonio pam, yn amgáu cofnodion perthnasol, ac yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu atebolrwydd a gwneud cynnig. Rhaid i chi hefyd gadarnhau mynediad at gyngor

cyfreithiol ac eiriolaeth am ddim a chynnig trafodaeth bersonol gyda'r swyddog cyfrifol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr adroddiad interim hwn yn canolbwyntio ar ganlyniad yr ymchwiliad fel y soniwyd uchod, gan ganolbwyntio ar y pryderon a godwyd gan y person a'i fod wedi'i ysgrifennu mewn modd sensitif, tosturiol a chlr.

- 399.** Mae llythyrau gor-gyfreithiol sy'n cynnwys paragraffau o esboniadau cyfreithiol cymhleth yn cael eu crybwyll gan y bobl sydd wedi cael eu niweidio fel rhai sy'n achosi niwed seicolegol iddynt. Gall canlyniadau anfwriadol hyn olygu bod pobl yn gweld hyn fel rhywbeth brawychus neu fygythiol pan fyddant wedi codi pryderon syml am eu gofal. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyfleu mewn iaith hygyrch ac yn cael ei hegluro'n glir. Rhaid i'r swyddog cyfrifol ar gyfer pob corff cyfrifol sicrhau bod iaith hygyrch ac esboniadau clir bob amser yn cael eu defnyddio gan y sefydliad.
- 400.** Os nad ydych yn gwneud cynnig, dywedwch hynny'n glir ac esboniwch pam, yn seiliedig ar y ffeithiau a'r safonau a gymhwyswyd. Mae rheoliad 33 yn ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniad hwn, p'un ai i gynnig neu beidio, yn cael ei gyfathrebu o fewn 120 diwrnod gwaith i'r pryder gael ei hysbysu, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol gyda rhesymau os oes amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.
- 401.** Gwnewch yn glir, mewn geiriau clir, bod y cyfyngiad yn cael ei oedi yn ystod y cyfnod hwn ond bydd yn ailgychwyn naill ai unwaith y bydd unrhyw gynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod, neu ar ôl naw mis os na dderbynnir ymateb, neu os nad oes cynnig yn cael ei wneud, naw mis o'r dyddiad y cyfathrebwyd y penderfyniad i beidio â gwneud cynnig (Rheoliad 30). Os derbynnir cynnig, eglurwch y bydd setliad drwy gytundeb ffurfiol a bydd yn cynnwys ildiad cyfreithiol o'r hawl i ddwyn achos llys ar gyfer yr un mater cymwys (Rheoliad 33(e)). Pan fo'r person yn blentyn neu heb alluedd, esboniwch fod angen cymeradwyaeth y llys ac y bydd y GIG yn talu'r costau cyfreithiol rhesymol o gael y gymeradwyaeth honno (Rheoliad 33(dd)–(e)).
- 402.** Drwy gydol y cyfan, cynhaliwch dôn agored, gefnogol. Ailgynigiwch eiriolaeth drwy Llais a chadarnhau mynediad at gyngor cyfreithiol annibynnol am ddim fel sy'n ofynnol gan reoliad 32.
- 403.** Rhowch enw a manylion cyswllt person a fydd yn cadw mewn cysylltiad ac yn ateb cwestiynau. Gwahoddwch y person i gwrdd â chi a'i deulu neu gefnogwyr i siarad am y penderfyniad a'r camau nesaf. Mae'r drafodaeth barhaus hon yn rhan o gydymffurfio â gonestrwydd ac mae'n cyd-fynd â safonau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cyfathrebu parchus ac urddasol.
- 404.** P'un a ydych yn cyfathrebu canlyniad ymchwiliad neu benderfyniad Gwneud lawn, mae'r egwyddorion yr un peth: byddwch yn dosturiol, byddwch yn glir, a byddwch yn gydymffurfiol. Cydnabyddwch brofiad y person, esboniwch beth

wnaethoch chi a pham, ymddiheurwch lle na chafodd safonau eu cyrraedd, a nodwch beth fydd yn newid.

- 405.** Defnyddiwch iaith glir, osgoi jargon, a diffinio unrhyw dermau technegol angenrheidiol. Bodlonwch yr amserlenni statudol, cynnig eiriolaeth a chyngor cyfreithiol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person.
- 406.** Mae'r rhain yn ddyletswyddau cyfreithiol o dan y Prif Reoliadau (fel y'u diwygiwyd), wedi'u hatgyfnerthu gan y Ddyletswydd Gonestrwydd ac egwyddorion rhwymedi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Wedi'i wneud yn dda, mae'r dull hwn yn lleihau'r risg o uwchgyfeirio, yn cryfhau ymddiriedaeth, ac yn dangos ymrwymiad y GIG i fod yn agored, tegwch a dysgu.

Pryderon am ofal oedolion mewn perygl

- 407.** Mae'r ethos o roi'r person wrth wraidd y broses hon o wrando a gweithredu, ac yna ymchwilio ac adrodd, ac yna dysgu yn allweddol i'r dull i'w fabwysiadu gyda'r rhai sy'n cael eu hystyried mewn perygl ac sydd angen ystyriaeth ofalus ac addasiadau i'r ffordd y mae'r system yn gwrando ar eu pryderon ac yn ymateb iddynt neu bryderon am y rhai yr ystyrir eu bod mewn perygl.
- 408.** Rhaid i gyrrff y GIG asesu ac addasu'r llwybrau mynediad i'r rhai sy'n llai abl i godi pryderon neu sydd heb alluedd neu sy'n agored i niwed yn gorfforol ac yn emosiynol.
- 409.** Rhaid i holl staff GIG Cymru (clinigol ac anghlinigol) mewn cyrrff GIG a allai dderbyn, brysbennu, ymchwilio, cyfathrebu neu uwchgyfeirio pryder sy'n ymwneud â pherson a allai fod yn agored i niwed (oedolyn mewn perygl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu unrhyw blentyn/person ifanc) fod yn glir ynghylch gwahaniaethau ac ystyriaethau allweddol a'r camau gweithredu y dylent eu cymryd a'u cyfrifoldebau i uwchgyfeirio a rhoi gwybod am bryderon.
- 410.** Os yw'r pryder yn arwydd o niwed uniongyrchol neu barhaus neu os gwneir honiadau yn mynegi pryderon am gam-drin neu niwed, rhaid i'r holl staff mewn byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau, practisau Gofal Sylfaenol drin y rhain fel mater diogelu brys. Mae hyn yn golygu gwneud atgyfeiriadau brys i'r awdurdod lleol (oedolion/plant) a'r heddlu lle nodir hynny; rhaid i staff beidio â gadael i'r camau gweithredu "Gwrando ar Bobl" ymyrryd â dyletswyddau neu weithredoedd diogelu statudol.
- 411.** Pan fydd pryderon yn cael eu codi gan berson arall, nad yw'n glaf, sy'n cael ei ystyried mewn perygl, rhaid ystyried y berthynas â'r claf ac a oes gan y claf y

gallu i gydsynio i ryddhau ei wybodaeth gyfrinachol neu a oes budd pennaf gwirioneddol.

- 412.** Os yw ymchwiliad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos ar y gweill neu'n dechrau mewn perthynas â'r mater, rhaid i'r corff cyfrifol gymryd cyngor gan y swyddog heddlu arweiniol neu'r arweinydd Diogelu yn hyb diogelu'r awdurdod lleol ynghylch a ddylid atal ER neu'r ymchwiliad yng ngham 2 cyhyd ag y bo angen ([Gweler yr adran ar Reoliad 24A](#)) er mwyn peidio â thanseilio neu wrthdaro â'r ymchwiliad diogelu neu heddlu.
- 413.** Efallai y bydd angen meddwl a pharatoi yn ofalus ynghylch cyfathrebu a gwrando ac arsylwi gweithredol gyda phobl sydd mewn perygl a chyda'r rhai sydd gyda nhw. Yn ogystal ag asesiad gofalus i ddeall natur y pryder sy'n cael ei godi ac a oes angen gweithredu ar unwaith arno neu ei uwchgyfeirio. Mae trafodaeth ehangach gydag uwch glinigwyr neu arweinwyr yn aml yn ddefnyddiol mewn perthynas â'r pryderon hyn gyda'r nod o ddod i gonsensws ar y camau priodol i'w cymryd.
- 414.** Mae angen cynnig gweithredol eiriolaeth i alluogi'r person i gael ei gefnogi drwy gydol y broses ac i sicrhau ei fod yn gallu cael ei glywed a'i ddeall yn ddigonol ac iddo gael cynnig cyfleoedd i ddeall a chymryd rhan lawn yn y broses.
- 415.** Cynnwys y person/teulu yn ystyrlon, gan gynnwys cynigion personol i drafod cynnydd/canlyniadau.
- 416.** Sicrhau bod staff cymorth y person yn cymryd rhan i helpu i gael y darlun llawn o anghenion a dymuniadau'r person; ystyried yr angen am gyngor meddygol annibynnol.
- 417.** Ar gyfer achosion o niwed cymedrol/difrifol neu farwolaeth, lle mae'r corff cyfrifol wedi penderfynu yn ystod yr ymchwiliad nad oes angen cyngor meddygol annibynnol, rhaid i'r corff cyfrifol gofnodi ei resymau dros y penderfyniad hwnnw.
- 418.** Rhaid i bob corff cyfrifol sicrhau bod polisïau lleol sy'n gweithredu'r canllawiau hyn yn cynnwys:
- Llwybrau atgyfeirio ar unwaith ar gyfer amheuaeth o niwed, cam-drin ac esgeulustod,
 - Rolau diffiniedig a gwneuthurwyr penderfyniadau ar gyfer defnyddio Rheoliad 24(A)
 - Prosesau ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau diogelu o fewn systemau Datix/LTP
 - Goruchwylio ac adolygu unrhyw ymchwiliadau wedi'u hatal dros dro yn rheolaidd

Mae'n hanfodol bod pob corff cyfrifol a byrddau diogelu rhanbarthol yn sicrhau gweithrediad cyson o'r prosesau hyn ac yn monitro pob sefydliad sy'n adrodd data i ddarparu'r sicrwydd hwnnw.

Plant a phobl ifanc – codi pryderon ac ymateb iddynt

Cynnal Hawliau a Lles Plant a Phobl ifanc yng Nghyd-destun Pryderon

Egwyddorion Craidd a Hawliau Cyfreithiol

418. Rhaid i les, urddas a hawliau plant a phobl ifanc fod yn ganolog i bob rhyngweithio gofal iechyd, yn enwedig pan fo pryderon yn cael eu codi am eu gofal. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae digwyddiad diogelwch cleifion wedi digwydd neu lle mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i hysgogi'n gyfreithiol.

419. Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- **Yn gwbl wybodus** ac yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu gofal, lle mae ganddynt y galluedd a'r awydd i wneud hynny.
- **Yn cael eu cefnogi** i ddeall beth sydd wedi digwydd, pam y digwyddodd, a beth fydd yn digwydd nesaf.
- **Yn cael eu diogelu** rhag niwed pellach drwy arferion cyfathrebu a diogelu sensitif, sy'n briodol i'w hoedran.

420. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):

- **Erthygl 12:** Hawl i fynegi barn yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arnynt.
- **Erthygl 13:** Hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth.
- **Erthygl 24:** Hawl i'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd.

Diogelwch Seicolegol ac Effaith Emosiynol

421. Gall plant a phobl ifanc brofi trallod emosiynol sylweddol pan nad yw digwyddiadau yn cael eu hegluro'n glir neu pan fyddant yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o drafodaethau. Gall hyn amlygu fel:

- Gorbryder ac ofn oherwydd ansicrwydd.
- Rhwystredigaeth a dicter o deimlo nad oes neb yn gwrandao arnynt.
- Straen meddyliol o bryderon heb eu datrys.

422. Rhaid i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn rhagweithiol drwy feithrin cyfathrebu agored, gonest a thosturiol, gan sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu a'i ddeall a darparu cymorth drwy eiriolaeth a/neu gyfranogiad rhieni/gwarcheidwaid.

Safonau Cyfathrebu

423. Rhaid i bob cyfathrebu â phlant a phobl ifanc fod:

- Yn agored, tryloyw, a chywir, yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.
- Wedi'i deilwra i oedran, cyfnod datblygiadol, profiad gofal iechyd, a galluedd meddyliol y plentyn.
- Sensitif ac amserol, gan osgoi oedi diangen a allai gynyddu trallod.
- Cynhwysol, gan gynnwys rhieni neu warcheidwaid lle bo hynny'n briodol, a defnyddio eiriolwyr pan fo angen.

424. Lle bo'n bosibl, dylai gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd mewn cyfathrebu pediatrig fod yn rhan o'r broses i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal mewn ffordd sy'n lleihau niwed ac yn cynyddu dealltwriaeth i'r eithaf.

Cynnwys Rhieni, Gwarcheidwaid ac Eiriolwyr

425. Hyd yn oed pan ystyrir bod plentyn yn gymwys yn ôl gofynion Gillick neu fod gan berson ifanc alluedd meddyliol, dylid eu hannog i gynnwys eu rhieni neu warcheidwaid mewn trafodaethau sy'n ymwneud â phryderon ynghylch gofal neu driniaeth, oni bai y byddai gwneud hynny'n niweidiol i'w llesiant.

426. Dylai plant a phobl ifanc gael dewis a llais gweithredol yn eu triniaeth a fyddai'n cynnwys lle mae pryderon wedi'u codi am eu gofal. Dylid ystyried yr eiriolwr a ffeirir gan y person ifanc wrth gydbwysu'r angen i'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant fod yn rhan o'r broses.

427. Rhieni a gwarcheidwaid:

- Darparu cefnogaeth emosiynol hanfodol.
- Cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i anghenion a dewisiadau'r plentyn.
- Gallant helpu i hwyluso trafodaeth adeiladol gyda'r tîm gofal iechyd.

428. Lle nad yw cyfranogiad rhieni yn bosibl neu'n briodol, dylid ystyried eiriolwr annibynnol i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

429. Dylid darparu gwybodaeth neu adnoddau sy'n ymwneud â chymhwysedd Gillick i bobl ifanc gael mynediad atynt.

Asesu Cymhwysedd a Chydsyniad

430. Ar gyfer plant o dan 16 oed, rhaid i weithwyr proffesiynol asesu cymhwysedd Gillick i benderfynu a oes gan y plentyn ddigon o aeddfedrwydd a dealltwriaeth i wneud penderfyniadau am ei ofal.

- Rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig.
- Os nad yw'r plentyn yn gymwys o ran Gillick, rhaid gwneud penderfyniadau mewn ymgynghoriad â rhiant neu warcheidwad cyfreithiol.
- Rhaid gwrando ar farn y plentyn neu'r person ifanc a'i pharchu, gyda chefnogaeth i'w helpu i ddeall y sefyllfa.

431. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch cymhwysedd a chydysyniad gael ei ddogfennu'n glir, a rhaid adolygu unrhyw benderfyniadau i atal gwybodaeth yn rheolaidd.

Diogelu a Rhwymedigaethau Cyfreithiol

432. Rhaid cynnal egwyddorion diogelu bob amser. Os bydd pryderon am ddiogelwch plentyn neu berson ifanc yn codi yn ystod trafodaethau, rhaid i weithwyr proffesiynol:

- Ddilyn gweithdrefnau diogelu statudol.
- Gwneud atgyfeiriadau priodol i dimau neu awdurdodau diogelu.
- Sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn cael ei flaenoriaethu yn yr holl gamau a gymerir.

Ymateb i'r pryderon a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc

433. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn codi pryder am eu gofal, rhaid i gyrff cyfrifol fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n blaenoriaethu diogelwch emosiynol, cydymffurfiaeth gyfreithiol ac ymgysylltu ystyrlon. Rhaid i'r broses gael ei chynllunio i rymuso'r plentyn neu'r person ifanc i fynegi eu pryderon yn rhydd, deall eu hawliau, a chymryd rhan yn y broses ddatrysiad mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran, eu gallu a'u dewisiadau.

434. Er mwyn hwyluso hyn, rhaid i gyrff y GIG sicrhau bod eiriolwyr hyfforddedig—fel y rhai a ddarperir gan Llais neu wasanaethau eiriolaeth plant eraill—ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc drwy gydol y broses bryderon. Dylai'r eiriolwyr hyn fod ag arbenigedd penodol mewn cyfathrebu â phlant a phobl ifanc, ac yn eu helpu i fynegi eu pryderon a'u canlyniadau a ddymunir.

435. Pan fydd pryder yn cael ei godi gan blentyn neu berson ifanc, rhaid i gorff y GIG ystyried yn ofalus a ddylid hysbysu'r person â Chyfrifoldeb Rhiant a sut i wneud hynny. Dim ond os nad yw'n gwrthdaro â hawliau neu ddiogelwch y plentyn neu'r person ifanc y dylai hysbysu ddiogelwch. Yn benodol, rhaid atal hysbysu os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi gofyn am gyfrinachedd yn benodol ac wedi cael ei asesu fel rhywun sy'n gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn nad oes ganddynt ddiffyg galluedd o dan

Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, neu'r rhai o dan 16 oed sy'n cael eu hystyried yn gymwys o ran Gillick. Yn ogystal, ni ddylai hysbysu ddigwydd os byddai'n peri risg i lesiant y plentyn, os nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol drech i'w ddatgelu, neu os yw'r plentyn yn Ward y Llys neu o dan awdurdodaeth y Llys Gwarchod.

- 436.** Pan fo'r hysbysiad yn briodol, dylid rhoi'r dewis i'r plentyn neu'r person ifanc naill ai ddatgelu'r pryder eu hunain—gyda chefnogaeth corff y GIG—neu i gorff y GIG i wneud y datgeliad ar eu rhan. Mae hyn yn parchu eu hymreolaeth wrth sicrhau bod y person sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn cael ei hysbysu'n briodol.
- 437.** Mewn achosion lle mae'r pryder yn cael ei godi gan riant neu warcheidwad, ac mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei ystyried yn gymwys o ran Gillick, dylai'r corff GIG gynnig cymorth i'r rhiant neu'r gwarcheidwad wrth drafod y pryder gyda'r plentyn. Mae hyn yn sicrhau bod y plentyn yn parhau i fod yn ganolog i'r broses a bod ei farn yn cael ei chydabod a'i pharchu.
- 438.** Os yw'r pryder yn cael ei godi gan rywun heblaw'r plentyn, y person ifanc, neu ei riant neu warcheidwad, rhaid i gorff y GIG hysbysu'r person sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn gyntaf. Yna rhaid iddo asesu a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gymwys i fod yn rhan o'r broses ac, lle bo'n briodol, eu cynnwys mewn trafodaethau am y pryder.
- 439.** Dylid cynnig trafodaeth wrando fel cam cynnar yn y broses ddatrys. Dylai'r cyfarfod hwn gael ei gynllunio i archwilio natur y pryder, nodi beth aeth o'i le, a deall yr hyn y byddai'r plentyn neu'r person ifanc yn hoffi ei weld yn digwydd o ganlyniad. Dylai'r cyfarfod fod yn gynhwysol, gan gynnwys y plentyn neu'r person ifanc a'u rhiant neu warcheidwad oni bai bod pryderon cyfrinachedd neu ddiogelu yn atal hyn. Dylid addasu fformat y cyfarfod i anghenion cyfathrebu'r plentyn, gan ddefnyddio cymhorthion gweledol, iaith symlach, neu offer rhyngweithiol yn ôl yr angen. Y nod yw creu lle diogel lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn teimlo ei fod yn cael ei glywed a'i gefnogi.
- 440.** Trwy gydol y broses, rhaid i gorff y GIG gadw datrysiad dymunol y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'w ddull gweithredu. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y gallai fod angen help ar blant a phobl ifanc i nodi'r problemau penodol yn eu gofal a mynegi sut yr hoffent i'r rhain gael eu datrys. Dylai staff gael eu hyfforddi i hwyluso'r sgysiau hyn mewn ffordd sy'n grymuso ac nad yw'n fygythiol.
- 441.** Pan fydd pryder yn mynd ymlaen i Gam 2 (Ymchwiliad), rhaid i gorff y GIG sicrhau bod yr holl adroddiadau a llythyrau canlyniadau yn cael eu hysgrifennu mewn iaith sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc. Dylid cynnig cymorth eiriolaeth i'w helpu i ddeall y canfyddiadau ac unrhyw iawn sy'n cael ei gynnig. Dylid rhoi'r opsiwn i'r plentyn neu'r person ifanc dderbyn yr adroddiad yn uniongyrchol, a dylid hysbysu'r person sydd â Chyfrifoldeb Rhiant hefyd lle bo'n briodol.

- 442.** Er mwyn sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant, rhaid i gyrff cyfrifol ddarparu sianeli amgen i blant a phobl ifanc godi pryderon, yn ogystal â dulliau traddodiadol fel galwadau ffôn, negeseuon e-bost a chwynion ysgrifenedig. Rhaid i'r sianeli hyn fod yn ddiogel, yn gyfrinachol ac yn cael eu monitro gan staff sydd wedi'u hyfforddi mewn diogelu ac ymgysylltu ag ieuencid. Dylid datblygu deunyddiau hyrwyddo mewn fformatau sy'n gyfeillgar i ieuencid er mwyn esbonio sut y gellir codi pryderon, pa hawliau sydd gan blant a phobl ifanc, a pha ganlyniadau y gallant eu disgwyl.
- 443.** Yn olaf, rhaid dogfennu'n glir bob penderfyniad ynghylch hysbysu, cydsyniad a chymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys cofnodion Gillick neu asesiadau galluedd, y rhesymeg dros benderfyniadau i beidio â datgelu, a manylion cyfranogiad eiriolaeth. Rhaid adolygu unrhyw benderfyniadau i atal gwybodaeth yn rheolaidd, yn enwedig os yw amgylchiadau'r plentyn yn newid. Rhaid cynnal egwyddorion diogelu drwy'r amser, a rhaid i unrhyw bryderon am ddiogelwch plentyn a nodwyd yn ystod y broses bryderon gael eu huwchgyfeirio yn unol â gweithdrefnau statudol.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- 444.** Sefydlwyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, gyda'i bwerau a'i gyfrifoldebau wedi'u moderneiddio gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer rôl yr Ombwdsmon, sy'n cynnwys ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys gofal a thriniaeth y GIG. Mae'r Ombwdsmon yn gweithredu fel corff annibynnol pan nad yw datrysiad lleol wedi'i gyflawni. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella'r broses o ymdrin â chwynion drwy ei swyddogaeth Awdurdod Safonau Cwynion.
- 445.** Dylai cleifion neu eu cynrychiolwyr godi pryderon gyda'r corff cyfrifol yn y lle cyntaf. Os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon, gallant gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon, fel arfer o fewn blwyddyn i'r digwyddiad neu i ddod yn ymwybodol ohono. Gall yr Ombwdsmon hefyd ystyried cwynion penodol sy'n ymwneud â gofal a ariennir yn breifat pan fo meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Rhaid i gyrff cyfrifol sicrhau bod yr holl ddeunyddiau sy'n wynebu cleifion yn cynnwys manylion cyswllt cyfredol yr Ombwdsmon a dileu unrhyw wybodaeth sydd wedi dyddio.

Ymateb i Adroddiadau'r Ombwdsmon o dan Ddeddf 2019

- 446.** Pan fydd yr Ombwdsmon yn cyhoeddi adroddiad yn dilyn ymchwiliad, mae gan gyrff y GIG ddyletswydd statudol i ymateb a dangos cydymffurfiaeth.

447. Mae Deddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol:

- 1) Bod darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllun gweithredu: Ar ôl derbyn adroddiad drafft, rhaid i gyrff y GIG adolygu argymhellion arfaethedig, ymgynghori â thimau perthnasol, a darparu sylwadau o fewn y terfyn amser a bennir gan yr Ombwdsmon. Dyma'r cyfle i godi pryderon am ddichonoldeb, dyblygu camau presennol, neu awgrymu gwelliannau.
- 2) Cydymffurfiaeth â'r Adroddiad Terfynol: Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi, rhaid i'r corff gadarnhau derbyn yr argymhellion a darparu tystiolaeth o weithredu o fewn yr amserlenni a bennir. Gall tystiolaeth gynnwys copiâu o lythyrau ymddiheuriad, polisïau diwygiedig, cofnodion hyfforddi, neu brawf o newidiadau systemig.
- 3) Cyflwyno tystiolaeth: Nid yw'n ddigonol nodi bod camau gweithredu wedi'u cwblhau; rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol. Os na ellir bodloni'r terfynau amser, rhaid i'r sefydliad roi gwybod i'r Ombwdsmon yn brydlon a gofyn am estyniad.
- 4) Pan fydd Methiant i Gydymffurfio: Os nad yw corff y GIG yn cydymffurfio heb reswm da, gall yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig, a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i adrodd i'r Senedd. Gall hyn gael goblygiadau o ran enw da a llywodraethu.
- 5) Ymgorffori Dysgu a Gwella: Mae argymhellion yn aml yn cynnwys gwelliannau systemig fel diweddariadau polisi neu hyfforddiant staff. Rhaid i gyrff y GIG sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori a'u monitro ar gyfer effeithiolrwydd.
- 6) ystyried a chynllunio ar gyfer cyhoeddusrwydd ac adrodd: O dan Ddeddf 2019, mae rhai adroddiadau (e.e., adroddiadau budd y cyhoedd) yn cael eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon a'r sefydliad. Rhaid i gyrff y GIG hefyd rannu adroddiadau'n fewnol â thimau llywodraethu ac yn allanol â Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

Dyletswydd i sicrhau bod cyrff cyfrifol yn dysgu o bryderon

448. Mae hyn yn nodi sut y bydd cyrff cyfrifol yn dysgu yn systematig o bryderon fel bod lleihad mewn digwyddiadau andwyol a niwed y gellir ei osgoi i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr, a staff. Mae'r rhwydweithiau dysgu yn cael eu cefnogi gan Gronfa Risg Cymru. Fodd bynnag, mae pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod y gwersi gwerthfawr o reoli pryderon yn cael eu hintegreiddio i'r system rheoli ansawdd ac i ymarfer o ddydd i ddydd ar gyfer yr holl wasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan gontractwyr gofal sylfaenol a darparwyr annibynnol neu gyda nhw. Dylid rhannu dysgu ar sail Cymru gyfan er mwyn gwella dysgu systemau ar draws y GIG.

449. Sail gyfreithiol: mae rheoliad 49(1) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyfrifol gael trefniadau i adolygu canlyniad unrhyw bryder yr ymchwiliwyd iddo o dan y

Prif Reoliadau ac i sicrhau bod diffygion a nodwyd yn cael eu gweithredu a'u monitro fel bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi a'u lledaenu ar draws y sefydliad er mwyn gwella gwasanaethau ac osgoi ailadrodd.

- 450.** Mae rheoliad 49(2) yn gosod cyfrifoldeb am weithredu'r trefniadau hyn gyda'r person sydd â goruchwyliaeth strategol a ddynodwyd o dan reoliad 6. Mae dyletswyddau cyflenwol ychwanegol wedi'u nodi mewn manau eraill yn y Prif Reoliadau, gan gynnwys y cyfarwyddyd i gael swyddog cyfrifol gyda goruchwyliaeth strategol a gweithredol ac uwch reolwr ymchwiliadau (rheoliadau 6, 7 ac 8) a'r gofyniad yn y safonau ymchwiliadau ac yn yr ymatebion o ymchwiliadau i gynnwys y dysgu a gafwyd (rheoliadau 23 a 24).
- 451.** Felly, rhaid i sefydliadau gael trefniadau gweithio sy'n adolygu, gweithredu, monitro a lledaenu dysgu o bob pryder yr ymchwiliwyd iddo, gan ei ymgorffori ym mhob gwasanaeth. Rhaid i sefydliadau ddangos tystiolaeth o'r gweithgareddau hyn drwy fonitro sicrwydd ac adrodd blynyddol yn rheolaidd (rheoliadau 50 a 51).

Egwyddorion

- 452.** Mae dysgu yn un o'r cynhyrchion allweddol o ymdrin â phryderon. Bydd pob pryder yn cynhyrchu allbwn dysgu clir (mewnwelediad, gweithredu, rheolaeth neu sicrwydd) hyd yn oed lle na chanfyddir unrhyw fai na gwall.
- 453.** Mae dysgu yn amserol (yn cyd-fynd â cherrig milltir yr ymchwiliad), yn gymesur (â niwed/cymhlethdod), yn gynhwysol (wedi'i gydgyhyrchu â'r rhai yr effeithir arnynt), ac yn cael ei rannu'n ddiogel (gan barchu diogelu data).

Dysgu o Bryderon

454.

- 1) Cofnodi a Dosbarthu - Ar ôl derbyn, codiwch bob pryder i alluogi cyfanredu (gwasanaeth, thema, ffactorau cyfrannol, niwed). Sicrhau nad yw achosion datrysiad cynnar (rheoliad 22A) nad ydynt yn bwrw ymlaen â'r ymchwiliad yn cael eu colli o'r biblinell ddysgu.
- 2) Ymchwilio i Gael Mewnwelediad – Bydd ymchwiliadau (rheoliad 23) yn nodi amodau'r system a'r ffactorau cyfrannol yn benodol, nid dim ond achosion sylfaenol. Pan fo niwed cymedrol/difrifol neu farwolaeth yn digwydd, mae'r ddyletswydd i ystyried a oes angen cyngor meddygol annibynnol i gefnogi'r ymchwiliad (rheoliad 23) a chofnodi rhesymau os nad yw'n ofynnol (rheoliad 50(aa)) yn golygu y gallai mwy o fewnwelediad fod ar gael i wella dysgu sefydliadol.
- 3) Synthesis – Trosi canfyddiadau yn wersi clir a rheolaethau risg (newid prosesau, hyfforddiant, amgylchedd, technoleg, polisi). Bydd pob achos yn llunio Crynodeb Dysgu.
- 4) Penderfynu a Chymeradwyo Camau – Ar gyfer pob gwers, gosodwch gamau gweithredu SMART gyda pherchnogion, dyddiadau dyledus a mesurau. Rhaid i

gamau sy'n deillio o bryderon sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd cymwys/gwneud iawn posibl gyd-fynd ag amserlenni Rhannau 6 a 7.

- 5) Gweithredu a Chymorth – Darparu adnoddau a chefnogaeth rheoli newid. Pan fo staff yn ymwneud â'r pryder, sicrhau cymorth a dysgu (rheoliad 23(1)(ch)).
- 6) Monitro ar gyfer Effaith - Tracio cwblhau ac effeithiolrwydd (cydymffurfiaeth prosesau a arwyddion canlyniad/ansawdd). Mae hyn yn bodloni gofyniad rheoliad 49(1) i fonitro mynd i'r afael â diffygion a'u hatal rhag digwydd eto.
- 7) Lledaenu a Sicrhau – Rhannwch wersi ar draws y sefydliad (rheoliad 49(1)) a, lle bo'n briodol, ar draws rhwydweithiau gofal. Rhwch sicrwydd drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a chynnwys allbynnau yn yr Adroddiad Blynyddol (rheoliad 51).

Rolau, llywodraethu ac atebolrwydd

Bwrdd a Phwyllgor

455. Bydd y person sydd â goruchwyliaeth strategol (rheoliad 6) yn sicrhau bod fframwaith dysgu wedi'i ddogfennu, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ar gyfer effeithiolrwydd. Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (neu gyfwerth) dderbyn data Dysgu o Bryderon a briffio thematig sy'n crynhoi gwersi allweddol, camau gweithredu a chadarnhad o ledaeniad.

Arweinwyr Gweithredol

456. Bydd y Swyddog Cyfrifol (rheoliad 7) yn sicrhau un llwybr llywodraethu integredig o bryder i weithredu i sicrwydd—sy'n cwmpasu ymchwiliadau, gwneud iawn (Rhan 6) ac adrodd. Bydd Uwch Reolwyr Ymchwiliadau (rheoliad 8) yn arwain y llwybr, gan warantu ansawdd, amseroldeb, cefnogaeth staff, a chydgyngyrchu â phobl a theuluoedd. Bydd Cyfarwyddwyr Clinigol/Penaethiaid Nyrso/Rheolwyr Gwasanaethau yn gweithredu camau tystiolaeth, yn cadarnhau effeithiolrwydd, ac yn sicrhau lledaeniad yn lleol.

457. Disgwylir i'r holl staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu (cyfarfodydd diogelwch, ôl-drafodaethau, hyfforddiant) ac i fabwysiadu rheolaethau newydd neu ddiwygiedig yn brydlon ar ôl cytuno arnynt. Dylai sefydliadau ystyried dull sy'n ystyriol o drawma wrth gynnwys staff a darparu cymorth cyfannol iddynt.

Adrodd ar y broses Gwranddo ar Bobl ac integreiddio i'r system Rheoli Ansawdd

458. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth effeithiol â'r Prif Reoliadau drwy gydol y flwyddyn, rhaid i gyrff cyfrifol sefydlu mecanweithiau adrodd mewnol cadarn sy'n galluogi monitro amser real, uwchgyfeirio a goruchwyllo llywodraethu. Dylai'r

mecanweithiau hyn gael eu cynllunio i gofnodi nifer a natur y pryderon a godwyd, olrhain cynnydd datrysiad, a nodi risgiau neu batrymau sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am sylw. Rhaid strwythuro adroddiadau mewnol i gefnogi ymatebolrwydd gweithredol tra hefyd yn bwydo i strwythurau goruchwyllo strategol fel y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd.

- 459.** Dylid cofnodi pryderon yn syth ar ôl eu derbyn yn system OFWCMS, gyda phwyntiau data allweddol gan gynnwys y categori pryder, difrifoldeb, ffynhonnell (e.e., claf, teulu, staff), ac a yw'r pryder yn ymwneud â gofal sylfaenol neu ddarparwyr gofal iechyd annibynnol. Rhaid i bob pryder fod yn gysylltiedig â thrafodaeth wrando, lle cytunir ar ddisgwyliadau, amserlenni, a chanlyniadau a ddymunir a dogfennu'r rhain. Mae'r data cychwynnol hyn yn sail ar gyfer monitro parhaus a dylid eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm pryderon a phrofiad cleifion.
- 460.** Dylid llunio adroddiadau mewnol misol sy'n crynhoi nifer y pryderon a gafwyd, statws datrysiad, achosion hwyr, a chydymffurfiaeth ag amserlenni y cytunwyd arnynt. Dylai'r adroddiadau hyn hefyd gynnwys mewnwelediadau ansoddol o arolygon adborth ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan dynnu sylw at feysydd lle cyrhaeddwyd safonau neu lle mae angen gwelliannau. Rhaid i'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan y tîm arweinyddiaeth weithredol a'u huwchgyfeirio i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch lle mae pryderon yn nodi materion systemig, methiannau dro ar ôl tro, neu risgiau i ddiogelwch cleifion.
- 461.** Dylai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch dderbyn adroddiad strwythuredig bob chwarter sy'n cynnwys dadansoddiad o dueddiadau, dysgu thematig, a metrigau cydymffurfio. Dylai'r adroddiad hwn hefyd dynnu sylw at bryderon sy'n ymwneud â darparwyr allanol a manylu ar sut mae'r rhain wedi'u rheoli a'u hintegreiddio i brosesau dysgu'r sefydliad. Pan fo pryderon yn nodi torri dyletswydd, methiant i gyrraedd safonau rheoleiddio, neu risg o niwed i enw da, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol uwchgyfeirio'r rhain yn uniongyrchol i Fwrdd neu gyfwerth y corff cyfrifol, gydag argymhellion ar gyfer gweithredu.
- 462.** Rhaid i'r Bwrdd gael gwybod am berfformiad cyffredinol y system pryderon, gan gynnwys sut mae dysgu yn cael ei ymgorffori yn y System Rheoli Ansawdd. Mae'r Swyddog Cyfrifol yn atebol am sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth amserol a chywir, a bod penderfyniadau a wneir ar lefel y Bwrdd yn cael eu llywio gan brofiadau bywyd cleifion a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r adroddiad blynyddol ond hefyd sicrhau bod diweddariadau interim drwy gydol y flwyddyn yn adlewyrchu ymateboldeb, tryloywder ac ymrwymiad y sefydliad i wella.

Adroddiad blynyddol

- 463.** Yn GIG Cymru, mae'r adroddiad blynyddol yn ofyniad statudol o dan reoliad 51 o'r Prif Reoliadau. Mae'n gwasanaethu fel crynodeb cynhwysfawr o sut mae pob

corff cyfrifol wedi ymdrin â phryderon dros y flwyddyn flaenorol, ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus ar draws y system iechyd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys cyfanswm nifer y pryderon a hysbyswyd i'r corff cyfrifol, gan gynnwys y rhai a gafwyd o dan drefniadau trawsffiniol a'r rhai sy'n ymwneud â gofal sylfaenol a darparwyr gofal iechyd annibynnol sy'n darparu gofal a ariennir gan y GIG. Rhaid iddo hefyd nodi faint o'r pryderon hyn y penderfynwyd bod sail dda iddynt a faint a gafodd eu hatgyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae'n ofynnol cynnwys crynodeb o bwnc y pryderon a hysbyswyd, unrhyw faterion o bwysigrwydd cyffredinol, a pha gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r materion a godwyd.

- 464.** Mae'r broses o lunio'r adroddiad blynyddol yn dechrau gyda chasglu a categoreiddio data yn systematig drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys metrigau meintiol—fel amseroedd datrysiad, categorïau pryderon, a chanlyniadau gwneud iawn—a mewnwediadau ansoddol o adborth gan gleifion a theuluoedd, adolygiadau cymheiriaid, a dadansoddiad thematig. Ar gyfer cyrff y GIG sy'n comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr gofal sylfaenol neu ddarparwyr gofal iechyd annibynnol, mae'n hanfodol bod y partneriaid hyn hefyd yn llunio eu hadroddiadau blynyddol eu hunain. Rhaid cyflwyno'r rhain i'r BILL a drefnodd ddarparu gwasanaethau. Yna mae'n ofynnol i'r BILL ymgorffori'r cyflwyniadau hyn yn ei adroddiad blynyddol ei hun, gan sicrhau bod profiadau a chanlyniadau gofal a ddarperir gan ddarparwyr allanol yn cael eu cynrychioli'n llawn.
- 465.** Nid yw integreiddio'r adroddiadau allanol hyn yn adroddiad blynyddol y corff cyfrifol yn ymarfer goddefol. Mae'n gofyn am oruchwyliaeth a chydlynu gweithredol i sicrhau bod y data yn gyflawn, yn gywir ac yn adlewyrchu'r safonau a nodir yn y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys gwirio bod pryderon a godwyd am wasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal sylfaenol ac annibynnol wedi cael eu hymchwilio'n briodol, bod dysgu wedi'i gofnodi, a bod unrhyw welliannau angenrheidiol wedi'u gweithredu. Rhaid i'r corff cyfrifol hefyd sicrhau bod adrodd yn gyson â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd, a bod y dadansoddiad o dueddiadau a themâu yn cynnwys cyfraniadau o bob maes gwasanaeth, waeth beth fo'r darparwr.
- 466.** Mae'r Swyddog Cyfrifol yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon. Fel arweinydd gweithredol y system bryderon, maent yn atebol i'r Bwrdd Gweithredol am sicrhau bod y broses Gwrando ar Bobl wedi'i hymgorffori'n llawn ar draws y sefydliad a'i wasanaethau a gomisiynwyd. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r gwaith o gasglu data, sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adrodd, a chydlynu'r broses o integreiddio adroddiadau darparwyr allanol. Rhaid i'r Swyddog Cyfrifol hefyd sicrhau nad yw'r adroddiad blynyddol yn ddogfen ôl-weithredol yn unig ond yn offeryn strategol sy'n llywio llywodraethu, gwella ansawdd, a chynllunio gwasanaethau. Maent yn gyfrifol am gyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol, gan dynnu sylw at ganfyddiadau, risgiau a chyfleoedd i

wella, a sicrhau bod y bwrdd yn cymryd camau priodol mewn ymateb i hynny.

- 467.** Drwy'r cyfrifoldebau adrodd parhaus, mae'r Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn atebol i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu a bod y mewnwelediadau a gafwyd o bryderon yn cael eu defnyddio i ysgogi newid ystyrllon. Felly, mae'r adroddiad blynyddol yn dod yn fecanwaith hanfodol ar gyfer dysgu, tryloywder a sicrwydd, gan gysylltu manylion gweithredol y broses gwrando ar bobl â goruchwyliaeth strategol y Bwrdd Gweithredol a fframwaith llywodraethu ehangach GIG Cymru.
- 468.** Drwy gynnal cylch parhaus o adrodd mewnol, uwchgyfeirio a goruchwyllo llywodraethu, gall cyrff y GIG sicrhau bod y broses gwrando ar bobl nid yn unig yn cydymffurfio ond hefyd yn sbardun dynamig o ansawdd, diogelwch ac ymddiriedaeth.

Rhestr Termau

Cydnabyddiaeth

Cadarnhad ysgrifenedig ffurfiol a gyhoeddir gan y corff cyfrifol heb fod yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael hysbysiad o bryder, gan gynnwys cynnig Trafodaeth Wrando a gwybodaeth cymorth cyfathrebu. Gellir gwneud y gydnabyddiaeth yn ysgrifenedig neu'n electronig, yn dibynnu ar sut yr hysbyswyd y pryder. Pan hysbyswyd pryder ar lafar, rhaid i'r gydnabyddiaeth fod yn ysgrifenedig.

Eiriolaeth

Cymorth annibynnol a gynigir i bobl sy'n codi pryderon; rhaid ei gynnig yn weithredol yn ystod y Trafodaeth Wrando.

Pryder

Unrhyw gŵyn, hawliad neu ddigwyddiad diogelwch cleifion a adroddwyd i'w drin o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru).

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

[Dyletswydd Gonestrwydd y GIG | LLYW.CYMRU](#): Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol i Sefydliadau'r GIG yng Nghymru fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Amlinellir hyn yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol os yw'r gofal a ddarperir wedi cyfrannu, neu a allai fod wedi cyfrannu, at niwed cymedrol neu ddifrifol annisgwyl neu anfwriadol, neu farwolaeth.

Y Ddyletswydd Ansawdd

[Y ddyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd | LLYW.CYMRU](#): Gofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a holl gyrff y GIG yng Nghymru ystyried yn weithredol sut y bydd eu penderfyniadau yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd ac yn gwella canlyniadau i'r boblogaeth. Rhaid dangos y ddyletswydd drwy wneud penderfyniadau sy'n cael eu hysgogi gan ansawdd, gan ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal i gynllunio, darparu, monitro a gwella gwasanaethau yn barhaus.

Datrysiaid Cynnar

Cam 1 ("Gwrando a Gweithredu"). Proses gyflym, gymesur i ddatrys pryderon syml o

fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cydnabyddiaeth.

Cyfnod Datrysiad Cynnar

Uchafswm o 10 diwrnod gwaith yn dechrau ar y diwrnod y mae'r corff cyfrifol yn cydnabod y pryder.

Trafodaeth Wrando

Cynnig gorfodol (ar y pwynt cydnabyddiaeth) o drafodaeth bersonol, a all fod dros y ffôn, fideo neu wyneb yn wyneb, i ddeall pryderon, anghenion cyfathrebu, canlyniadau a ddymunir ac addasrwydd ar gyfer datrysiad cynnar.

Llais

Corff llais y dinesydd annibynnol yng Nghymru sy'n darparu eiriolaeth a chymorth am ddim i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwasanaeth Archwilydd Meddygol

Gwasanaeth statudol sy'n darparu craffu annibynnol ar farwolaethau cyn cofrestru; mae'n rhyngwynebu â phrosesau LTP drwy ddyletswyddau cyfathrebu penodol.

Hysbysu

Y weithred o hysbysu'r corff cyfrifol am bryder—boed ar lafar neu'n ysgrifenedig—sy'n dechrau'r broses bryderon yn ffurfiol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW)

Y sefydliad annibynnol sy'n gallu adolygu cwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG, os ydych yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl ymchwiliad y GIG.

Atebolrwydd Cymwys (QL)

Pan fo anaf personol neu golled wedi'u profi yn deillio o ofal neu driniaeth claf, neu mewn cysylltiad â hynny, oherwydd y gwasanaeth a ddarperir gan y corff cyfrifol.

Iawn

Mae iawn yn ymwneud â sefyllfaoedd lle gallai'r claf fod wedi cael ei niweidio a'r niwed hwnnw wedi'i achosi gan y GIG yng Nghymru. Gall iawn gynnwys :

- ymddiheuriad ysgrifenedig;
- adroddiad ar y camau a gymerwyd neu a gymerir i atal pryderon tebyg rhag codi;
-
- rhoi esboniad, a

- chynnig digollediad ariannol a/neu driniaeth adferol, ar yr amod na fydd y person yn ceisio mynd ar drywydd yr un peth drwy achosion sifil pellach

Corff cyfrifol

Un o gyrff GIG Cymru; darparwr gofal sylfaenol; neu ddarparwr annibynnol.

Pryder Diogelu

Pryder sy'n nodi niwed neu gam-drin sydd ar fin digwydd, parhaus neu fwriadol, gan ysgogi prosesau diogelu ar unwaith yn annibynnol ar amserlenni LTP.

Ymchwiliad Cam 2 (Rheoliad 23)

Ymchwiliad ffurfiol, cymesur sy'n ofynnol pan nad yw datrysiad cynnar yn addas neu'n aflwyddiannus.

Pryder Blinderus neu Wacsaw

Pryder a ystyrir yn ddi-sail neu a fwriadwyd i amharu, y gellir ei eithrio o dan Reoliad 14.

Corff GIG Cymru

Bwrdd Iechyd Lleol; neu un o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru yn gyfan gwbl neu'n bennaf; neu Awdurdod Iechyd Arbennig.

Atodiad 1: Sylfaen dystiolaeth a darllen pellach

Y Drafodaeth Wranddo

1. van Dael J, Reader TW, Gillespie A, Neves AL, Darzi A, Mayer EK. Learning from complaints in healthcare: a realist review of academic literature, policy evidence and front-line insights. *BMJ Quality & Safety*. 2020;29(8):684–695. Ar gael yn: <https://qualitysafety.bmj.com/content/29/8/684>
2. Antonopoulou V, Meyer C, Chadwick P, et al. Understanding healthcare professionals' responses to patient complaints in secondary and tertiary care in the UK: a systematic review and behavioural analysis using the Theoretical Domains Framework. *Health Research Policy and Systems*. 2024; 22:137. Ar gael yn: <https://health-policy-systems.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12961-024-01209-4>
3. Patient Experience Network / Picker. Benefits of Early Resolution in the Complaints Process (Northern Devon Healthcare NHS Trust case study). Ar gael yn: <https://patientexperiencenetwork.org/case-study/benefits-of-early-resolution-in-the-complaints-process/>
4. Asiantaeth Ymchwil ac Ansawdd Gofal Iechyd. Communication and Optimal Resolution (CANDOR) Toolkit. Ar gael yn: <https://www.ahrq.gov/patient-safety/settings/hospital/candor/index.html>
5. Skills for Health. Person-Centred Care: What it means and why it matters. 2025. Ar gael yn: <https://www.skillsforhealth.org.uk/article/person-centred-care-meaning-implications/>
6. Parliamentary and Health Service Ombudsman. Early resolution: resolving complaints quickly (NHS Complaint Standards – Good complaint handling guide). Ar gael yn: <https://www.ombudsman.org.uk/organisations-we-investigate/complaint-standards/nhs-complaint-standards/good-complaint-handling-guides/early-resolution-resolving-complaints-quickly>
7. Crocker H, Cromwell DA, Modha S, et al. Patient-reported harm from NHS treatment or care, or the lack of access to care: a cross-sectional survey of prevalence, impact and responses. *BMJ Quality & Safety*. 2025 (ar-lein yn gyntaf). Ar gael yn: <https://qualitysafety.bmj.com/content/early/2025/04/02/bmjqs-2024-017213>

Cyfathrebu Canlyniadau Ymchwiliadau a Phenderfyniadau Gwneud Iawn

1. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – [Cyfathrebu am eich cwyn](#)
2. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – [Rhwymediâu](#)

ATODIADAU

Atodiad A

Addewid y Bobl ar Bryderon GIG Cymru

Beth allwch ei ddisgwyl pan fyddwch yn codi pryder:

Pan fyddwch yn codi pryder am wasanaethau GIG Cymru, rydym yn gwneud yr addewidion canlynol i chi.

1. Mynediad Hawdd, Cefnogaeth a Datrysiaid Cynnar

Ein haddewid i chi

- Gallwch godi pryder yn hawdd drwy un pwynt mynediad clir.
- Byddwch yn cael cynnig cefnogaeth eiriolaeth o'r cychwyn cyntaf.
- Byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol ac yn parchu eich dewis iaith (Cymraeg, Saesneg neu arall).
- Byddwn yn ystyried datrys eich pryder yn gynnar, lle bo'n briodol, wrth sicrhau nad yw hyn byth yn atal nac yn oedi ymchwiliad ffurfiol os oes angen hynny.

2. Parch, Tosturi a Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Ein haddewid i chi

- Byddwch yn cael eich trin â pharch, urddas a thosturi ar bob cam.
- Byddwn yn gwranddo ar yr hyn sy'n bwysig i chi a byddwn yn eich cynnwys yn y ffordd y caiff eich pryder ei drin.
- Byddwch yn cael cynnig trafodaeth wrando, fel bod eich pryderon, eich dymuniadau a'ch disgwyliadau yn cael eu deall yn glir.
- Byddwn yn agored, yn onest ac yn atebol yn ein dull gweithredu.

3. Gwybodaeth, Cyfathrebu a Diweddariadau Clir

Ein haddewid i chi

- Byddwn yn esbonio sut mae'r broses bryderon yn gweithio, yr opsiynau sydd ar gael, a beth i'w ddisgwyl.
- Byddwch yn cael cyswllt a enwir sy'n gyfrifol am eich pryder.
- Byddwn yn dweud wrthyich pa mor hir y mae pethau'n debygol o gymryd ac yn eich hysbysu os bydd amserlenni yn newid.
- Bydd eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd yn cael eu parchu, a byddwn yn esbonio a oes angen rhannu gwybodaeth, â phwy a pham.

4. Trin Amserol, Teg a Seiliedig ar Dystiolaeth

Ein haddewid i chi

- Bydd eich pryder yn cael ei asesu'n ofalus a'i drin yn gymesur, heb oedi diangen.
- Os oes risg ddifrifol o niwed yn y dyfodol, byddwn yn gweithredu ac yn uwchgyfeirio'n briodol.
- Byddwn yn ystyried eich pryder yn deg a heb ragfarn, yn seiliedig ar y dystiolaeth.
- Lle bo hynny'n briodol, gallwn gyfarwyddo arbenigwr meddygol annibynnol ar y cyd.
- Bydd unrhyw benderfyniad i gyfyngu ar sut mae pryder yn cael ei drin oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn flinderus neu'n wacsaw yn eithriadol, yn gyfiawn, yn cael ei gofnodi a'i esbonio i chi.

5. Canlyniadau Clir, Ymatebion Ystyrlon a Gwneud Iawn

Ein haddewid i chi

- Byddwn yn ymddiheuro pan fydd pethau wedi mynd o'i le ac yn esbonio beth fydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
- Byddwch yn derbyn ymateb ysgrifenedig clir sy'n mynd i'r afael â phob mater a godwyd gennych.
- Byddwn yn cynnig cyfarfod canlyniadau i esbonio'r hyn a ganfuom a sut y daethpwyd i benderfyniadau.
- Os ystyrir iawn, byddwn yn eich cyfeirio i gymorth cyfreithiol a ariennir lle bo hynny'n briodol.

6. Dysgu, Gwella a Chraffu Annibynnol

Ein haddewid i chi

- Byddwn yn defnyddio eich pryder i ddysgu a gwella gwasanaethau, gan helpu i leihau niwed yn y dyfodol.
- Byddwn yn esbonio beth sydd wedi'i ddysgu a beth sydd wedi newid, o ganlyniad i'ch pryder.
- Byddwn yn ystyried a oes angen cyngor meddygol annibynnol neu gyngor arall fel rhan o ymchwiliad i niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth. Byddwn yn cofnodi'n glir ein rhesymau os nad oes ei angen

7. Atebolrwydd, Tryloywder a'ch Hawl i Adolygu

Ein haddewid i chi

- Bydd sefydliadau'r GIG yn atebol am sut mae eich pryder yn cael ei drin.
- Bydd cofnodion cywir yn cael eu cadw, a bydd dysgu yn cael ei rannu'n agored drwy adrodd blynyddol.
- Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon, byddwn yn egluro'n glir sut i geisio adolygiad pellach, gan gynnwys eich hawl i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Listening to People

The NHS Wales Complaints,
Incidents and Redress Policy

- Guidance for Organisations

2026

Table of Contents

Introduction.....	7
Listening to People: The NHS Wales Complaints, Incidents and Redress Process 2026	8
Foreword by Jeremy Miles MS, Cabinet Secretary for Health and Social Care.....	8
Chief Nursing Officer Foreword.....	9
General Principles of Listening to People: The NHS Wales Complaints, Incidents and Redress process	11
The People’s Pledge on NHS Wales Concerns	11
The four principles of Listening to People.....	11
The Standards	12
Strategic and operational duties, oversight and local arrangements	13
The Approach: Stage 1 Listen and Act; Stage 2 Investigate, Respond and Learn	17
Putting people at the heart of the process.....	17
Stage 1 – Listen and Act	17
Listen	17
Act	18
Stage 2 – Investigate, Respond and Learn	19
Investigate.....	19
Respond.....	19
Learn.....	20
Notification, acknowledgement and grading of a concern.....	20
Who can raise a concern.....	22
Prisoners who raise concerns	23
Matters Excluded from Consideration Under the Arrangements.....	23
Time Limit for Notification of Concerns	24
Withdrawal of concerns.....	25
Concerns that are vexatious or frivolous	25
Grading Concerns	26
Principles of Grading	27
Harm Grading Framework	28
Independent investigation.....	29
National Reporting & Escalation.....	29
Concerns of imminent or ongoing harm.....	30
Implementing Regulation 24A: Guidance for Suspending Early Resolution or Investigation ..	31
When to Consider Suspension	32
Practical Application and Process.....	32

Concerns involving primary care	33
Concerns regarding services provided by independent providers (IPs) under arrangements with a Welsh NHS Body.....	34
Exceptional Circumstances	34
Investigation Pathway and Consent	35
Decision Communication and Rights	35
Concerns involving other responsible bodies	36
Initial Identification and Action	36
Coordination and Lead Designation	36
Listening discussion.....	37
Investigation and Response.....	37
Communication and Updates.....	37
Learning and Reporting	37
Escalation and Disputes.....	37
Contractual and Cross-Border Considerations	38
Communication with patients, service users and their families	38
Those who are bereaved and raising concerns about care.....	38
People Who Are Bereaved and Raising Concerns About Care	39
Guidance on the Approach (Process and Practice).....	40
Case example to illustrate how confusion about roles in a community death at home can be addressed	41
Bereavement in maternity care.....	41
Case example — Stillbirth at 38 weeks; could it have been prevented?.....	42
Bereavement of a child or young person	42
Case example — Unexpected death of a 9-year-old; parents request rapid answers	43
References - bereavement	44
The Medical Examiners service	45
HM Coroner and the Listening to People process	45
References – Medical Examiners Service	48
The Listening Discussion	49
Stage 1 – Listening and acting to resolve concerns and the early resolution period	51
Principles of Early Resolution	52
Determining Suitability for Early Resolution.....	52
Actions During the Early Resolution Period.....	52
Review of information	53
Updating the person raising concern.....	53

Satisfactory resolution	53
When Early Resolution Cannot Proceed	54
Record-Keeping and Monitoring.....	54
Research Evidence Supporting This Approach.....	54
Manager’s Compliance Checklist	55
Stage 2: Investigate, Respond and Learn	56
Procedure before investigation under Regulation 23.....	56
Investigation of concerns.....	57
Redress	58
General Overview	58
Response to a concern	61
Regulation 24 (response).....	62
Regulation 26 (Response to an investigation under regulation 23 where it is decided that there is or there may be a qualifying liability)	63
Regulation 31 (investigation report) and 33 (redress – communication of a decision)	64
Redress process	65
Independent experts	68
Provision of legal advice	68
Limitation - suspension	69
Quantum	70
General damages	70
Special damages	71
Quantum in fatal cases.....	72
Compensation Recovery Unit.....	72
NHS Charges.....	72
Appendix to Redress Section	74
Qualifying Liability – an explanation.....	74
Duty of Care.....	74
Standard of Care: Breach of Duty.....	74
Investigating Breach of Duty	75
Standard and Burden of Proof.....	75
Causation.....	76
An Alternative Causation Test - Material Contribution	76
Investigating Causation	76
Concerns Relating to Consent	77
Breach of Duty (consent).....	77

Material Risk.....	77
Causation (consent).....	78
Redress where care is provided by English, Scottish or Northern Irish NHS providers.....	78
Core Principle of Equity	79
Legal Context Across the UK	79
Qualifying liability in Scotland and Northern Ireland	79
Action Required Under Regulation 38 (as amended)	80
Operational Actions When a Cross-Border Concern is Raised.....	80
Communicating Outcomes of Investigations and Redress Decisions	81
Communicating the Outcome of Investigations into Concerns.....	82
Communicating a Redress Offer	83
Concerns about the care of adults at risk	85
Children and young people – raising concerns and responding to them	86
